CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

# Cronfa Loteri Fawr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010



# Cronfa Loteri Fawr
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 34(3) ac Adran 43D Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006.

I'w argraffu ar 22 Gorffennaf 2010 yn unol â gorchymyn T ŷ'r Cyffredin.

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion Yr Alban ar 22 Gorffennaf 2010

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

HC 337 Llundain: Y Llyfrfa £27.25

SG/2010/131

© Big Lottery Fund (2010)
The text of this document (this excludes, where present, the Royal Arms and all departmental and agency logos) may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not in a misleading context.

The material must be acknowledged as Big Lottery Fund copyright and the document title specified. Where third party material has been identified, permission from the respective copyright holder must be sought.
ISBN: 9780102968101

Printed in the UK for The Stationery Office Limited
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office

ID P002377710 07/10

Printed on paper containing 75% recycled fibre content minimum.

Cronfa Loteri Fawr

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009/10

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad a chrynodeb gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | | 2 |
| **Adran un** | Ariannu deallus: y ffordd yr ydym yn gweithio | 4 |
| **Adran dau** | Ein rhaglenni grantiau | 10 |
| **Adran tri** | Ein perfformiad gweithredol | 26 |
| **Adran pedwar** | Ein perfformiad ariannol | 36 |
| **Adran pump** | Ein fframwaith llywodraethu; sut rydym yn gweithio, gan gynnwys | 44 |
| | Yr adroddiad tal cydnabyddiaeth | 50 |
| **Adran chwech** | Ein datganiadau ariannol, gan gynnwys | 54 |
| | Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifon | 54 |
| | Datganiad o reolaeth fewnol | 56 |
| | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd y DU a Senedd yr Alban | 60 |
| | Cyfrifon blynyddol | 62 |
| **Adran saith** | Ein cefndir statudol | 88 |
| **Atodiad** | Ein grantiau mawr – manylion dyfarniadau dros £5 miliwn | 100 |

# Cyflwyniad a chrynodeb
## gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad a chyflawniadau'r Gronfa Loteri Fawr yn 2009/10. Ein cenhadaeth yw dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Gwnawn hyn drwy ddefnyddio arian a godir gan y Loteri Genedlaethol i gefnogi prosiectau ledled y DU at ddibenion iechyd, addysg, amgylcheddol ac elusennol.

Mae llawer o bobl yn tybio mai'r dasg hawsaf yn y byd yw rhoi arian i achosion da. Mae'n un o'r rhai mwyaf pleserus yn bendant. yn 2009/10 gwnaed 14,000 o ymrwymiadau i grwpiau ar hyd a lled y DU, sef cyfanswm o £440 miliwn. Amrywiodd y rhain o £300 ar gyfer prosiectau cymunedol bach i fuddsoddiadau mwy trawsnewidiol dros £1 miliwn. Ond mae nifer yr achosion da'n fwy na'r arian sydd ar gael i'w cefnogi, gan olygu nad yw'r dasg mor hawdd ag y mae'n edrych. Yn 2009/10, gwnaethom dderbyn mwy na 28,000 o geisiadau'n gofyn am dros £1 biliwn.

Mae gennym dri amcan corfforaethol: effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd profiad y cwsmer. Er na allwn helpu pob achos da, rydym am sicrhau bod y profiad o wneud busnes gyda'r Gronfa Loteri fawr yn un y gall ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grantiau ddysgu ohono. Ac rydym am i'n hariannu wneud gwahaniaeth – prawf pennaf ein gwerth fel ariannwr yw'r canlyniadau a gyflawnwyd gan arian Loteri o ran gwella bywydau pobl, nid dosbarthu arian i achos da'n unig. Felly yn ogystal â'r 14,000 o ddyfarniadau a wnaed yn 2009/10, rydym wedi bod wrthi'n rheoli 26,000 o ddyfarniadau pellach a wnaed yn y gorffennol. Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh) yn aml yn y sefyllfa orau i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth. Ein targed yw y bydd yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n hariannu rhwng 2009 a 2015. Yn 2009/10, aeth 92 y cant o ddyfarniadau newydd yn uniongyrchol i'r SGCh. Defnyddiwyd yr 8 y cant arall yn bennaf ar gyfer cefnogi partneriaethau cymunedol ehangach a arweiniwyd gan gyrff statudol ond gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol wrth ddiwallu anghenion pobl a chyflawni newid cadarnhaol.

Ein costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Loteri yn 2009/10 oedd 7.4 y cant o'r incwm a dderbyniwyd. Rydym yn parhau i reoli ein costau gweithredu er mwyn cyflwyno gwerth am arian. Rydym wedi gwneud arbedion mawr drwy adleoli llawer o'n staff o Lundain a'r De-ddwyrain, a thrwy roi rhaglen arbedion ar waith o ran llety a chaffael. Rydym yn gweithio ar foderneiddio ein system rheoli ariannu, gan godi'r tebygolrwydd o arbedion a gwelliannau gwasanaeth yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i rannu gwasanaethau gyda dosbarthwyr eraill y Loteri pan fydd hynny'n gwneud synnwyr. Er enghraifft, unwyd ein gwasanaethau cyfreithiol gyda rhai Cyngor Celfyddydau Lloegr eleni.

Gweithredwn ledled y DU, ond gyda lefelau sylweddol o gyfrifoldeb a ddatganolir i bwyllgorau gwlad yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae ein pwyllgorau gwlad yn dylunio ac yn rheoli tua 90 y cant o'n hariannu i ddiwallu anghenion a bennwyd yn lleol. Rydym yn defnyddio'r 10 y cant sy'n weddill i wneud y defnydd gorau posib o raglenni ariannu y gellir eu rhedeg ledled y DU yn unig. Un o'n cryfderau mwyaf yw'r gallu i ddysgu o'n holl raglenni ariannu fel bod y cyfan yn fwy na swm ei gydrannau.

Mae ein gallu o ran ariannu ar gael i eraill fanteisio arno os dymunant. Yn Lloegr rydym yn hynod falch o fod yn rheoli'r rhaglen Asedau Cymunedol gwerth £30 miliwn ar ran y Swyddfa Cymdeithas Ddinesig, sy'n ariannu sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol i brynu adeiladau sector cyhoeddus wedi'u hadnewyddu. Rydym yn rheoli'r rhaglen ***myplace*** gwerth £270 miliwn ar gyfer yr Adran Addysg. Nod ***myplace*** yw creu rhai o gyfleusterau ieuenctid gorau'r byd ar gyfer pobl ifanc. Ym mis Ebrill 2009 lansiwyd y rhaglen Sgiliau Bywyd gwerth £14 miliwn yng Nghymru, sy'n cael ei hariannu ar y cyd rhyngom ni a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd y rhaglen yn cefnogi pobl sy'n anweithgar yn economaidd i ymwneud ag addysg, dysgu, gwirfoddoli neu gyflogaeth, neu ddychwelyd iddynt. Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd wedi'i henwebu fel y corff sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur i achosion da ledled y DU.

Ym mis Mehefin 2009 cyhoeddwyd 'Y Farn Fawr', ein fframwaith strategol hyd at 2015. Derbyniwyd mwy na 3,500 o ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriad yn ogystal ag ymgysylltu â miloedd yn fwy ar hyd a lled y DU. Nododd y neges gryfach o anogaeth a chefnogaeth allu'r Gronfa Loteri Fawr i fod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn barod i newid. Amlygwyd hyn yn wych gan ein hymateb i'r dirwasgiad. Gwnaethom ailflaenoriaethu ein cyllidebau er mwyn darparu £45 miliwn ychwanegol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn 2009/10. Sianelwyd hyn drwy ein rhaglenni cyfredol megis Reaching Communities a BASIS. Caiff £43 miliwn ychwanegol ei fuddsoddi ledled y DU i fynd i'r afael ag effeithiau tymor hwy y dirwasgiad ar gymunedau'r DU. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i nifer sylweddol o'r bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus.

Yn hytrach na chynnal cyfarfod cyffredinol cyhoeddus blynyddol eleni, cynhaliwyd y Sgwrs FAWR ar-lein ym mis Mawrth 2010. Parhaodd hon â'n sgwrs gydag unigolion, sefydliadau a chymunedau, gan gynnig cyfle iddynt gyflwyno cwestiynau i Gadeirydd y Gronfa Loteri Fawr, Syr Clive Booth, yn ogystal â chadeiryddion pwyllgorau pedair gwlad y DU, drwy sgwrs dros y we, podlediad, e-bost a Twitter. Rydym yn parhau i groesawu cwestiynau unrhyw bryd drwy ein gwefan, ein cyfrif Twitter, ein gwefan YouTube neu lwybrau mwy traddodiadol.

Hoffem ddiolch i staff y Gronfa Loteri Fawr ac eraill rydym yn gweithio gyda hwy am eu hymroddiad, eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu hegni a'u brwdfrydedd wedi rhoi cyfle i ni gyflawni pethau gwych. Fodd bynnag, nid yw'r Gronfa Loteri Fawr ond yr un mor dda â'r sefydliadau syfrdanol y mae'n fraint gennym eu hariannu, felly rhoddir ein diolchiadau terfynol a phwysicaf i'r miloedd o grwpiau cymunedol sydd wedi mynd â'n harian achosion da a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywydau pobl sydd yn aml yr aelodau mwyaf anghenus a bregus mewn cymdeithas na allant helpu eu hunain neu ddenu cefnogaeth o ffynonellau eraill.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr

**Sir Clive Booth**
Cadeirydd

6 Gorffennaf 2010



# Adran un

## Ariannu deallus: y ffordd yr ydym yn gweithio

Yn yr adran hon rydym yn disgrifio ein hymagwedd at ariannu ac yn amlinellu sut rydym yn: cyflwyno ein strategaeth; darparu dadansoddiad o bwy rydym wedi'u hariannu; amlinellu'r hyn a gyflawnwyd gyda'r arian hwn; a bwrw golwg ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn gyfrifol am ddosbarthu hanner yr arian at achosion da a godir gan y Loteri Genedlaethol i brosiectau sy'n ymdrin â dibenion iechyd, addysg, amgylcheddol ac elusennol. Rydym yn ddosbarthwr ar draws y DU sy'n dyfarnu grantiau yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, ledled y DU ac i elusennau o'r DU sy'n gweithio tramor (drwy ein rhaglen Grantiau Rhyngwladol). Mae'r fframwaith statudol sy'n sail i'n gweithrediadau wedi'i amlinellu yn adran pump yr adroddiad hwn.

### Y Farn Fawr – ein fframwaith strategol

Lansiwyd 'Y Farn Fawr – ein Fframwaith Strategol hyd at 2015' ym mis Mehefin 2009. Cyfeiriwyd y strategaeth hon gan ein hymgynghoriad cyhoeddus 'Y Farn Fawr' yn ogystal â'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'n profiadau o ariannu hyd yn hyn. Bydd y fframwaith hwn yn llunio ein trefniadau ariannu dros y chwe blynedd nesaf. Yn benodol mae'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd wrth barhau i wella fel ariannwr deallus dros y blynyddoedd nesaf.

Mae ein holl raglenni'n rhannu'r un cenhadaeth – dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.  Maent hefyd yn ymdrin â'r tair thema fras a ddisgrifir yn ein Cyfarwyddiadau Polisi y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth y DU, sef:

- cefnogi dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd
- hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol
- hyrwyddo lles.

Mae'r adran 'Edrych Ymlaen' yn ddiweddarach yn y pennod hwn yn rhoi manylion y cynlluniau rydym yn eu datblygu drwy'r fframwaith strategol newydd hwn.

### Ymagwedd ariannu deallus

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i fod yn ariannwr deallus. Dyma'r pum egwyddor sy'n arwain hyn:

- creu a rhannu gweledigaeth a diben clir
- gwybod a datgan ein lle yn y farchnad
- creu sefydliad sy'n dysgu
- alinio strwythurau a'r defnydd o adnoddau â'n gweledigaeth
- rheoli newid ac addasu iddo.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein hymagwedd ariannu deallus yn ystod 2009/10 ac wedi nodi chwe maes thematig a fydd yn llunio'r ffordd yr ydym yn defnyddio ein hariannu ac adnoddau eraill i gyflawni newid dros y cyfnod 2009-2015, sef: Canlyniadau; Effaith Barhaus; Adeiladu Gallu; Cydweithio; Arloesedd; ac Ymgysylltu. Mae'r themâu hyn yn ein helpu i helpu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan lunio dewis a ffocws ein rhaglenni newydd, y ffordd yr ydym yn darparu cefnogaeth i ymgeiswyr a'r amrywiaeth o waith rydym yn ei wneud i hyrwyddo a rhannu dysg ymysg deiliaid grantiau presennol. Hefyd, mae'r themâu hyn wrth wraidd y gwaith rydym yn ei wneud i wneud ein prosesau'n symlach ac yn fwy hwylus i'r cwsmer.

### Arwain arfer gorau yn y sector

Rydym yn ymrwymedig i gadw at egwyddorion y Compactau rhwng y Llywodraeth a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, a Chynllun y Sector Gwirfoddol yng Nghymru.

Rydym yn gweithredu polisi adennill costau llawn sy'n ein galluogi i wneud cyfraniad cymesurol at gostau cyffredinol sefydliadau fel rhan o'r dyfarniad. Trwy ariannu prosiectau ar gyfer hyd at bum mlynedd, rydym yn mynd ymhellach na chanllawiau arfer da Compactau.

Rydym yn ymgynghori'n rheolaidd ac yn helaeth â'r sector gwirfoddol a chymunedol ac eraill â diddordeb yn ein gwaith ar ein strategaeth, ein hamrywiaeth o raglenni a'n hegwyddorion ariannu, ac yn cynnal deialog gyda nhw wrth ddatblygu ein rhaglenni ein polisïau a'n gweithdrefnau. Rydym yn ystyried anghenion penodol y sector gwirfoddol a chymunedol fel rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn datblygu ein rhaglenni, ein polisïau a'n gweithdrefnau.

## Gwybod am yr hyn sy'n gweithio, a'i ariannu

### Ein polisi ariannu ar sail canlyniadau

Rydym yn 'ariannwr ar sail canlyniadau'. Trwy hyn golygwn ein bod yn ystyried y gwahaniaeth y gall ein cefnogaeth ei wneud i gymunedau cyn i ni symud ymlaen i benderfynu pa fath o sefydliad all gyflawni hyn orau. Mae canlyniadau'n helpu sefydliadau i ganolbwyntio ar nodau ac amcanion a meddwl am sut y byddant yn dangos eu cyflawniadau. Mae ariannu ar sail canlyniadau hefyd yn ein helpu i rannu'r hyn sy'n gweithio gydag eraill.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd amlinellwyd y canlyniadau ar gyfer dyfarniadau a wnaed rhwng 2004 a 2008. Yn yr adroddiad hwn rydym yn diweddaru hyn drwy adrodd am ganlyniadau ar gyfer dyfarniadau a wnaed rhwng 2008 a 2010.

## Adrodd am ganlyniadau

Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno gwybodaeth am y prif themâu a chanlyniadau a amlinellir yn ein cyfarwyddiadau polisi gan y Llywodraeth y mae prosiectau a ariennir yn anelu at eu cyflawni. Mae'r ffigurau mewn cromfachau'n cyfeirio at 2008/09.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y dyfarniadau rydym yn eu mesur yn erbyn ein fframwaith canlyniadau; mae'n eithrio ein rhaglenni grantiau bach gan gynnwys Arian i Bawb, Llefydd i Natur a 2014 Communities ynghyd ag unrhyw ddyfarniadau a wnaed drwy Bartneriaid Dyfarnu a phartneriaid cyflwyno eraill gan gynnwys y rhaglenni Parks for People a Growing Community Assets. Mae'r crynodeb hwn yn adrodd am 1,014 (1,064) o ddyfarniadau sydd â chyfanswm gwerth o £282 miliwn (£351 miliwn) a wnaed gan y Gronfa Loteri Fawr rhwng mis Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010. Mae'r gostyngiad mewn dyfarniadau yr adroddir amdanynt o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dyma ddechrau'r cyfnod cyflwyno ein Fframwaith Ariannu 2009-2015 newydd.

Gall dyfarniadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema neu fwy nag un canlyniad. Gan hynny, mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys peth cyfrifo lluosog.

Yn Lloegr rydym wedi gwneud dyfarniadau gwerth £260 miliwn. Mae'r dyfarniadau rydym yn eu mesur yn erbyn ein canlyniadau'n cynnwys 744 (715) o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £193 miliwn (£224 miliwn):

- 315 (178) o ddyfarniadau gwerth £82 miliwn (£44 miliwn) i wneud pobl a chymunedau'n fwy iach ac yn fwy actif
- 34 (146) o ddyfarniadau gwerth £6 miliwn (£39 miliwn) i wella amgylcheddau gwledig a threfol y gall cymunedau eu hygyrchu a'u mwynhau'n well
- 609 (401) o ddyfarniadau gwerth £168 miliwn (£125 miliwn) i roi gwell cyfle mewn bywyd i bobl, ynghyd â gwell mynediad i hyfforddi a datblygu er mwyn gwella sgiliau bywyd

# Adran un

- 619 (626) o ddyfarniadau gwerth £161 miliwn (£203 miliwn) i adeiladu cymunedau cryfach gyda dinasyddion mwy actif sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'u problemau.

Yng Ngogledd Iwerddon rydym wedi gwneud dyfarniadau gwerth £34 miliwn. Mae'r dyfarniadau rydym yn eu mesur yn erbyn ein canlyniadau'n cynnwys 49 (42) o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £28 miliwn (£24 miliwn):

- 20 (8) o ddyfarniadau gwerth £14 miliwn (£3 miliwn) i hyrwyddo perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel
- 41 (23) o ddyfarniadau gwerth £26 miliwn (£16 miliwn) i wella iechyd corfforol a meddyliol pawb
- 33 (29) o ddyfarniadau gwerth £22 miliwn (£17 miliwn) i helpu pobl i gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol
- 34 (31) o ddyfarniadau gwerth £22 miliwn (£22 miliwn) i roi cyfle i bobl gyflawni eu potensial llawn.

Yn Yr Alban rydym wedi gwneud dyfarniadau gwerth £62 miliwn. Mae'r rhaglen Growing Community Assets yn cael ei mapio i'n fframwaith canlyniadau, ond nid yw wedi'i chynnwys yn y tabl canlyniadau ar hyn o bryd. Trwy'r rhaglen Growing Community Assets yn ystod 2009/10 gwnaethom 35 o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £17 miliwn, gyda'r rhan fwyaf o'r dyfarniadau'n cefnogi 'Mae pobl yn mwynhau gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy'. Mae'r dyfarniadau rydym yn eu mesur yn erbyn ein canlyniadau'n cynnwys 90 (129) o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £30 miliwn (£38 miliwn):

- 37 (64) o ddyfarniadau gwerth £10 miliwn (£18 miliwn) i wneud cymunedau sy'n fwy diogel, yn gryfach ac sy'n gallu cydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- 22 (24) o ddyfarniadau gwerth £6 miliwn (£6 miliwn) i wneud pobl a chymunedau'n fwy iach ac yn fwy actif
- 7 (32) o ddyfarniadau gwerth £3 miliwn (£10 miliwn) i ddarparu gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy ar gyfer pobl
- 69 (89) o ddyfarniadau gwerth £25 miliwn (£27 miliwn) i roi gwell cyfleoedd bywyd i bobl.

Yng Nghymru rydym wedi gwneud dyfarniadau gwerth £32 miliwn. Mae'r dyfarniadau rydym yn eu mesur yn erbyn ein canlyniadau'n cynnwys 131 (137) o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £31 miliwn (£37 miliwn):

- 31 (58) o ddyfarniadau gwerth £6 miliwn (£24 miliwn) i wneud pobl a chymunedau sy'n fwy iach ac yn fwy actif yn gorfforol
- 84 (98) o ddyfarniadau gwerth £17 miliwn (£21 miliwn) i helpu pobl i gydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol
- 115 (88) o ddyfarniadau gwerth £29 miliwn (£22 miliwn) i roi'r sgiliau a'r ddysg i bobl o bob oedran ymdopi â heriau cymdeithas fodern.

Rydym hefyd yn adrodd am y canlyniadau a gyflawnwyd gan brosiectau wedi'u cwblhau. Gall dyfarniadau a wneir gan y Gronfa Loteri Fawr barhau am hyd at bum mlynedd.


Erbyn 31 Mawrth 2010 mae 541 (204) o grantiau wedi cwblhau a chyflawni eu canlyniadau. Gellir gweld hyn o dan tair thema'r Gronfa Loteri Fawr:

- Mae 413 (159) o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £49 miliwn (£15 miliwn ) wedi hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol
- Mae 318 (142) o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £42 miliwn (£14 miliwn ) wedi hyrwyddo lles
- Mae 309 (114) o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £41 miliwn (£12 miliwn ) wedi cefnogi dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd.

## Ein hymrwymiad i'r sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh)

Mae'r SGCh yn aml yn y sefyllfa orau i wneud y defnydd gorau o'n hariannu ar gyfer y cymunedau a'r bobl fwyaf anghenus. Mae rôl unigryw y SGCh mewn cymunedau a'i allu i fynegi eu hanghenion yn gwneud ein perthynas ag ef yn rhan ganolog o'n llwyddiant. Yn ystod 2009/10 ymrwymwyd 92 y cant o'n hariannu i'r SGCh.

**New awards made in 2009/10 (excludes variations to existing awards and awards made by our award partners)**




Ariannodd yr 8 y cant arall nifer o bartneriaethau cymunedol ehangach, gan greu buddion ar gyfer y SGCh a'r bobl a'r cymdogaethau y mae'n eu gwasanaethu. Ariannwr ar sail canlyniadau yw'r Gronfa Loteri Fawr: mae gennym ddiddordeb mewn ariannu sy'n gweithio i fynd i'r afael ag anghenion cymunedau, ac sydd â'r hyblygrwydd i ariannu partneriaethau ehangach. Mae hyn yn rhan allweddol o ddiwallu'r cyfryw anghenion lleol. Mae'r siart isod yn amlinellu derbynyddion ein hariannu.

Rydym yn gwybod bod angen sylfaen ariannu sefydlog a chadarn, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gyda galw am wasanaethau'n debygol o gynyddu tra bod ffynonellau ariannu eraill yn debygol o ostwng. Gan hynny, estynnodd ein fframwaith strategol ein hymrwymiad i'r SGCh drwy godi canran yr ariannu y gall ei ddisgwyl gennym i o leiaf 80%, ac estyn hwn dros gyfnod y fframwaith strategol, sy'n cynnwys y cyfnod 2009-15.

## Ychwanegedd

Mae Ychwanegedd yn un o'n gwerthoedd craidd. Rydym yn defnyddio'r diffiniad canlynol o ychwanegedd:

"Mae arian gan y Loteri'n wahanol i arian gan y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth. Er nad yw'n disodli gwariant y Trysorlys, lle bo'n briodol mae'n ategu polisïau ac ariannu'r Llywodraeth a rhaglenni, polisïau ac ariannu eraill."

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd am eu polisïau a'u harferion ychwanegedd.

Mae ystyriaethau ynglŷn ag ychwanegedd wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygu ein rhaglenni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a byddant yn parhau i fod dros y blynyddoedd i ddod wrth i ni gyflwyno ar y cynlluniau a amlinellir yn ein fframwaith strategol newydd. Rydym wedi cydweithio'n agos â sefydliadau ac arbenigwyr blaenllaw yn y sectorau perthnasol i sicrhau bod ein rhaglenni ariannu'n wahanol i rai'r Llywodraeth a ffynonellau ariannu eraill, ond yn ychwanegu gwerth ac yn gweddu i'r cronfeydd hyn hefyd. Mae'n rhaid i arian Loteri beidio â chymorthdalu neu ddisodli ariannu statudol ar gyfer gwasanaeth.

# Adran un

Mewn rhai amgylchiadau gall fod rhaid i swyddogion grantiau farnu p'un a yw prosiect yn ychwanegol neu beidio wrth asesu cais am ariannu. Mae arweiniad clir, gan gynnwys tri phrawf, wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr arweiniad hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson ac yn glir. Mae'r profion yn ymdrin â chymorthdalu, disodli a dyblygu gwasanaethau statudol. Roedd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn 2009/10 yn cydweddu â'r diffiniad hwn o ychwanegedd.

## Edrych i'r dyfodol

Mae ein fframwaith strategol newydd yn amlinellu ein cynlluniau ariannu ar gyfer y chwe blynedd nesaf. Wrth i ni lunio ein hymagwedd, gwnaethom dynnu ar waith Sefydliad Young ar anghenion nas diwallir Prydain (a gyhoeddwyd fel 'Sinking and Swimming')[1]. Gan adeiladu ar themâu sydd eisoes yn rhai canolog i ni, mae'n amlygu'r bobl a'r cymunedau hynny sy'n profi trawsnewidiadau arbennig o anodd ac unigedd. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn parhau i gael ein cyfeirio gan ei ganfyddiadau wrth i ni gyhoeddi mwy o gynlluniau ariannu.

Yn ystod 2009/10 cyflwynwyd canran fawr o'n hariannu drwy ein rhaglenni agored poblogaidd, er enghraifft Reaching Communities yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, Pawb a'i Le yng Nghymru, Investing in Communities yn Yr Alban ac Arian i Bawb. Bydd y math hwn o raglen sy'n ymateb i alw yn parhau i fod yn rhan o'n portffolio rhaglenni hyd y gellir rhagweld ac yn wir, dros y cwpl o flynyddoedd nesaf mae'n debygol dyna fydd y math pennaf.

Yn Lloegr bydd ein ffrwd gymunedol yn galluogi pobl i wneud eu cymunedau'n llefydd gwell i fyw nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn cefnogi'r bobl a'r cymunedau rydym ni ac arianwyr wedi'u cael yn anodd eu cyrraedd, gan gyflawni ein cenhadaeth o helpu i ddod â gwir welliannau i fywydau cymunedau a phobl anghenus. Mae hyn yn ymwneud â rhoi'r pŵer i bobl leol benderfynu sut i wario arian Loteri yn eu cymuned.

Trwy ein hariannu a dargedir ym mhob un o'r pedair gwlad, byddwn yn cyrraedd grwpiau penodol o bobl anghenus a mynd i'r afael â'r materion allweddol y maent yn eu hwynebu. Er mwyn cael effaith sy'n parhau, byddwn yn ceisio rhannu ein dysgu i gyfeirio polisïau ac arfer cenedlaethol yn ogystal â hyrwyddo profi syniadau newydd.

O dan y ffrwd hon rydym wedi gwneud cyhoeddiadau ynglŷn â'n rhaglen Youth in Focus £30 miliwn yn Lloegr, a fydd yn helpu cefnogi pobl ifanc ddiamddiffyn ar bwyntiau hollbwysig yn eu bywydau.

Yn yr un modd, yn Yr Alban rydym wedi cyhoeddi hyd at werth £50 miliwn o ariannu i gefnogi pobl hŷn â dementia a'u gofalwyr yn ogystal â phobl iau sy'n gadael gofal. Yng Nghymru rydym wedi lansio ein rhaglen Llawn BYWYD £20 miliwn i ddarparu mynediad i wasanaethau bod yn gyfaill neu eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn.

Yng Ngogledd Iwerddon rydym yn datblygu themâu ariannu newydd sy'n ymdrin ag unigedd a thrawsnewid i bobl ifanc a phobl hŷn.

Ar lefel y DU rydym wedi cyhoeddi rhaglen Forces in Mind gwerth £35 miliwn. Bydd yr ariannu'n helpu cyn-filwyr sy'n ei chael hi'n anodd trosglwyddo i fywyd fel sifiliaid, yn enwedig y rhai y mae eu lles seicolegol yn effeithio ar ansawdd eu bywydau a bywydau'r rhai sydd o'u cwmpas. Rydym hefyd yn datblygu ymagweddau ariannu newydd ledled y DU i fynd i'r afael â rhai o'r problemau cymdeithasol anoddaf.

Edrychwn ymlaen at fyfyrio ar gamau cynnar y cynnydd hwn yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

[1] Young Foundation (2009) Sinking and swimming: understanding Britain's unmet needs.



# Adran dau
## Ein rhaglenni grantiau

Yn ystod 2009/10 rydym wedi parhau i wneud dyfarniadau newydd a rheoli dyfarniadau a wnaed yn flaenorol drwy ein rhaglenni. Rhoddir manylion ein grantiau dros £5 miliwn yn yr Atodiad ar dudalen 100.

### Maint y gweithgarwch
Mae'r tablau isod yn crynhoi maint y ceisiadau llawn, y dyfarniadau a wnaed a'r grantiau sy'n cael eu rheoli yn ystod 2009/10. Nid yw hyn yn cynnwys ceisiadau i'n partneriaid dyfarnu a'n partneriaid cyflwyno dan gontract, a dyfarniadau a wnaed ganddynt.

**Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod 2009/10**
Nid yw rhai o'r ceisiadau hyn wedi'u cyflwyno i bwyllgor penderfyniadau eto

| | Nifer o geisiadau | Swm y gofynnwyd amdano £m |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 28,269 | 1,036 |
| Rhaglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri | 41 | 181 |
| **Cyfanswm** | **28,310** | **1,217** |

Gyda llawer o'n rhaglenni rydym yn defnyddio cam cynnig amlinellol i roi adborth cyflym sy'n nodi p'un a yw rhaglen yn werth ei datblygu neu beidio, a sut y gellir ei datblygu. Yn 2009/10, derbyniwyd 4,410 o geisiadau cynnig amlinellol yn gofyn am fwy na £1 biliwn.

**Dyfarniadau newydd yn 2009/10**
Mae rhai o'r dyfarniadau hyn yn ymwneud â cheisiadau a dderbyniwyd mewn blynyddoedd cynharach

| | Nifer o ddyfarniadau | Swm a ddyfarnwyd £m |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 13,886 | 406 |
| Rhaglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri | 8 | 31 |
| **Cyfanswm** | **13,894** | **437** |

Mae'r tabl isod yn dangos grantiau sy'n cael eu rheoli yn ystod 2009/10. Dyfarnwyd y grantiau hyn yn flaenorol gan y Gronfa Loteri Fawr, ac maent erbyn hyn yn tynnu arian i lawr o'u dyraniad grant.

**Grantiau sy'n cael eu rheoli ar 31 Mawrth 2010**

| | Nifer o ddyfarniadau | Taliadau i dderbynyddion grantiau £m |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 26,134 | 1,123 |
| Rhaglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri | 107 | 257 |
| **Cyfanswm** | **26,241** | **1,380** |

# Rhaglenni ledled y DU

Mae ein rhaglenni ar draws y DU yn rhannu'r un canlyniadau â'n rhaglenni yn Lloegr. Amlinellir y rhain yn y diagram ar dudalen 14.

## Llefydd i Natur

Mae Llefydd i Natur, a lansiwyd yn 2006, yn rhaglen grantiau bach ar draws y DU a ddatblygwyd gyda'r BBC i gyd-fynd â'i ymgyrch Llefydd i Natur. Rydym wedi dyfarnu grantiau i brosiectau sy'n ysbrydoli cymunedau i ymwneud â chreu mannau gwyrdd lleol a gofalu amdanynt, gan greu buddion i fywyd gwyllt a phobl. Cyflwynwyd y rhaglen mewn pedwar cam. Ers cam cyntaf y prosiect rydym wedi ariannu mwy na 1,300 o brosiectau gwerth dros £9.5 miliwn.

Roedd cam terfynol y rhaglen yn agored i ddeiliaid grantiau Llefydd i Natur cyfredol a allai ymgeisio am grantiau rhwng £1,000 a £5,000 i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau dathlu llwyddiant eu lle i natur, gan gynyddu nifer y bobl sy'n gallu ei fwynhau.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
251 o grantiau gwerth cyfanswm o ychydig yn llai na £1 miliwn.

## Arwyr yn Ôl 2

Lansiwyd y rhaglen Arwyr yn Ôl 2 ar 1 Ebrill 2009. Mae'r rhaglen yn darparu arian Loteri i helpu cyn-filwyr yr Ail Ryfel Byd a fu yn y gad ac sy'n byw yn y DU neu Weriniaeth Iwerddon i gymryd rhan mewn ymweliadau coffáu (yn y DU a thramor) er mwyn nodi pen-blwydd y digwyddiadau a arweiniai at ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
3,172, gwerth cyfanswm o fwy na £6.6 miliwn.

## Rhaglen ryngwladol

Lansiwyd y rhaglen ryngwladol yn 2006. Mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael ag achosion tlodi ac amddifadedd tramor. Roedd y rhaglen yn agored i sefydliadau yn y DU sy'n gweithio gyda phartneriaid tramor.

Ni wnaed unrhyw ddyfarniadau newydd yn 2009/10. Serch hynny, fel rhan o'n hymateb i'r heriau penodol a wynebwyd gan rai prosiectau yn ystod y dirwasgiad, cafwyd cynnydd o £2 filiwn yng ngwerth y dyfarniadau i 75 o brosiectau.

## Rhaglen ymchwil

Ariannodd y rhaglen Ymchwil, a lansiwyd yn 2007 y sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn iddo gyflawni ymchwil gymdeithasol a meddygol.

Mae'r rhaglen yn ceisio dylanwadu ar bolisïau ac arfer lleol a chenedlaethol drwy gynhyrchu a lledaenu gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth, gan wella gwasanaethau drwy'r broses hon.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
57 gwerth bron £21 miliwn.

## Miliynau'r Bobl

Lansiwyd rhaglen Miliynau'r Bobl yn 2005. Ers hynny mae wedi dyfarnu dros £22 miliwn i 388 o brosiectau.

Mae'r rhaglen, a redir ar y cyd gydag ITV, yn cynnig cyfle i'r cyhoedd bleidleisio dros brosiectau lleol. Nod y rhaglen yw ariannu prosiectau sy'n rhoi cyfleoedd i bobl fwynhau eu hardal leol a gwella cyfleusterau lleol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
70 gwerth £3.3 miliwn

## Pentref SOS

Lansiwyd rhaglen Pentref SOS yn 2009. Gweledigaeth y rhaglen yw ysbrydoli pobl mewn pentrefi gwledig i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Yn fwy cyffredinol bydd pobl ledled y DU yn cael gwerthfawrogi cryfder ac amrywiaeth ardaloedd gwledig a bywyd gwledig yn well.

Mae'r rhaglen yn bartneriaeth gyda'r BBC. Byddwn yn darparu grantiau rhwng £100,000 a £400,000 i chwe phentref er mwyn iddynt arddangos yr hyn y gall cymuned wledig ei wneud gyda menter y mae'r gymuned yn berchen arno.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
28 o grantiau datblygu gwerth £10,000. Dewiswyd y chwe therfynol o'r 28 hyn yn 2010/11. Yn ogystal, dewiswyd pedwar prosiect pellach ar draws y DU i arwain yr ymgyrch ddysgu.

# Adran dau
## Rhaglenni Lloegr

Cyflwynodd y cyfnod ymgynghori a lansio'r 'Farn Fawr' gyfle i fyfyrio ar gydbwysedd y rhaglenni yn Lloegr. Yn ystod 2009/10 ystyriodd y Gronfa Loteri Fawr sut y gellir rheoli rhaglenni Lloegr yn y dyfodol gan ddefnyddio tri dull ariannu gwahanol: agored, cymunedol ac wedi'i dargedu.

Yn ystod 2009/10 dyfarnwyd y rhan fwyaf o'n hariannu yn Lloegr drwy ein rhaglenni agored blaenllaw, Reaching Communities ac Arian i Bawb. Tua diwedd 2009/10 dechreuom gyhoeddi manylion y mathau o raglenni y byddwn yn eu rhedeg o dan yr ymagweddau cymunedol ac wedi'u targedu.

Ail-lansiwyd ein rhaglen Reaching Communities ym mis Ebrill 2010, gan olygu bod o leiaf £100 miliwn o ariannu agored ar gael bob blwyddyn tan 2015. Wrth ymateb yn uniongyrchol i adborth, rydym wedi cyflwyno proses ymgeisio symlach ar gyfer grantiau bach, mwy o gefnogaeth i ymgeiswyr drwy'r broses ymgeisio a gwell cyfleoedd rhwydweithio a dysgu.

Ymysg ein rhaglenni sydd ar ddod yn 2010/11 mae Youth in Focus. Bydd y rhaglen hon yn darparu hyd at £30 miliwn yn Lloegr yn ystod 2010 i brosiectau ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc a phobl ifanc sy'n gadael sefydliadau troseddwyr ifanc. Bydd rhaglenni newydd yn cael eu datblygu dros y blynyddoedd i ddod, gan arwain at gyhoeddiadau pellach o ran rhaglenni.

Mae rhaglenni cyfredol y Gronfa Loteri Fawr yn Lloegr yn cefnogi tair thema ac yn canolbwyntio ar y pedwar canlyniad a nodir yn y tabl isod.

| Cylch gwaith | | |
|---|---|---|
| Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd | | |
| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |

| Canlyniadau Lloegr | | | |
|---|---|---|---|
| Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd, gan gynnwys medru cael gwell mynediad i hyfforddiant a datblygiad i wella eu sgiliau bywyd | Cymunedau cryfach gyda dinasyddion mwy actif, yn cydweithio i fynd i'r afael â'u problemau | Gwell amgylcheddau gwledig a threfol y gall cymunedau eu hygyrchu a'u mwynhau'n well | Pobl a chymunedau mwy iach a mwy actif |

| Rhaglenni Lloegr | | | |
|---|---|---|---|
| | BASIS | Parks for People | |
| | Community Buildings | Changing Spaces | |
| Arian i Bawb Lloegr | | | |
| Cronfa Pobl Ifanc | | | |
| Reaching Communities (Lloegr) | | | |



# Adran dau

## Arian i Bawb

Tan fis Mawrth 2009 rhedwyd Arian i Bawb mewn partneriaeth â'r sefydliadau eraill sy'n dosbarthu arian Loteri ledled Lloegr. Ym mis Ebrill 2009 ail-lansiwyd y rhaglen hon fel rhaglen y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn mae'r dosbarthwyr eraill yn rhedeg rhaglenni ar wahân ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth.

Mae Arian i Bawb Lloegr yn ariannu prosiectau rhwng £300 a £10,000 sydd â'r nod o roi gwell cyfleoedd bywyd i bobl, adeiladu cymunedau cryfach, gwella amgylcheddau gwledig a threfol a chreu pobl sy'n fwy iach ac yn fwy actif.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
5,566 gwerth £42.8 miliwn

## Building and Sustaining Infrastructure Services (BASIS)

Lansiwyd rhaglen BASIS, gwerth £157 miliwn, yn 2006.

Mae'r rhaglen yn ceisio sicrhau bod sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ar draws Lloegr yn cael mynediad i gefnogaeth o safon er mwyn iddynt fod yn fwy effeithiol. Dim ond sefydliadau isadeiledd y sector gwirfoddol a chymunedol a oedd yn cael ymgeisio i BASIS. Trwy sefydliadau isadeiledd golygwn sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant neu gefnogaeth arall sy'n helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol i wneud eu gwaith yn well.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
17 gwerth £8 miliwn

## Changing Spaces

Lansiwyd y rhaglen Changing Spaces yn 2008 i gefnogi prosiectau amgylcheddol ar draws Lloegr.

Penodwyd pum sefydliad i redeg cynlluniau grantiau agored ar ein rhan – Community Sustainable Energy (a redir gan BRE), Community Spaces (a redir gan Groundwork), Ecominds (a redir gan Mind), Access to Nature (a redir gan Natural England) a Local Food (a redir gan RSWT). Cafwyd lefelau uchel o alw am rai o'r cynlluniau. O ganlyniad i hyn, ychwanegwyd £20 miliwn i'r rhaglen £200 miliwn er mwyn i fwy o brosiectau gael eu hariannu. Dyfarnwyd yr arian newydd hwn yn 2009/10. Mae Local Food, Ecominds ac Access to Nature bellach wedi cau.

Mae pum sefydliad arall hefyd yn rhedeg portffolios ledled Lloegr – Crime Concern Trust, Field Studies Council, Imperial College Llundain, Places for People a Sefydliad Plunkett. Mae'r portffolios hyn bellach yn eu trydedd flwyddyn. Dyfarnwyd £1.2 miliwn ychwanegol yn 2009/10 i brosiect OPAL, a redir gan Imperial College, i fwyafu effaith ei arolwg newid hinsawdd.

## Community Buildings

Lansiwyd rhaglen Community Buildings yn 2006, gyda hyd at £50 miliwn ar gael.

Mae'r rhaglen yn ceisio rhoi cyfle i gymunedau wella eu hansawdd bywyd drwy ariannu adeiladau sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Gwnaeth y rhaglen ddyfarniadau a fydd yn gwella, yn amnewid neu'n creu amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol. Bydd yr adeiladau hyn yn canolbwynt i'w cymunedau, gan gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau i nifer mawr o bobl leol.

Ni wnaeth y rhaglen unrhyw ddyfarniadau newydd yn 2009/10. Serch hynny, fel rhan o'n hymateb i'r heriau penodol a wynebwyd gan rai prosiectau yn ystod y dirwasgiad, cafwyd cynnydd o £2.1 filiwn yng ngwerth y dyfarniadau i 23 o brosiectau.

## Parks for People
Mae Parks for People yn rhaglen tair blynedd ar y cyd rhwng y Gronfa Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Fe'i lansiwyd yn 2006 gyda chyllideb gyfunol o hyd at £150 miliwn.

Nod y rhaglen yw cefnogi adfywio, cadwraeth a mwynhad cynyddol parciau cyhoeddus. Mae hefyd yn ceisio gwella amgylcheddau lleol ac yn rhoi parciau wrth wraidd bywyd cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli i aelodau'r gymuned.

Gwnaed yr holl benderfyniadau cam un ar gyfer y cynllun dau gam ar y cyd erbyn mis Mawrth 2009. Yn 2009/10 parhaodd y Gronfa Loteri Fawr i wneud penderfyniadau ar y cyd gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ar geisiadau sy'n cyrraedd cam dau y broses. Bydd Pwyllgor Lloegr yn parhau â'r cynllun ar y cyd hwn yn ystod 2010/11.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
Cymeradwywyd 19 o ddyfarniadau gwerth mwy na £50 miliwn drwy gam dau.

## Reaching Communities (Lloegr)
Lansiwyd y rhaglen Reaching Communities ym mis Rhagfyr 2005.

Nod y rhaglen hon yw helpu i wella cymunedau lleol a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Mae grantiau'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion, ac yn cefnogi cymunedau drwy grwpiau gwirfoddol cenedlaethol yn ogystal â rhai bach lleol. Dyfernir symiau rhwng £10,000 a £500,000.

Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10: 481 gwerth £129.7 miliwn

## Cronfa Pobl Ifanc – Cronfa Pobl Ifanc 2: Grantiau Lleol
Lansiwyd y rhaglen £53 miliwn ym mis Mai 2008.

Mae'r rhaglen yn ceisio cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn dylunio, rhedeg ac adolygu'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae'r Gronfa Pobl Ifanc hefyd yn ceisio helpu cyflawni pum canlyniad 'Mae Pob Plentyn yn Bwysig', a amlinellwyd gan y Llywodraeth.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
185 gwerth £52.1 miliwn.

## Rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri
Gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i ni drwy Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006 rydym wedi cynnig y rhaglenni ariannu canlynol nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri yn Lloegr.

## Asedau Cymunedol
Rydym yn rhedeg y rhaglen hon ar ran y Swyddfa Cymdeithas Ddinesig.

Lansiwyd y rhaglen Asedau Cymunedol ym mis Medi 2007 gyda hyd at £30 miliwn ar gael. Mae'r rhaglen hon wedi cau bellach.

Nod Asedau Cymunedol yw grymuso cymunedau drwy gynnig grantiau i alluogi sefydliadau trydydd sector i gymryd perchnogaeth ar adeiladau sector cyhoeddus wedi'u hadnewyddu yn Lloegr.

Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10: 6 gwerth £5.9 miliwn

## *myplace*
Rydym yn rheoli'r rhaglen hon ar ran yr Adran Addysg.

Bydd y rhaglen ***myplace*** yn creu cyfleusterau ieuenctid ymysg goreuon y byd.

Ers iddi lansio yn 2008 mae'r rhaglen wedi dosbarthu gwerth £272 miliwn gan y Llywodraeth i 70 o brosiectau. Mae tri o'r canolfannau myplace bellach wedi agor.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
8 gwerth £31.6 miliwn.

# Adran dau
## Rhaglenni'r Alban

Yn Yr Alban mae ein portffolio Investing in Communities wedi dechrau ar ei bedwaredd flwyddyn, sef y flwyddyn derfynol. Mae wedi parhau i weithredu'n bennaf drwy bedwar maes buddsoddi, wedi'u cefnogi gan gronfa fuddsoddi Investing in Ideas.

Mae ein rhaglenni grantiau bach, Arian i Bawb a 2014 Communities, wedi parhau'n boblogaidd. Rhyngddynt, gwnaeth Arian i Bawb a 2014 Communities 2,180 o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o fwy na £12 miliwn.

Y pedwar maes buddsoddi yw: Dynamic Inclusive Communities; Growing Community Assets; Life Transitions; a Supporting 21st Century Life. Caeodd y portffolio Investing in Communities ym mis Rhagfyr 2008, ond mae dyfarniadau'n parhau i gael eu gwneud o bob un o'r pedwar maes buddsoddi drwy gydol 2009/10.

Yn sgil dadansoddiad o'r berthynas rhwng anfantais a lefelau ariannu isel, penderfynodd Pwyllgor Yr Alban i ddyrannu £9 miliwn i bum cymdogaeth ddifreintiedig drwy'r rhaglen Our Place. Gwnaethant gytuno hefyd i ddyrannu £50 miliwn i gefnogi newidiadau trawsnewidiol hir dymor mewn dau grŵp: pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl hŷn â dementia a'u gofalwyr. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer y gronfa hon yn cael eu datblygu yn ystod 2010/11.

Hefyd yn 2009/10, derbyniodd y Gronfa Loteri Fawr yn Yr Alban gyfarwyddiadau diwygiedig gan Weinidogion yr Alban. Rhoddodd y cyfarwyddiadau flaenoriaeth gynyddol i fynd i'r afael ag anfantais, hyrwyddo lles ac ymdrin ag anghydraddoldeb. Rydym wedi myfyrio ar yr hyn y mae'r cyfarwyddiadau newydd yn ei olygu ar gyfer ein rhaglenni ariannu, ynghyd â chanlyniadau ymgynghoriad y 'Farn Fawr' a'r adolygiad o Investing in Communities. Bydd ein prif raglenni ariannu'n agor i geisiadau newydd o haf 2010.

**Cylch gwaith**

Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd

| | | |
|---|---|---|
| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |

**Canlyniadau'r Alban**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd | Cymunedau sy'n fwy diogel, yn gryfach ac yn cydweithio'n fwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb | Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl | Pobl a chymunedau mwy iach |

**Ardal Fuddsoddi'r Alban**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Life Transitions | Dynamic Inclusive Communities | Growing Community Assets | Supporting 21st Century Life |



## Arian i Bawb Yr Alban

Yn 2009/10, ariannwyd Arian i Bawb Yr Alban gan y Gronfa Loteri Fawr, Cyngor Celfyddydau'r Alban a sportscotland. Mae'n ariannu prosiectau rhwng £500 a £10,000 sydd â'r nod o ddod â phobl ynghyd, gwella eu hansawdd bywyd a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
1,707 gwerth £12.1 miliwn

## 2014 Communities

Lansiwyd 2014 Communities yn 2008.

Nod y rhaglen yw mwyafu buddion ac etifeddiaeth profiad Glasgow o groesawu Gemau'r Gymanwlad 2014. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, cynigiodd 2014 Communities grantiau hyd at £1,000 i sefydlu sefydliadau chwaraeon a chymunedol bach. Trwy'r rhaglen, ein nod yw annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chwaraeon.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
473 gwerth £440,000.

## Dynamic Inclusive Communities

Lansiwyd Dynamic Inclusive Communities yn 2006.

Nod y maes buddsoddi hwn yw helpu'r sector gwirfoddol a chymunedol yn yr Alban i adeiladu a chryfhau ei hun. Bydd buddsoddiad gan Dynamic Inclusive Communities yn meithrin ac yn cynnal cymunedau ledled yr Alban drwy greu'r amgylchiadau a'r isadeiledd y gall gweithgarwch gwirfoddol a chymunedol iach a bywiog ddigwydd y tu mewn iddynt.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
4 gwerth £2 miliwn

# Adran dau

## Growing Community Assets

Lansiwyd Growing Community Assets yn 2006.

Nodau'r rhaglen yw rhoi cyfle i gymunedau gael mwy o reolaeth dros eu dyfodol drwy berchen ar eu hasedau lleol eu hunain, eu rheoli a'u datblygu. Mae ganddi'r gyllideb fwyaf o bedwar maes buddsoddi'r Alban, gyda hyd at £50 miliwn ar gael i ddarparu cymorth, o gefnogi cymunedau wrth asesu dichonoldeb berchen ar asedau hyd at brynu a datblygu ar ôl caffael. Yn y rhaglen hon byddwn yn talu am ystod amrywiol o brosiectau cyfalaf, gan gynnwys tir, adeiladau ac ynni adnewyddadwy.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
35 gwerth £17 miliwn

## Investing in Ideas

Lansiwyd y rhaglen Investing in Ideas yn 2006.

Prif nod y rhaglen yw darparu cefnogaeth i ddarpar ymgeiswyr ar draws y pedwar maes buddsoddi a ddisgrifir uchod. Mae'r gefnogaeth hon ar ffurf grantiau rhwng £500 a £10,000 sy'n cael eu defnyddio i droi syniadau'n realiti. Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol llai sydd ag incwm o lai na £50,000.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
99 gwerth £1 miliwn

## Life Transitions

Lansiwyd Life Transitions, sy'n cefnogi pobl drwy gyfnodau o newid sylweddol yn eu bywydau, yn 2006.

Mae'r maes buddsoddi'n ceisio galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ymdopi, ac yn gwella gwasanaethau sy'n cefnogi pobl wrth iddynt wneud newidiadau hir dymor llwyddiannus yn eu bywydau.

Roedd ariannu'n canolbwyntio ar bobl ifanc, pobl dros 50 oed, pobl sy'n profi newidiadau o ran cyflogaeth a dysgu, a phobl sy'n wynebu cyfnod heriol, megis symud ymlaen o droseddu neu fod yn gaeth i sylweddau.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
49 gwerth £20 miliwn

## Supporting 21st Century Life

Lansiwyd Supporting 21st Century Life yn 2006.

Mae'n cydnabod heriau, newidiadau a chyflymder newidiadau bywyd yn y 21ain ganrif ac yn cefnogi prosiectau sy'n galluogi pobl, teuluoedd, aelwydydd a chymunedau i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol a'u cynnal. Mae hefyd yn ceisio galluogi pobl a chymunedau i flaengynllunio gyda'i gilydd er mwyn i anghenion a gwasanaethau'r dyfodol ddod ynghyd. Mae'n ceisio cefnogi pobl a chymunedau i ymdopi â chyflymder newidiadau ac yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac eithrio cymdeithasol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
24 gwerth £6.5 miliwn



# Adran dau
## Rhaglenni Cymru

Cadarnhaodd ymgynghoriad y 'Farn Fawr' a gwblhawyd yn 2009 fod ein portffolio arfaethedig o raglenni'r dyfodol yn berthnasol i anghenion cymunedau Cymru, gan roi mandad clir i ni symud ymlaen. Yn ystod 2009/10 felly, rydym wedi dechrau ymgynghori'n helaeth â'r bobl allweddol sydd â diddordeb yn ein gwaith wrth i ni ddatblygu ein rhaglenni ar gyfer y dyfodol.

Lansiwyd y cyntaf o'r rhaglenni wedi'u targedu yn ein portffolio newydd, ein rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, ym mis Hydref 2009. Caiff ei dilyn gan raglen sy'n targedu anghenion pobl hŷn, i'w lansio ym mis Mehefin 2010. Rydym wrthi'n datblygu'r rhaglenni eraill yn ein portffolio, sydd i'w lansio yn ystod 2010/11 a blynyddoedd dilynol.

Mae'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, a dyma'r ail o'n rhaglenni sy'n dosbarthu ariannu nad yw'n dod o'r Loteri. Ariennir ein rhaglen Sgiliau Bywyd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2009, ar y cyd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, gan ddarparu arian cyfatebol gan y Loteri ac Arian Strwythurol Ewropeaidd.

Dechreuodd ein rhaglen Pawb a'i Le ar ei bedwaredd flwyddyn ac rydym wedi parhau i groesawu ceisiadau i'r brif raglen. Gwnaethom lansio llinyn ar wahân hefyd i wneud dyfarniadau gyda'r nod o ehangu gwasanaethau cynghori fel rhan o becyn wedi'i dargedu o fesurau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn i ymateb yn gyflym i'r dirwasgiad economaidd.

Yn ogystal â holl wledydd eraill y DU, sicrhaodd ein rhaglen grantiau bach hynod boblogaidd, Arian i Bawb Cymru, fod buddion arian y Loteri'n gallu ymestyn ar hyd a lled y wlad i bob rhan o gymdeithas Cymru, gyda dyfarniadau i lawer o sefydliadau bach nad oeddent erioed wedi ymgeisio am arian Loteri o'r blaen.

Mae rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru'n cefnogi tair thema ac yn canolbwyntio ar y tri chanlyniad a'r naw blaenoriaeth a nodir yn y tabl ar dudalen 21.

## Cylch gwaith

Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd

| | | |
|---|---|---|
| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |

## Canlyniadau Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Rhoi'r sgiliau a'r dysgu i bobl o bob oedran wynebu heriau cymdeithas fodern | Pobl sy'n cydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol | Pobl a chymunedau sy'n fwy iach ac yn fwy actif yn gorfforol |

## Blaenoriaethau Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu cymunedol a sgiliau bywyd effeithiol<br><br>Galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni'u potensial llawn | Mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu cymunedol a sgiliau bywyd effeithiol<br><br>Grymuso cymunedau i ddatblygu a rheoli rhaglenni adfywio lleol<br><br>Datblygu ymatebion cymunedol adeiladol i ddadrithio, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu<br><br>Galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol a chyfrannu at eu cymuned | Datblygu galluoedd pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain yn unol â'r egwyddorion sy'n sylfaen i "Her Iechyd Cymru", gan annog unigolion a sefydliadau i wella iechyd yng Nghymru<br><br>Hyrwyddo bwyta'n iach a chynyddu gweithgarwch corfforol ar draws yr holl grwpiau oedran, rhyw a chymdeithasol<br><br>Datblygu ymagweddau newydd at hyrwyddo iechyd a lles meddyliol |

## Rhaglenni Cymru

| | | |
|---|---|---|
| | Pawb a'i Le | |
| | Arian i Bawb Cymru | |
| Sgiliau Bywyd | Trosglwyddo Asedau | Chwarae Plant |

# Adran dau

## Arian i Bawb Cymru

Tan fis Mawrth 2009 rhedwyd Arian i Bawb mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Ym mis Ebrill 2009 ail-lansiwyd y rhaglen hon fel rhaglen y Gronfa Loteri Fawr.

Mae Arian i Bawb Cymru'n ariannu prosiectau rhwng £500 a £5,000 sydd â'r nod o gefnogi gweithgareddau cymunedol; estyn mynediad a chyfranogiad; cynyddu sgiliau a chreadigrwydd; a gwella ansawdd bywydau.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
718 o ddyfarniadau gwerth bron £2.5 miliwn.

## Teuluoedd Iach

Mae'r fenter £20 miliwn hon yn ymdrin â lefelau gordewdra yng Nghymru, pryderon am glefyd coronaidd y galon fel yr achos marwolaeth mwyaf cyffredin a'r angen am fynd i'r afael ag iechyd gwael a achosir gan ffordd o fyw. Y nodau yw ychwanegu gwerth at bolisïau presennol drwy greu cyswllt strategol rhwng chwarae plant, maeth a gweithgarwch corfforol, a chreu ymagwedd gydlynol at hyrwyddo ffyrdd o fyw actif ac iach ymysg plant a theuluoedd. Rydym wedi datblygu dwy raglen sydd wedi'u cysylltu'n agos i gyflawni'r nodau hyn. Cafwyd pob dyfarniad drwy'r rhaglen Teuluoedd Iach – Ffordd o Fyw mewn blynyddoedd blaenorol.

### Teuluoedd Iach – Chwarae Plant

Lansiwyd ein rhaglen Chwarae Plant ym mis Hydref 2006.

Nod y rhaglen yw datblygu mynediad agored i gyfleusterau chwarae. Mae'r rhaglen yn ariannu datblygu isadeiledd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau chwarae a bydd yn ariannu prosiectau sy'n darparu cyfleoedd chwarae ac yn annog ymagwedd gydlynol rhwng maeth, bwyta'n iach a chwarae.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
8 gwerth £7.5 miliwn

## Pawb a'i Le

Lansiwyd Pawb a'i Le ym mis Tachwedd 2005 gyda chyllideb gychwynnol o hyd at £66m.

Mae poblogrwydd a llwyddiant y rhaglen yn golygu y bydd yn cael ei hestyn, gan barhau i ddyfarnu grantiau tan 2011 gyda chyllideb uwch. Bydd yn rhoi cyfle i bobl gydweithio i ddatblygu cymunedau cryfach, gwell cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol. Mae'r rhaglen yn dyfarnu grantiau rhwng £5,001 ac £1 miliwn.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
104 gwerth £17.5 miliwn.



## Rhaglenni Loteri/Nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri

Gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i ni drwy Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006 rydym yn rheoli'r rhaglen ariannu canlynol gan y Loteri/Nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri yng Nghymru:

### Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Lansiwyd y rhaglen Trosglwyddo asedau Cymunedol gwerth £13 miliwn ym mis Hydref 2009 mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n darparu ariannu cyfalaf ar gyfer y rhaglen.

Nod y rhaglen yw creu cymunedau mwy cynaliadwy drwy gefnogi trosglwyddo asedau o gyrff sector cyhoeddus i sefydliadau cymunedol mentrus sy'n cynnwys ac yn creu buddion ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'n rhaid i brosiectau weithio i wella gwasanaethau neu gyfleusterau ar gyfer eu cymunedau, a dangos bod eu cynigion yn gynaliadwy yn yr hir dymor ac yn ystyried effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd eu gwaith.

### Sgiliau Bywyd

Ariennir ein rhaglen Sgiliau Bywyd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2009, ar y cyd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, gan ddarparu arian cyfatebol gan y Loteri ac Arian Strwythurol Ewropeaidd. Darperir cyllideb o £14 miliwn ar gyfer y rhaglen.

Nod y rhaglen yw galluogi cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau bywyd, cynyddu eu hyder a dychwelyd i, neu barhau i hygyrchu, addysg, dysgu, gwirfoddoli neu gyflogaeth. Y grwpiau targed yw: y rhai sy'n gadael gofal; gofalwyr a chyn-ofalwyr; a, theuluoedd sy'n anweithgar yn economaidd.

**Nifer y contractau a ddyfarnwyd yn 2009/10**: 12 gwerth £6.1 miliwn gan ddilyn broses gaffael gystadleuol.



# Adran dau
## Rhaglenni Gogledd Iwerddon

Yn ystod 2009/10 yng Ngogledd Iwerddon rydym wedi bod wrthi'n ymgynghori ar y rhaglenni newydd yr hoffem eu rhedeg. Yn ogystal â pharhau i ddyfarnu a rheoli grantiau drwy ein rhaglenni cyfredol, rydym wedi cydweithio ag arianwyr eraill ar y digwyddiad Impact of Youth ym mis Chwefror 2010, pan gafodd pobl ifanc eu cynnwys wrth amlygu'r effaith y mae prosiectau wedi'u gwneud ar eu bywydau.

Lansiwyd 'Big proposals' ym mis Hydref 2009 – ceisiodd y ddogfen ymgynghori gyhoeddus hon farn pobl sydd â diddordeb yn ein rhaglenni newydd yng Ngogledd Iwerddon. Daeth cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau ar draws y sectorau i'r digwyddiadau 'Big proposals', a gwnaethant gyflwyno ymatebion; roedd y rhain yn cynnwys grwpiau cymunedol bach, sefydliadau gwirfoddol mawr a chynrychiolwyr y sector statudol. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 15 Ionawr 2010. Cyhoeddwyd crynodeb o'r canfyddiadau a diweddariadau ar raglenni newydd yng ngwanwyn 2010.

Yn ystod 2009/10 mae pwyllgor Gogledd Iwerddon y Gronfa Loteri Fawr wedi bod wrthi'n gwneud penderfyniadau ar ein rhaglenni iechyd a diogelwch cymunedol strategol yn ogystal â rhaglen Reaching Communities Gogledd Iwerddon. Mae ein cynnydd tuag at fod yn fwy o ariannwr deallus yn golygu ein bod yn cymryd rhan yn weithredol drwy gydol cylch bywyd ein hariannu, ac rydym yn cydweithio â phrosiectau a ariennir i nodi a chyflawni canlyniadau sy'n parhau.

**Cylch gwaith**

Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd

| | | |
|---|---|---|
| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |

**Canlyniadau Gogledd Iwerddon**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gall pobl gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol | Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel | Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb | Pobl yn cael cyfle i gyflawni eu potensial llawn |

**Rhaglenni Gogledd Iwerddon**

| |
|---|
| Reaching Communities Northern Ireland |
| Arian i Bawb Gogledd Iwerddon |
| Cronfa Pobl Ifanc |
| Safe and Well |

## Arian i Bawb

Tan fis Mawrth 2009 rhedwyd Arian i Bawb mewn partneriaeth â'r sefydliadau eraill sy'n dosbarthu arian Loteri ledled Gogledd Iwerddon. Ym mis Ebrill 2009 ail-lansiwyd y rhaglen hon fel rhaglen y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn mae'r dosbarthwyr eraill yn rhedeg rhaglenni ar wahân ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth.

Mae Arian i Bawb Gogledd Iwerddon yn ariannu prosiectau rhwng £500 a £10,000 gyda'r nod o ddod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus drwy ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymunedau, dod â nhw ynghyd i fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau elusennol, cymunedol, addysgol, amgylcheddol ac iechyd.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
369 gwerth dros £2.8 miliwn.

## Reaching Communities Northern Ireland

Lansiwyd rhaglen Reaching Communities Gogledd Iwerddon yn 2006 ac fe ddaeth i ben fis Medi 2008. Dyfarnodd y rhaglen grantiau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac mae'n ceisio cyflawni cenhadaeth y Gronfa Loteri Fawr o wneud gwahaniaeth ym mywydau'r bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus.

Yn 2009/10 dyrannodd pwyllgor Gogledd Iwerddon £5 miliwn ychwanegol i gefnogi'r galw aruthrol am y rhaglen hon. Adolygwyd y nifer sylweddol o geisiadau y gellid eu hariannu nad oedd gennym ddigon o gyllideb i'w cefnogi o'r blaen. Dyfarnwyd arian i 14 prosiect arall ym mis Hydref 2009.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
24, gwerth bron £10.2 miliwn.

## Safe and Well

Lansiwyd y rhaglen Safe and Well yn 2006.

Mae'r rhaglen yn ceisio gwella bywydau pobl yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Gogledd Iwerddon drwy ariannu prosiectau ataliol sy'n hyrwyddo lles. Mae Safe and Well yn annog cymunedau i gydweithio i fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2009/10**:
19 gwerth dros £17.6 miliwn.

## Cronfa Pobl Ifanc Gogledd Iwerddon

Lansiwyd Cronfa Pobl Ifanc Gogledd Iwerddon yn 2005.

Targedodd y rhaglen adnoddau ar y bobl ifanc sy'n wynebu'r perygl mwyaf o droseddu a chael eu heithrio. Roedd yn ceisio rhoi'r arian i'r bobl ifanc eu hunain, a gallai ariannu sefydliadau sy'n gweithio ar ran pobl ifanc. Mae dwy ran i'r rhaglen hon, Change UR Future a Big Deal.

Penodwyd YouthNet fel partner dyfarnu yn 2006 i redeg Big Deal yng Ngogledd Iwerddon, sef gwerth o £4 miliwn. Dyfarnwyd £500,000 ychwanegol i YouthNet ym mis Medi 2009 i estyn y rhaglen grantiau bach.

# Adran tri

Ein perfformiad gweithredol

## Ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion corfforaethol

Nododd Cynllun Corfforaethol 2009/10 dri amcan strategol i lunio ein blaenoriaethau ar gyfer gwireddu'r weledigaeth a gyflwynwyd yn y Farn Fawr. Mae'n pennu pedwar dangosydd perfformiad allweddol y byddem yn eu defnyddio i fesur llwyddiant. Mae ein perfformiad yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro yn erbyn ein targedau a gyhoeddwyd, ac adroddir amdano i Fwrdd y DU drwy gydol y flwyddyn.

Yma rhoddir crynodeb o sut rydym wedi perfformio yn erbyn y tri amcan hwn.

## Amcan un:

**Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon ac yn effeithiol ac ym mhob blwyddyn rydym yn ymrwymo ein cyllideb grantiau'n gyfan gwbl**

| Targedau a gyflwynwyd | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **1. Yn erbyn targed o 8.5 y cant, ein costau gweithredu craidd oedd 7.4 y cant o incwm gan y Loteri (seiliedig ar incwm cyn trosglwyddo arian i'r Gemau Olympaidd).** | Yn 2009/10 roedd ein costau gweithredu fel canran o incwm y Loteri'n sylweddol is na'r targed hwn. Y costau gweithredol gwirioneddol ar gyfer cyflwyno arian Loteri oedd £58 miliwn: cynnydd o £1.5 miliwn (2.6 y cant) o 2008/09. Mae'r cynnydd hwn yn cynrychioli costau staff ychwanegol sy'n deillio o'r gweithgarwch cynyddol wrth i ni ddatblygu a lansio ein rhaglenni ar gyfer y fframwaith ariannu newydd. Yn adran pedwar yr adroddiad hwn rhoddwn fwy o fanylion am sut rydym yn rheoli ein costau gweithredu. |
| **2. Ymrwymwyd dros 100 y cant o'r gyllideb grantiau ledled y DU y cytunwyd arni ar gyfer 2009/10.** | Yn ein cynllun corfforaethol dywedom ein bod yn bwriadu dyfarnu £361 miliwn yn 2009/10. Rydym wedi rhagori ar hyn ac yn adrodd ein bod wedi dyfarnu £423 miliwn; a chyda'r symudiad o ran ymrwymiadau meddal rydym yn adrodd am ymrwymiadau grant newydd o £440 miliwn. Wrth ymateb i ganfyddiadau ein hymgynghoriad ac oherwydd lefelau uchel yr incwm a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi pecyn dirwasgiad a fyddai'n darparu £45 miliwn ychwanegol ar gyfer gweithgareddau i fynd i'r afael ag effaith y dirwasgiad drwy ein rhaglenni presennol. Ailddyrannwyd £43 miliwn pellach hefyd, sydd i'w fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r dirwasgiad dros gyfnod dwy flynedd rhwng 2009 a 2011. |

## Amcan dau:

**Dywedodd y rhai a holodd am, ymgeisiodd am neu a dderbyniodd ein gwasanaethau ein bod wedi darparu gwasanaeth ardderchog ar eu cyfer**

| Targedau a gyflwynwyd | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **1. Dylunio mesur boddhad cwsmeriaid cadarn a phennu ein gwaelodlin. Profwyd dull amgen o arolygu cwsmeriaid a sefydlwyd gwaelodlin.** | Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2010 cysylltwyd â mwy na 100,000 o bobl ledled y DU a ymholodd am grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Gwnaethom ymateb hefyd i fwy na 4,000 o gynigion amlinellol, asesu mwy na 21,000 o geisiadau am grantiau a chefnogi mwy na 20,000 o sefydliadau sydd rhyngddynt yn dal mwy na 26,000 o grantiau y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u dyfarnu.<br><br>Bob blwyddyn defnyddiwn nifer o ddangosyddion i'n hysbysu am ansawdd ein gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r ffigurau hyn wedi parhau â thuedd gadarnhaol ers 2005/06 y tybiwn ei bod o ganlyniad i raglenni ariannu a ddyluniwyd yn well, amseru penderfyniadau dyfarnu'n well a buddsoddiad parhaus mewn hyfforddi staff.<br><br>Eleni ymdriniwyd â 99.7 y cant o'r cynigion amlinellol a dderbyniwyd, a 92.7 y cant o geisiadau am grantiau a dderbyniwyd, yn unol â safonau cyhoeddedig. Roedd y cyflawniadau hyn uwchben targedau mewnol a bennwyd ar gyfer ansawdd gwasanaeth. Derbyniwyd 95 yn unig o gwynion gan gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn a gwnaethom ymateb i 91 o'r rhain o fewn ein safon gwasanaeth 10 niwrnod. Cymerwyd ychydig yn hwy i ystyried y cwynion eraill yn drwyadl. Gwelwn bob cwyn fel cyfleoedd i wella ein prosesau, ac rydym wedi gweithredu i ddatrys diffygion lle mae cwynion wedi deillio o'r rhain.<br><br>Yn ystod y flwyddyn dechreuom brofi ein harweiniad a'n ffurflenni ymgeisio gyda chwsmeriaid. Gwnaethom barhau i ddatblygu gwelliannau technoleg ar gyfer cwsmeriaid, a nes bod ein systemau newydd yn barod i lansio, rydym yn peilota ffyrdd newydd eraill o weithio, gan gynnwys ffurflen ymgeisio ryngweithiol i helpu ymgeiswyr tro cyntaf.<br><br>Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi datblygu strategaeth gwasanaeth cwsmeriaid newydd a gyfeiriwyd gan adroddiad annibynnol ar ein perfformiad cyfredol yn erbyn pum maen prawf Safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid y llywodraeth. Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn gadarnhaol.<br><br>I sefydlu dull o fesur barn cwsmeriaid y byddwn yn pennu targedau blynyddol yn ei erbyn o 2010 ymlaen, comisiynwyd y sefydliad ymchwil farchnata, Ipsos MORI, i ddylunio arolwg ar ein cyfer. Yn yr arolygon cyntaf mae Ipsos MORI wedi cwblhau 2,417 o gyfweliadau ar-lein ar ein cyfer. O'r canlyniadau gallwn adrodd bod 90 y cant o'n cwsmeriaid yn fodlon a bod 47 y cant o'r rhain wedi graddio ein gwasanaeth yn ardderchog. Mae dadansoddiad manwl o'r data wedi cyfrannu at y Strategaeth Gwasanaeth cwsmeriaid a chynllun rhoi ar waith ar gyfer 2010/11. |

# Adran tri

## Amcan tri:

**Mae ein rhaglenni ariannu'n cyflwyno eu canlyniadau**

| Targedau a gyflwynwyd | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **1. Yn erbyn targed o 93 y cant, cyflawnodd 95.4 y cant o brosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ac a gwblhawyd yn llwyddiannus eleni, eu canlyniadau.** | Yn ystod y flwyddyn hon adeiladwyd ar ymgynghoriad y 'Farn Fawr' drwy gyflawni gwaith ymchwil a gwerthuso a thrwy siarad â'r rhai sydd â diddordeb yn ein gwaith. Rydym wedi defnyddio ein tystiolaeth a'n dysg yn unol â strategaeth ymchwil a dysgu'r Gronfa Loteri Fawr er mwyn cyfeirio datblygiad ein rhaglenni ariannu newydd y byddwn yn eu lansio o 2010 ymlaen.<br><br>Mae'r holl raglenni rydym yn eu hariannu'n symud ymlaen o fewn fframwaith canlyniadau sy'n sicrhau y gallwn fonitro eu canlyniadau a sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at y diben y cytunwyd arno. Yn 2009/10 gwnaed 14,000 o ddyfarniadau. Cwblhawyd 541 o brosiectau'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, ac adroddwyd i ba raddau yr oeddent wedi cyflawni eu canlyniadau. Ar sail hyn cyfrifwyd bod 95.4 y cant o'r prosiectau a gwblhawyd wedi cyflawni eu canlyniadau'n llawn.<br><br>Rydym hefyd wedi treulio amser yn ymchwilio ac yn datblygu ffordd well o fesur effeithiolrwydd ein rhaglenni ariannu. Caiff y newid hwn ei roi ar waith o 2010 ymlaen a bydd yn rhoi cyfle i ni wella'r ffordd yr ydym yn deall ac yn adrodd am berfformiad ein rhaglenni. Bydd hefyd yn ein helpu i gipio a chymhwyso'r ddysg bwysig a ddaw i'r amlwg.<br><br>Rhoddodd y 'Farn Fawr' ymrwymiad y bydd y SGCh yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n hariannu rhwng 2009 a 2015. Ein targed blaenorol oedd 60 i 70 y cant. Mae'r targed uwch yn elfen allweddol o'r ffordd yr ydym yn dylunio ein rhaglenni newydd. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 dyfarnwyd 92 y cant o'n hariannu i'r SGCh.<br><br>Mae adroddiadau ymchwil a gwerthuso wedi'u cyhoeddi a gellir dod o hyd iddynt ar ein gwefan yn www.cronfaloterifawr.org.uk |

## Ein polisïau cyflogaeth

Fel blynyddoedd blaenorol, mae ein trefniadau o ran tâl ac amodau yn seiliedig ar arfer gorau yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys dilyn cynigion Swyddfa'r Cabinet o ran bod yn bwyllog wrth gynyddu cyflogau, ond gan drin pobl yn deg ar yr un pryd.

Mae gennym ystod sefydledig o bolisïau cyflogaeth sy'n dangos ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr teg. Rydym yn adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfreithlon, yn dryloyw ac yn deg.

Mae gweithwyr yn cael bod yn rhan o Brif Gynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil. Mae cyflogyddion yn gallu dewis ymuno â threfniad prynu arian seiliedig ar fudd-ddeiliaid.

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr dîm hyfforddi mewnol ardderchog, sydd wedi'i gydnabod gan y Sefydliad Personél a Datblygu Siartredig. Mae'r tîm yn rhedeg hyfforddiant gweithredol a datblygu sgiliau ehangach ar draws y Gronfa Loteri Fawr. Gall gweithwyr wella eu perfformiad a chael cyfle i symud eu gyrfaoedd ymlaen o fewn y sefydliad. Mae'r rhaglenni rheoli dawn Aspire ac Ascend yn canolbwyntio ar reolwyr uchel eu potensial y dyfodol ac yn eu paratoi ar gyfer rolau arweinyddiaeth lefel uwch. Rydym yn datblygu rhwydwaith o hyfforddwyr mewnol ar draws y sefydliad – gan gynnwys dewisiadau amgen i gyrsiau hyfforddi costus a chan ddarparu mwy o gydweithrediad ar draws adrannau wrth ddatblygu staff. Rydym yn arwain ar gynigion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri i rannu cyfleusterau a datrysiadau hyfforddi.

Mae undebau llafur Prospect and Unite yn cael eu cydnabod ar y cyd at ddiben bargeinio ar y cyd ar gyfer pob cyflogydd, ac eithrio Cyfarwyddwyr. Mae cyfarfodydd misol rhwng yr undebau a rheolwyr wedi'u hategu gan grwpiau ffocws a chyfarfodydd anffurfiol i gynnal perthnasoedd da. Yn ogystal, mae Grŵp yr Undebau ar y Cyd yn cwrdd â'r Prif Weithredwr yn rheolaidd.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi estyn cyfranogiad staff wrth gefnogi'r uwch dîm rheoli drwy ffurfio clymblaid o arweinwyr i gefnogi mentrau newid a chyfathrebu. Mae uwch reolwyr ac arweinwyr hefyd yn ymwneud â gwneud penderfyniadau strategol.

Mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn cael eu monitro. Yn 2009/10 7.1 oedd nifer cyfartalog y diwrnodau salwch fesul gweithiwr, gan gynrychioli 3.1 y cant o amser a gollwyd.  Mae rheolwyr wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth eleni mewn perthynas â rheoli absenoldeb salwch.

## Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

Mae ein hymagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'n polisïau a'n diwylliant. Mae'r uwch dîm rheoli a'r Bwrdd yn darparu cefnogaeth gref ac anogaeth gadarnhaol wrth ymgorffori ein hegwyddorion cydraddoldeb o fewn ein harferion a'r prosiectau rydym yn eu hariannu. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb (Hil, Anabledd a Rhyw) ar y Cyd wedi dod i ben ac ar hyn o bryd rydym wrthi'n datblygu'r cynllun tair blynedd nesaf. Rydym hefyd wedi cwblhau ymchwil a fydd yn ein helpu i nodi'n fwy effeithiol pwy sy'n elwa o'r prosiectau rydym yn eu hariannu, a ble mae angen i ni gymryd camau i fynd i'r afael ag anghydbwysedd.

## Cydraddoldeb mewn cyflogaeth

Mae ein hymagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn anelu at adlewyrchu cymaint â phosib y cymunedau rydym yn eu cynrychioli. Yn ddiweddar gwnaethom ymuno â'r cynllun Hyrwyddwyr Amrywiaeth, y fforwm cyflogwyr ar dueddfryd rhywiol, rydym yn adeiladu ar ein haelodaeth o'r Fforwm Cyflogwyr ar Anabledd ac rydym wedi cadw ein statws Tic Dwbl. Gwnaethom dderbyn gwobr arian y Safon Anabledd yn 2009 ac rydym yn defnyddio gweithredu cadarnhaol o ran annog ceisiadau gan bobl anabl. Er enghraifft, rydym yn cynnig lleoliadau gwaith i'r rhai sydd â nam corfforol neu feddyliol, rydym yn parhau i hyrwyddo ein hymagwedd at gydraddoldeb ac yn cefnogi'r rhai sydd wedi datgan anabledd. Parhawn i annog datgan anableddau.

# Adran tri

| Statws anabledd | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Staff ag anableddau | 3% | 4% | 13% |
| Staff heb anableddau | 97% | 96% | 87% |

Mae ein gweithlu'n fenywod yn bennaf, ond mae'r anghydbwysedd rhyw wedi lleihau ychydig dros y 12 mis diwethaf. Mae nifer y dynion rydym yn eu cyflogi mewn swyddi graddau is wedi cynyddu. Mae ein gweithlu mewn swyddi graddau uwch yn gymharol gytbwys. Serch hynny, rydym yn parhau i fonitro cydraddoldeb o ran tâl ar bob lefel i sicrhau ei fod yn parhau'n deg ac yn dryloyw.

| Rhyw | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Benyw | 61% | 52% | 44% |
| Gwryw | 39% | 48% | 56% |

Mewn perthynas ag ethnigrwydd, mae canran y staff rydym yn eu cyflogi'n cyfateb yn fras i'r hyn y gellir ei ddisgwyl o ystyried lleoliadau ein prif swyddfeydd. Mae canran gyffredinol y staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf.

| Grŵp Ethnig | Cronfa Loteri Fawr | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|
| Asiaidd | 5.1% | 3.0% |
| Du | 2.9% | 1.4% |
| Tsieineaidd | 0.3% | 0.3% |
| Cymysg | 1.0% | 1.5% |
| Arall | 0.5% | 0.4% |
| Gwyn arall | 4.8% | 3.4% |
| **Cyfanswm du a lleiafrifoedd ethnig (BME)** | **14.6%** | **10.0%** |
| Gwyn DU | 83.3% | 90.0% |
| Dim gwybodaeth | 2.1% | |
| Ddim eisiau datgan | 0.0% | |

## Cydraddoldeb mewn rhaglenni newydd

Mae'r llywodraeth yn disgwyl i bawb gael cyfle teg o hygyrchu arian Loteri ac elwa ohono. Mae casglu data ynglŷn â cheisiadau'n un ffordd o'n helpu i fonitro pa mor llwyddiannus yr ydym o ran cyflawni'r nod hwn a ble y gallai fod angen mwy o ymdrech.

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiectau wedi'u hanelu at, neu'n arbennig o berthnasol i bobl o ethnigrwydd, oedran, rhyw, ffydd, anabledd neu dueddfryd rhywiol penodol ac, yng Ngogledd Iwerddon yn unig, cefndir cymunedol. Nid yw'r data hwn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion asesu.

Yn ystod y flwyddyn gwiriwyd yr holl ddata cydraddoldeb y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ei gadw. Cysylltwyd â chwsmeriaid ynglŷn ag unrhyw ymholiadau. Daw'r data a ddarparwn gyda 'rhybudd iechyd' o hyd. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un categori ac nid yw rhai pobl yn ateb y cwestiynau.

Ar gyfer yr adroddiad hwn dadansoddwyd yr wybodaeth o 23,104 o geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010. Roedd yr holl geisiadau hyn wedi derbyn penderfyniad ariannu yn ystod y flwyddyn. Eithriwyd grantiau a ddyfarnwyd o dan raglenni Arwyr yn Ôl a Parks for People ynghyd â grantiau a ddiddymwyd neu a drosglwyddwyd. Gwnaed 10,387 o ddyfarniadau (cyfanswm o £338 miliwn) o'r gronfa geisiadau hon. Amlinellir y canlyniadau yn y tabl isod.

Ein polisi yw y gellir dyfarnu grant i brosiectau sydd wedi'u targedu at anghenion grwpiau penodol os gellir dangos yr angen yn glir. Yn gyffredinol fodd bynnag, mae'n well gan y Gronfa Loteri Fawr ariannu prosiectau sy'n agored i bob rhan o'r gymuned. Adlewyrchir hyn yn ein hystadegau ariannu, sy'n amlygu'r ffaith bod y mwyafrif helaeth o geisiadau a dderbyniwyd a'r dyfarniadau a wnaed yn ymwneud â phrosiectau sy'n nodi eu bod yn agored ac yn gynhwysol.

Nodwn y canfyddiadau canlynol:

- y gyfradd lwyddiant a symiau dyfarnu cynyddol ar gyfer prosiectau a dargedir at bobl dros eu 65 oed o'i gymharu â'r llynedd; ac
- er bod cyfraddau llwyddiant yn gadarnhaol, mae cyfraddau ymgeisio ar gyfer prosiectau sydd wedi'u targedu at lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yn parhau'n isel. Rydym yn ymrwymedig i ymchwilio i'r rhesymau dros y canfyddiad hwn.

| | **Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio** [2] | | **Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo ceisiadau** | | **Swm y gofynnwyd amdano (£000) a % o'r swm y gofynnwyd amdano** [3] | | **Swm a ddyfarnwyd (£000) a % o'r swm a ddyfarnwyd** [4] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd** (gofynnwyd i ymgeiswyr os yw eu prosiect wedi'i anelu at, neu'n arbennig o berthnasol i, bobl o gefndir ethnig penodol. Gallant ddewis hyd at dri chategori ac felly mae'r atebion hyn yn cynnwys cyfrif dwbl a thriphlyg.) | | | | | | | | |
| Asiaidd | 1,037 | 5% | 430 | 42% | 42,994 | 5% | 12,893 | 4% |
| Du | 1,244 | 6% | 539 | 43% | 48,186 | 5% | 16,354 | 5% |
| Cymysg | 975 | 4% | 360 | 37% | 44,436 | 5% | 13,546 | 4% |
| Tsieineaidd ac arall | 374 | 2% | 187 | 50% | 20,931 | 2% | 6,773 | 2% |
| Gwyn arall | 356 | 2% | 169 | 48% | 13,232 | 1% | 5,858 | 2% |
| Gwyn DU | 2,235 | 10% | 1,281 | 57% | 67,502 | 7% | 28,673 | 9% |
| Dim ethnigrwydd penodol | 18,877 | 83% | 8,327 | 44% | 786,933 | 83% | 278,678 | 83% |

[2] Dangosir y gyfradd ymgeisio fel canran o'r ceisiadau sydd wedi gofyn am y data.

[3] Dangosir y swm y gofynnwyd amdano fel canran o'r ceisiadau sydd wedi gofyn am y data.

[4] Dangosir y swm a ddyfarnwyd fel canran o'r cyfanswm ariannu a ddyfarnwyd i'r ceisiadau a ofynnodd am y data.

# Adran tri

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio [2] | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano (£000) a % o'r swm y gofynnwyd amdano [3] | | Swm a ddyfarnwyd (£000) a % o'r swm a ddyfarnwyd [4] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** (Gofynnir i ymgeiswyr os yw eu prosiect wedi'i anelu at, neu'n arbennig o berthnasol i bobl mewn grŵp oedran penodol. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp oedran ac felly gall yr atebion hyn gynnwys cyfrif lluosog.) | | | | | | | | |
| 0-24 | 9,626 | 42% | 4,243 | 44% | 529,000 | 56% | 193,375 | 57% |
| 25-64 | 4,186 | 18% | 1,811 | 43% | 264,654 | 28% | 105,393 | 31% |
| 65+ | 2,366 | 10% | 1,152 | 49% | 183,739 | 19% | 79,050 | 24% |
| Dim oedran penodol | 11,097 | 49% | 4980 | 45% | 356,117 | 38% | 115,428 | 34% |
| **Rhyw** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect wedi'i anelu at, neu'n arbennig o berthnasol i bobl o ryw benodol.) | | | | | | | | |
| Benyw | 991 | 6% | 514 | 52% | 34,948 | 4% | 14,622 | 5% |
| Gwryw | 212 | 1% | 102 | 48% | 10,221 | 1% | 5,321 | 2% |
| Dim rhyw benodol | 16,651 | 93% | 8,359 | 50% | 863,489 | 95% | 308,253 | 94% |
| **Cefndir cymunedol** (Gofynnir i ymgeiswyr sy'n ymgeisio i raglenni sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon nodi i ba gymuned mae'r rhai sy'n elwa o'u prosiect yn perthyn iddi'n bennaf.) | | | | | | | | |
| Catholig yn bennaf | 120 | 21% | 100 | 84% | 7,964 | 15% | 5,472 | 18% |
| Protestant yn bennaf | 126 | 22% | 113 | 90% | 5,172 | 10% | 2,753 | 9% |
| Y ddwy | 255 | 45% | 183 | 72% | 36,524 | 69% | 22,290 | 73% |
| Nid y naill na'r llall | 25 | 4% | 16 | 64% | 3,470 | 7% | 119 | <1% |

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio [2] | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano (£000) a % o'r swm y gofynnwyd amdano [3] | | Swm a ddyfarnwyd (£000) a % o'r swm a ddyfarnwyd [4] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffydd** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect yn arbennig o berthnasol i bobl o ffydd benodol. Gallant ddewis fwy nag un ffydd, ac felly mae'r atebion hyn yn cynnwys cyfrif lluosog.) | | | | | | | | |
| Cristnogol | 67 | <1% | 30 | 45% | 1,824 | <1% | 712 | <1% |
| Bwdhaidd | 2 | <1% | 0 | 0% | 70 | <1% | 0 | 0% |
| Hindŵaidd | 12 | <1% | 3 | 25% | 76 | <1% | 15 | <1% |
| Iddewig | 75 | <1% | 42 | 56% | 2,047 | <1% | 819 | <1% |
| Moslemaidd | 87 | <1% | 45 | 52% | 5,952 | <1% | 2,463 | <1% |
| Sikhaidd | 12 | <1% | 7 | 58% | 676 | <1% | 50 | <1% |
| Ffydd arall | 29 | <1% | 15 | 52% | 1,297 | <1% | 235 | <1% |
| Dim ffydd benodol | 17,137 | 98% | 8,464 | 50% | 893,268 | 99% | 32,1072 | 98% |
| **Anabledd** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect yn arbennig o berthnasol i bobl anabl.) | | | | | | | | |
| Anabl | 3,691 | 16% | 1,767 | 48% | 161,938 | 17% | 72,287 | 20% |
| Heb fod yn anabl | 19,323 | 84% | 8,600 | 45% | 786,243 | 83% | 272,031 | 80% |
| **Tueddfryd rhywiol** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect yn arbennig o berthnasol i lesbiaid, dynion hoyw neu bobl ddeurywiol.) | | | | | | | | |
| Hoyw/lesbaidd/deurywiol | 144 | <1% | 86 | 60% | 12,849 | 1% | 4,399 | 1% |
| Heb fod yn benodol ar gyfer pobl hoyw/lesbaidd /deurywiol | 21,930 | 99% | 10,195 | 47% | 899,224 | 99% | 329,617 | 99% |

# Adran tri

## Cynllun Iaith Gymraeg

Lansiwyd y Cynllun Iaith Gymraeg newydd ym mis Medi 2009. Mae'n amlinellu sut byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac wrth ddyfarnu grantiau.

Rydym yn monitro gweithrediad y Cynllun. Bob tri mis mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn mynd i gyfarfod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i geisio cyngor a sicrhau bod y Gronfa Loteri Fawr yn bodloni'i hymrwymiadau.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu at roi Iaith Pawb – y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog – ar waith.

Yn ystod 2009 roedd y Gronfa Loteri Fawr yn un o nifer bach o sefydliadau a lwyddodd i gael arian gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog, ac fe'i defnyddiwyd i ariannu prosiect yn swyddfeydd y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru.

## Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Yn unol â'n dyletswyddau statudol dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, gwnaethom gyflwyno ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2009. Darparodd yr adroddiad yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau deddfwriaethol a chynnydd ar waith cydraddoldeb yng Nghronfa Loteri Fawr Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009.

Cyhoeddwyd ein pumed adroddiad sgrinio ym mis Medi 2009 sy'n rhoi manylion yr holl bolisïau, y rhaglenni a'r swyddogaethau y sicrhawyd eu hansawdd ac a gafodd eu hadolygu rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mehefin 2009.

Mae ail adolygiad blynyddol Cynllun Gweithredu Anabledd 2007 - 2012 wedi'i gwblhau ac mae'r rhai sydd â diddordeb yn ein gwaith wedi cael eu hysbysu. Rydym yn parhau i roi ein Cynllun Cydraddoldeb 2007-2012 ar waith ac wedi cael trafodaethau defnyddiol gyda budd-ddeiliaid allweddol drwy gydol y cyfnod adrodd hwn.

## Ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i hyrwyddo cynaladwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys gosod safonau amgylcheddol uchel ar gyfer ni ein hunain a'r prosiectau rydym yn eu hariannu.

Rydym wedi cyfrifo ein hôl troed carbon ar gyfer 2008/09 fel 2,210 tunnell. Mae hyn yn cynnwys ein defnydd o gyfleustodau a theithio mewn ceir ac awyrennau. Bydd data ar deithio mewn trenau ar gael ar gyfer cyfrifiad 2009/10. Rydym yn parhau i gasglu data gwell i wella cadernid ein cyfrifiadau ac i'n galluogi i fonitro perfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Byddwn yn cymharu'r canlyniadau ac yn ymchwilio i gamau gweithredu y gallwn eu cyflwyno i gwtogi ymhellach ar ein hallyriadau carbon

## Ein polisi ac arfer taliadau

Yn unol â'r Canllaw Arferion Talu Gwell, anelwn at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl derbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi'u cyd-drafod. Yn y flwyddyn sy'n destun yr adolygiad, talwyd 93 y cant (2008/09 91 y cant) o'r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb nad yw'n destun anghydfod.

Ar ben hynny rydym hefyd wedi ymrwymo i ostwng diwrnodau talu credydwyr yn ystod 2009/10. 10 niwrnod yw targed Her Talu'n Brydlon y Llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn ariannol talwyd 34 y cant o gyflenwyr o fewn 10 niwrnod gwaith.


Bright KidZ
Bright KidZ

# Adran pedwar
## Ein perfformiad ariannol

Mae ein canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 wedi'u hamlinellu yn y cyfrifon blynyddol, gan ddechrau o dudalen 57. Paratowyd y cyfrifon hyn ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn gyffredinol, maent yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM). Eleni mae'r cyfrifon yn ymgorffori gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae ailddatganiad bach o gronfeydd wrth gefn blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i roi'r safonau hyn ar waith. Yn nodyn 2 y cyfrifon amlinellwyd effaith y newid hwn ar adrodd ariannol y Gronfa Loteri Fawr.

### Incwm o'r Loteri Genedlaethol

Yn ystod 2009/10 derbyniwyd **£740 miliwn** (2008/09 £625 miliwn) mewn incwm uniongyrchol o werthu tocynnau'r Loteri Genedlaethol. Rydym yn derbyn hanner yr arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol. `

Ym mis Mawrth 2007 cytunodd Senedd y DU y dylid trosglwyddo £638 miliwn i Gronfa Dosbarthu Loteri Gemau'r Olympaidd (OLDF) rhwng Chwefror 2009 ac Awst 2012. Yn ystod 2009/10 gwnaed trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £172 miliwn.

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth<br>£ m | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddo arian i'r OLDF | 43 | 172 | 172 | 172 | 80 | 638 |

Mae incwm a gynhyrchir gan y Loteri Genedlaethol yn cael ei gadw a'i fuddsoddi ar ein rhan ni yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), gan gynhyrchu **£4 miliwn** pellach (2008/09 £31 miliwn) mewn incwm buddsoddi yn ystod y flwyddyn. Yn rhannol mae'r dirywiad hwn oherwydd y gostyngiad parhaus mewn balansau NLDF ond yn fwyaf arwyddocaol, o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol newidiol yn sgil y dirwasgiad.

Nid oes gan ein Bwrdd unrhyw gyfrifoldeb dros fuddsoddi balansau NLDF; erys y stiwardiaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Darperir manylion yn nodyn 14 y cyfrifon blynyddol. Mae nodyn 21 y cyfrifon blynyddol yn amlinellu pam mae'r Bwrdd yn ystyried nad ydym yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

### Ariannu achosion da


Mae ymrwymiadau newydd gwerth cyfanswm o **£440 miliwn** (2008/09 £526 miliwn) wedi'u cofnodi yn ein cyfrifon; dyma werth y dyfarniadau a dderbyniwyd yn ffurfiol gan dderbynyddion grantiau, ac mae'n cynnwys rhai dyfarniadau a wnaed yn 2008/09. Nid yw £63 miliwn (2008/09 £83 miliwn) o ddyfarniadau ychwanegol wedi'u cofnodi fel ymrwymiadau eto gan ein bod yn dal i aros i dderbynnydd y grant eu derbyn. Mae'r gostyngiad mewn dyfarniadau newydd o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dyma ddechrau'r cyfnod cyflwyno ein Fframwaith Ariannu 2009-2015 newydd.

Yn ystod 2009/10 gwnaed taliadau o **£604 miliwn** (2008/09 £558 miliwn) i ddeiliaid grantiau.

## Sut rydym yn penderfynu faint i'w wario

Ein polisi yw gwneud cynifer o ddyfarniadau grant ag y gallwn heb gymryd gormod o risgiau a allai olygu na fydd gennym yr arian i fodloni'r ymrwymiadau hynny mewn hinsawdd economaidd ansicr.

Wrth ymateb i'r hyn y mae'r sector gwirfoddol a chymunedol wedi'i ofyn amdano gennym, rydym bellach yn dyfarnu grantiau am gyfnodau hwy: mae grantiau sy'n para am bum mlynedd yn gyffredin erbyn hyn. Ac wrth gwrs rydym yn ariannu gwaith cyfalaf sy'n cymryd nifer o flynyddoedd i'w adeiladu. Mae'r ffaith y bydd llawer o'n grantiau'n cael eu talu allan nifer o flynyddoedd ar ôl ymrwymo iddynt yn golygu y gallwn wneud ymrwymiadau ar sail arian nad ydym wedi'i dderbyn eto. Ar 31 Mawrth 2010, roedd gennym £1,122 miliwn o ymrwymiadau sy'n ddyledus, ond £474 miliwn yn unig i'w ddefnyddio i'w talu: ymrwymiadau dros ben o £648 miliwn, sy'n gyfwerth â 13 mis o incwm yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.





Ond mae ein hincwm yn y dyfodol yn ansicr – nid oes unrhyw un yn gwybod faint o incwm a fydd gan y Loteri. Felly mae'n rhaid i ni fod yn ochelgar. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynhyrchu rhagamcaniadau o incwm y dyfodol sy'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd gwerthiannau tocynnau'r Loteri aros yn fras ar eu lefel bresennol yn y dyfodol – yr 'achos canolog' yw'r enw rydym yn ei roi i hyn, ac rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio gwariant tebygol y dyfodol dros yr hir dymor.

Uchod esboniwyd sut bydd £638 miliwn o'n incwm arfaethedig yn ystod y cyfnod 2009-2012 yn cael ei drosglwyddo i'r OLDF. Ar ben hynny, bydd yr OLDF yn derbyn £750 miliwn yn uniongyrchol gan gemau arbennig y Loteri ar gyfer y Gemau Olympaidd. Mae'n ansicr faint o hyn a gaiff ei godi gan werthiannau tocynnau ychwanegol a faint a gaiff ei ddargyfeirio o werthiannau tocynnau a fyddai wedi cael ei dderbyn gan brif ddosbarthwyr y Loteri.

Mae ein cynllunio ariannol yn ystyried yr arian sy'n cael ei drosglwyddo i'r Gemau Olympaidd ac effaith gemau'r Loteri ar gyfer y Gemau Olympaidd. Mae ein cynlluniau hefyd yn ystyried yr effaith gadarnhaol ar yr incwm y rhagwelir iddo gael ei dderbyn gan achosion da o dan delerau'r drydedd drwydded gweithredu'r Loteri a roddwyd i Camelot ac a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2009.

Mae'r siart ar dudalen 38 yn dangos sut y disgwylir i bethau weithio allan ar sail yr achos canolog. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ein rhagamcaniadau o'n gwariant cynlluniedig cyfredol ar raglenni ar gyfer 2009 -2013 ac yn tybio y bydd ein cyfran incwm gan y Loteri Genedlaethol yn aros yn 50 y cant.

# Adran pedwar





Ni allwn wneud ymrwymiadau grant ar y sail hon – os gwnaethom hynny ac os cafwyd gostyngiad yn incwm y Loteri, mae'n bosib na fyddai modd i ni fodloni ein holl ymrwymiadau. Felly rydym yn cynhyrchu rhagamcaniad mwy pwyllog o'r enw 'achos 5 y cant' gan ein bod yn amcangyfrif bod cyfle 5 y cant y byddai'n digwydd mewn gwirionedd. Dengys hanes y Loteri nad ydym yn bod yn rhy ochelgar. Er bod gwerthiannau tocynnau Loteri wedi cynyddu dros flynyddoedd diweddar, cafwyd gostyngiad o 17 y cant mewn gwerthiannau tocynnau gwirioneddol rhwng 1998 a 2003. Mae'n amlwg bod gostyngiad o tua 5 y cant yn ein rhagamcaniad yn sefyllfa bosib.

Ein targed yw gwneud ymrwymiadau grant o'r gwerth uchaf posib. Mae'n anochel y bydd hyn yn golygu bod y balans NLDF mor isel ag sy'n ochelgar. Bydd y lefel yn amrywio'n unol â strwythur ein rhaglenni ar unrhyw adeg.

Rydym yn bwriadu gwneud ymrwymiadau fel na fyddai gennym unrhyw falans o ran yr achos 5 y cant ar y pwynt isaf yn y dyfodol. Mae blaengynllunio nifer o flynyddoedd ymlaen llaw yn caniatáu i ni wneud unrhyw newidiadau i'n rhaglenni gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosib os dengys ein rhagamcaniadau efallai na fyddwn yn bodloni ymrwymiadau yn y dyfodol.

Dangosir effaith cynlluniau cyfredol ar ein balansau NLDF gan ddefnyddio'r achos 5 y cant yn y tabl isod.



## Newid mewn cyfran incwm Loteri

Ym mis Mai 2010 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ei fwriad i ymgynghori ar gynigion i newid ein cyfran incwm. Yn amodol ar ymgynghori a chymeradwyaeth gan senedd y DU bydd y cynnig yn gostwng ein cyfran incwm gan y Loteri Genedlaethol i 46 y cant o 1 Ebrill 2011 a 40 y cant o 1 Ebrill 2012. Bydd y gostyngiad potensial hwn mewn incwm yn golygu y bydd rhaid i ni adolygu'r cynlluniau presennol ac ar gyfer y dyfodol rydym wedi'u dangos uchod. Fodd bynnag, er ein bod wedi'n gorymrwymo'n sylweddol, byddai modd i ni fodloni ein holl ymrwymiadau presennol os bydd gwerthiannau tocynnau loteri'n parhau ar lefel y rhagamcaniadau, ond byddai angen i ni adolygu'r gyllideb ar gyfer dyfarniadau newydd yn 2010/11.


Yn ystod 2008/09 nodwyd yr ariannu disgwyliedig sydd ar gael i'w ddosbarthu dros gyfnod y fframwaith strategol, gan ystyried lefel gwerthiannau tocynnau Loteri ar yr adeg honno a'r dybiaeth y bydd ein canran ariannu gan y Loteri Genedlaethol yn parhau'r un peth. Seiliwyd y cyllidebau dangosol a gyhoeddwyd yr adeg honno ar ein barn ynglŷn â chydbwyso'r gofyniad am fwyafu dyfarniadau grant gyda'r dymuniad i ddarparu cyllidebau grant blynyddol gweddol sefydlog yn ystod rhan gynnar y cynllun hwn. Os bydd incwm yn newid yn ôl disgwyliadau, bydd angen i ni adolygu fforddadwyedd y cyllidebau dangosol hyn.

## Balansau NLDF

Ar 31 Mawrth 2010 mae ein balans NLDF yn **£474 miliwn**.

Mae gennym falans NLDF oherwydd bod incwm, fel arfer, yn uwch mewn gwirionedd na'n tybiaethau pwyllog ac felly mae gennym beth arian ychwanegol. Rydym yn monitro hyn yn gyson ac yn cyflawni adolygiad bob chwe mis. Yna, mae ein Bwrdd yn addasu ein cynlluniau cyllideb grant i sicrhau ein bod yn gwneud yr holl ymrwymiadau y gallwn eu gwneud yn ddiogel. O ganlyniad i'r adolygiad rheolaidd hwn, roeddem yn gallu nodi arian ychwanegol i roi hwb i weithgareddau sy'n ymwneud â'r dirwasgiad, yn unol â chyhoeddiad fis Mehefin 2009. O ganlyniad gwnaed £62 miliwn yn fwy o ddyfarniadau na'r hyn a amlinellwyd yng nghynllun corfforaethol 2009/10.

Nid ydym yn pennu targed ar gyfer ein balansau NLDF. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri, mae'n amhosib i ni reoli'r balans yn y tymor byr. Rydym yn cyhoeddi cynlluniau sy'n seiliedig ar yr achos canolog ac yn esbonio'r amrywiaethau bob blwyddyn. Trwy'r ymagwedd hon at eu rheoli mae ein balansau NLDF wedi gostwng yn gyflym dros amser.




Rhagwelwn ar hyn o bryd y bydd ein balans NLDF ar 31 Mawrth 2011 rhwng £390 a £410 miliwn.

Cyfrifir y rhagamcaniad hwn gan ddefnyddio'r rhagamcaniadau incwm a ddarperir gan DCMS ac mae'n ystyried effaith Loteri'r Gemau Olympaidd a throsglwyddo arian i OLDF. Maent hefyd yn adlewyrchu gwariant arfaethedig ar raglenni presennol a'r rhai a gyhoeddwyd ynghyd â'n hamcangyfrifon cynnar o wariant ar raglenni newydd sy'n lansio yn 2010/11.

Nid ydym wedi darparu rhagamcaniadau y tu hwnt i 31 Mawrth 2011 gan fod hyn yn dibynnu ar y cynigion ar gyfer newid ein cyfran incwm.

# Adran pedwar

Ar 31 Mawrth 2010 £474 miliwn oedd ein balans NLDF. Yn adroddiad blynyddol y llynedd, rhagamcanwyd mai £480 miliwn fyddai'r balans. Rydym yn elwa o dderbyn £42 miliwn yn fwy o incwm o'r NLDF na'r hyn a ddisgwyliwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Serch hynny rydym wedi talu £46 miliwn yn fwy na'r hyn a ddisgwyliwyd mewn taliadau grant a thaliadau i bartneriaid dyfarnu, gan adlewyrchu'r dyfarniadau grant cynyddol a ffocws hefyd ar weithgareddau rheoli grantiau er mwyn hwyluso taliadau grant.

## Ein costau gweithredu – Sut mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwario'n fwy effeithlon

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o'n hincwm Loteri rydym yn ei gwario ar ei ddosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu nad yw'n dod o'r loteri. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol buddsoddiad i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol. Ar y sail hon, cost dosbarthu arian y Loteri oedd **£58 miliwn** (2008/9 £57 miliwn) Mae hyn yn cynrychioli **7.4 y cant** o incwm Loteri (2008/9 8.6%). Mae'n anochel y bydd y ffigur hwn yn amrywio dros gylch y rhaglen. Ein targed cyfredol yw cadw'r ffigur hwn i lawr i 8.5 y cant ar y mwyaf ar gyfartaledd treigl dros dair blynedd.

Rydym yn ceisio gwario cyn lleied o incwm ag y gallwn ar ein costau ein hunain, gan gydweddu â chyflawni ein hamcanion. Er nad ydym eisiau biwrocratiaeth ddiangen, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ariannu'n hygyrch ac yn deg, yn rheoli'r risg o geisiadau twyllodrus, yn darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid a, phwysicaf oll, yn sicrhau bod y canlyniadau rydym am eu gweld yn cael eu cyflwyno.


Nid 'gweinyddu' sy'n gyfrifol am rannau sylweddol o'n costau gweithredu. Mae ymgynghori ag arbenigwyr a all ein helpu i ddylunio rhaglenni rhagorol a hygyrch, cefnogi ymgeiswyr a deiliaid grantiau yn eu gwaith drwy allgymorth, lledaenu deunyddiau ymgeisio ac arweiniad a ddylunnir yn dda ac y gellir eu defnyddio'n hwylus a chynnal ymchwil a gwerthuso'n rhan hollbwysig o gyflawni ein canlyniadau. Felly nid ydym yn ceisio lleiafu'r costau hyn; yn hytrach rydym am sicrhau eu bod yn cynnig gwerth am arian.

Mae rhaglenni agored sy'n dyfarnu symiau mawr o grantiau bach yn ddrutach i'w rhedeg na rhaglenni sy'n dyfarnu symiau bach o grantiau mawr i grŵp cyfyngedig o ymgeiswyr. Mae'r mathau o raglenni rydym yn eu rhedeg wedi'u symbylu gan yr hyn sy'n cyflwyno'r canlyniadau gorau, nid cost y cyflwyno.

## Sut mae ein costau wedi gostwng dros amser

Dengys y siart isod sut mae costau dosbarthu'r Gronfa Loteri Fawr wedi gostwng ers 2004/05, y flwyddyn y cafodd y Gronfa Loteri Fawr ei ffurfio wrth i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol gyfuno, o'i gymharu â'r hyn a fyddai wedi digwydd petaent wedi codi'n unol â chwyddiant yn unig.

DPA – Costau Gweinyddu Gwirioneddol yn erbyn Gwaelodlin Chwyddiant 2004/05



| £ miliwn | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm gan y Loteri (cyn y trosglwyddiad OLD) | 739 | 642 | 660 | 662 | 783 |
| Costau wedi'u hadennill gan gyrff eraill | 8 | 3 | 5 | 7 | 7 |
| Cyfanswm Incwm | 747 | 645 | 665 | 669 | 790 |
| Costau dosbarthu grantiau Loteri | 56 | 66 | 60 | 57 | 58 |
| Buddsoddi ar gyfer arbedion yn y dyfodol | 14 | 8 | (1) | 3 | 5 |
| Costau wedi'u hadennill gan gyrff eraill | 8 | 3 | 5 | 7 | 7 |
| Cyfanswm costau gweithredu | 78 | 77 | 64 | 67 | 70 |
| Costau dosbarthu grantiau'r Loteri fel % o incwm y Loteri | 7.6% | 10.3% | 9.1% | 8.6% | 7.4% |
| Cyfartaledd treigl tair blynedd | N/A | 8.6% | 8.9% | 9.3% | 8.3% |

Yn 2006/7 cafwyd costau ychwanegol ar gyfer dyblygu staff wrth i ni adleoli ein gweithrediadau i leoliadau cost is yn Birmingham a Newcastle. Ers hynny mae ein costau wedi gostwng yn sylweddol, ac rydym wedi cymathu chwyddiant.

Rydym yn parhau i dargedu arbedion pellach drwy ailbeiriannu ein prosesau busnes er mwyn eu symud ar-lein a'u gwneud yn symlach ac yn fwy hwylus i'r cwsmer. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn system ariannu newydd i ddisodli ein system hen ffasiwn gyfredol. Mae hyn yn gweddu i ddatblygu ein rhaglenni grant yn weithredol er mwyn lleihau costau a gwella gwasanaeth cwsmeriaid, er enghraifft drwy'r defnydd cynyddol o benderfyniadau ar gynigion amlinellol, sy'n lleihau amser a chostau cwsmeriaid a ni ein hunain. Rydym hefyd yn parhau i ostwng ein costau eiddo drwy leihau gofod i lefelau targed y llywodraeth, a dilyn strategaeth caffael gweithredol i leihau cost gwasanaethau a brynir yn allanol megis teithio.

## Sefyllfa ariannol

Mae gennym warged o **£105 miliwn** ar gyfer y flwyddyn (£41 miliwn yn 2008/09).

Mae'r gwarged hwn yn lleihau ein diffyg cronnus o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac erbyn hyn mae gennym ddiffyg o **£630 miliwn** o ran arian wrth gefn argadwedig. Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol hon gan ein Bwrdd a'i chadarnhau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl ystyried gofyniad llif arian dyfarniadau grantiau, y bydd nifer ohonynt yn ariannu prosiectau rhwng tair a phum mlynedd.

# Adran pedwar
## Eitemau datgelu statudol

### Asedau sefydlog
Amlinellir y symudiadau mewn asedau diriaethol ac anniriaethol sefydlog yn ystod y flwyddyn yn Nodiadau 11 a 12 y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd £2 miliwn mewn gwariant cyfalaf sy'n gysylltiedig i raddau helaeth â buddsoddi yn ein system ariannu newydd.

### Colli data
Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r bwys pennaf ac, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Ni chafwyd unrhyw golledion data personol y gellir adrodd amdanynt yn ystod 2009/10.

### Digwyddiadau ar ôl y fantolen
Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn effeithio'n ariannol ar y cyfrifon blynyddol rhwng 31 Mawrth 2009 a dyddiad awdurdodi cyhoeddiad y cyfrifon hyn, 14 Gorffennaf 2010.  Yn gynharach yn yr adran hon rydym wedi disgrifio effaith bosib ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol sy'n deillio o ymgynghoriad y Llywodraeth ar newid cyfrannau incwm y Loteri.

### Archwilwyr
O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, mae'n rhaid i gyfrifon y Gronfa Loteri Fawr gael eu harchwilio a'u cadarnhau gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cyflawni ein harchwiliad allanol.





# Adran pump
## Ein fframwaith llywodraethu a sut rydym yn gweithio

### Ein hanes a'n fframwaith statudol
Daeth y Gronfa Loteri Fawr i fodolaeth fel corff gweinyddol ar 1 Mehefin 2004 ac fe'i sefydlwyd yn ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2006 wrth i'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gyfuno'n gyfreithiol, ac wrth i weithgareddau ac asedau gweddilliol gael eu trosglwyddo o Gomisiwn y Mileniwm. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol y mae ei chylch gwaith yn cwmpasu'r DU gyfan. Mae ein gwaith ni wedi'i lywodraethu gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006.

### Y rheoliadau sy'n ein llywodraethu
Ein Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifon y Gronfa Loteri Fawr, sy'n atebol i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'i Phrif Swyddog Cyfrifon. Gall hefyd fod yn ofynnol i ni roi tystiolaeth i bwyllgorau Senedd y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Darperir ein fframwaith llywodraethu gan DCMS mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig, ac mae'n cynnwys: Cyfarwyddiadau Polisi, sy'n nodi materion y dylem eu hystyried wrth benderfynu sut i wario arian y Loteri; Cyfarwyddiadau Ariannol a'r Datganiad o Ofynion Ariannol, sy'n amlinellu sut y dylem reoli arian Loteri; a Chyfarwyddiadau Cyfrifon, sy'n amlinellu sut rydym yn atebol am ddefnyddio arian Loteri. Mae'r Datganiad Rheoli gyda DCMS yn darparu fframwaith ein perthynas waith gyda'r adran. Rydym hefyd yn ystyried arweiniad a ddarperir gan y Trysorlys a DCMS. Rhoddir yr holl gyfarwyddiadau hyn ar waith gan ein polisïau a'n gweithdrefnau mewnol.

Mae gennym bwerau ariannu helaeth sy'n ein galluogi i ddyfarnu grantiau (neu fenthyciadau) i lawer o fathau gwahanol o sefydliadau yn y sectorau elusennol, gwirfoddol a chymunedol, cyhoeddus a phreifat. Gallwn ddosbarthu arian nad yw'n gysylltiedig â'r Loteri hefyd.

### Ein trefniadau llywodraethu mewnol – ein Bwrdd a'n Pwyllgorau Gwlad
Mae Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am ein cyfeiriad strategol a'n perfformiad, gan gynnwys ein hatebolrwydd i Lywodraeth a'r cyhoedd. I gyflawni ei rwymedigaethau, mae gan y Bwrdd dri phwyllgor corfforaethol:

- y Pwyllgor Adnoddau
- y Pwyllgor Archwilio a Risgiau
- y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob deufis ac mae aelodau'r uwch dîm rheoli'n mynychu cyfarfodydd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau'n cwrdd pedair gwaith y flwyddyn. Mae'n cymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, yn cadarnhau'r gofrestr risgiau ac yn craffu canlyniadau adroddiadau mewnol ac allanol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn caniatáu dau aelod allanol. Mae Hilary Gay ac Angela Marshall wedi gwasanaethu yn rhinwedd y swydd hon drwy'r flwyddyn. Mae'r aelodau allanol hyn yn dod ag arbenigedd a phersbectif ychwanegol i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Adnoddau'n cwrdd pedair gwaith y flwyddyn. Mae'n craffu'r gyllideb flynyddol ac yn goruchwylio gwariant.

Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, sy'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad a chyflogau'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli, yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu pwyllgorau i wneud penderfyniadau ar raglenni grantiau i'r DU gyfan.

### Y Bwrdd
Mae'r Bwrdd yn cynnwys 12 aelod: y Cadeirydd, pedwar cadeirydd Pwyllgor Gwlad a saith aelod Bwrdd cyffredinol gan gynnwys yr is-gadeirydd. Mae rhestr lawn aelodau'r Bwrdd a'u cyfrifoldebau ar y dudalen 45. Mae manylion pellach wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad tal cydnabyddiaeth.

Mae aelodau'r Bwrdd a'u cyfrifoldebau dros gadeirio pwyllgorau corfforaethol y Bwrdd fel a ganlyn:



**Syr Clive Booth**
Cadeirydd
Cadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth



**John Gartside** OBE
Aelod cyffredinol



**Anna Southall**
Aelod cyffredinol ac Is-gadeirydd
Aelod o'r Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth



**Alison Magee**
Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban



**Sanjay Dighe**
Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr



**Rajay Naik**
Aelod cyffredinol



**Judith Donovan** CBE
Aelod cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Adnoddau
Aelod o'r Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth



**Huw Vaughan Thomas**
Cadeirydd, Pwyllgor Cymru



**Roland Doven** MBE
Aelod cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risgiau



**Albert Tucker**
Aelod cyffredinol



**Frank Hewitt** CBE
(o fis Rhagfyr 2009)
Cadeirydd, Pwyllgor
Gogledd Iwerddon



**Diana Whitworth**
Aelod cyffredinol



**Breidge Gadd** CBE
(tan fis Tachwedd 2009)
Cadeirydd, Pwyllgor
Gogledd Iwerddon

# Adran pump

## Pwyllgorau Gwlad

Ers 1 Rhagfyr 2006, mae materion sy'n ymwneud ag arian grant wedi cael eu datganoli i bedwar pwyllgor gwlad, un yr un ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r pwyllgorau hyn yn gyfrifol am roi cyngor ynghylch polisïau strategol y Gronfa Loteri Fawr a gwneud penderfyniadau ynghylch arian grant o fewn eu gwledydd eu hunain. Mae aelodau pwyllgorau gwlad yn cael eu recriwtio a'u penodi'n agored gan y Bwrdd, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Lloegr neu weinidogion gweinyddiaethau datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

O bryd i'w gilydd, mae aelodau ychwanegol yn cael eu recriwtio i bwyllgorau rhaglenni penodol. Mae manylion aelodaeth o bwyllgorau rhaglenni ar gael ar ein gwefan.

Mae gan **Bwyllgor Gwlad Lloegr** naw aelod ac un lle gwag

Sanjay Dighe, Cadeirydd
Dr Mohammed Amran FRSA (tan fis Ionawr 2010)
Dr Alan Billings
Sue Charteris
John Gartside OBE
Margaret Hyde OBE
Danny Silverstone (o fis Rhagfyr 2009)
Albert Tucker
Nalini Varma
Geoffrey Wilkinson

Mae 10 aelod ar **Bwyllgor Yr Alban**.

Alison Magee, Cadeirydd
Tim Allan
Elizabeth Cameron
Helen Forsyth
David Green
Alistair Grimes
Kristofer McGhee
Maureen McGinn
Lucy McTernan
Shirley Young



Mae saith aelod ar **Bwyllgor Cymru**.

Huw Vaughan Thomas, Cadeirydd
Graham Benfield OBE
Fran Targett OBE
Gareth Newton
Janet Reed OBE
Mike Theodoulou
Barbara Wilding CBE, QPM, CCMI

Mae chwe aelod ar **Bwyllgor Gogledd Iwerddon**.


Breidge Gadd CBE, Cadeirydd (tan fis Tachwedd 2009)
Frank Hewitt, Cadeirydd (o fis Rhagfyr 2009)
Geraldine Campbell
Paul Cavanagh
Julie Harrison
Claire Keatinge
Peter Osborne

## Yr uwch dîm rheoli

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd; mae hefyd wedi cael ei benodi'n swyddog cyfrifon y Gronfa Loteri Fawr gan swyddog cyfrifon yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r uwch dîm rheoli, sy'n cefnogi'r Bwrdd o safbwynt rheolaeth strategol.

Mae'r uwch dîm rheoli'n ystyried polisïau a materion strategol a gweithredol allweddol sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd a'i brif bwyllgorau. Mae'r uwch dîm rheoli hefyd yn cadw trosolwg o weithrediadau beunyddiol y sefydliad.

Mae'r uwch dîm rheoli'n cynnwys y Prif Weithredwr a saith cyfarwyddwr. Dyma gyfrifoldebau pob cyfarwyddwr yn ystod 2009/10:



# Adran pump

## Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau ein Bwrdd a'n pwyllgorau, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae buddiannau sy'n cael eu datgan gan Aelodau Byrddau'n wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer holl aelodau pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau ar gael ar gais ysgrifenedig i Bennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

Os bydd y Bwrdd neu bwyllgor yn gwneud unrhyw benderfyniad y gellir tybio'n rhesymol ei fod yn arwain at wrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran dyfarnu grantiau i sefydliadau ond hefyd o ran unrhyw berthnasoedd masnachol, bydd cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau bod unrhyw ddatgeliad yn cael ei wneud ar ddechrau'r cyfarfod a bod yr aelod yn gadael pan gaiff yr eitem berthnasol ei thrafod. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion dyfarniadau a wnaed i sefydliadau lle mae aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau gwlad wedi datgan buddiant cyfredol neu yn y gorffennol.



| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Trafodion cyfredol | Dyfarnwyd yn 2009/10 | Talwyd yn 2009/10 | Balans sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|---|---|---|
| Geraldine Campbell | Ymddiriedolwr, Cyngor ar Bopeth Belfast | £- | 1 dyfarniad o £10,000 | £10,000 | £- |
| Siobhan Craig | Aelod o'r Pwyllgor Rheoli, Include Youth | £- | 1 dyfarniad o £905,013 | £85,232 | £819,781 |
| Judith Donovan | Aelod Pwyllgor Ariannol Eglwys Gadeiriol Ripon | £- | 1 dyfarniad o £10,000 | £10,000 | £- |
| Breidge Gadd | Aelod Bwrdd, Bytes Belfast | 1 dyfarniad o £460,183 | £- | £93,733 | £366,450 |
| John Gartside | Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd Cwmni, the Tim Parry Jonathan Ball Trust (Peace Centre) | 1 dyfarniad o £499,186 | 1 dyfarniad o £393,222 | £23,984 | £423,647 |
| | Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr, Sefydliad Dysgu a Chwaraeon Cymunedol Warrington Wolves | | 3 dyfarniad, cyfanswm o £181,501 | £29,623 | £151,336 |
| Julie Harrison | Ymgynghorydd, Bridge Community Association | £- | 1 dyfarniad o £956,322 | £71,884 | £884,438 |
| Claire Keatinge | Ymddiriedolwr a Chadeirydd, Rhwydwaith Datblygu Cymunedol ac Iechyd | £- | 1 dyfarniad o £499,957 | £71,645 | £428,312 |
| Alison Magee | Cyn-gynullydd, Highland Council | 1 dyfarniad o £7,544 | £- | £7,544 | £- |
| | Cyn-gyfarwyddwr Partneriaeth Sutherland | 1 dyfarniad o £375,900 | £- | £95,294 | £157,918 |
| Lucy McTernan | Cyfarwyddwr, Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol Yr Alban | 1 dyfarniad o £8,508,040 | £- | £7,425,613 | £6,915,056 |
| Fran Targett | Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru | £- | 16 dyfarniad, cyfanswm o £1,210,219 | £304,723 | £905,496 |
| Albert Tucker | Cyfarwyddwr Anweithredol, Grŵp Places for People | 1 dyfarniad o £15,669,999 | £- | £882,067 | £14,340,669 |
| Huw Vaughan Thomas | Gwraig, Ymddiriedolwr Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion | 11 dyfarniad, cyfanswm o £928,780 | 2 ddyfarniad o £1,343,913 | £556,148 | £1,716,545 |
| Diana Whitworth | Prif Weithredwr ar y Cyd,Grandparents Plus (tan fis Hydref 2007) | 1 dyfarniad o £167,918 | £- | £40,186 | £72,744 |
| Geoffrey Wilkinson | Cyfarwyddwr Anweithredol, Eden Project | 1 dyfarniad o £249,015 | 2 ddyfarniad o £1,380,248 | £853,166 | £641,730 |

# Adran pump
## Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu polisi'r Gronfa Loteri Fawr ar dâl cydnabyddiaeth ei Chyfarwyddwyr ac aelodau Bwrdd. Testun yr archwiliad yw'r adran o'r adroddiad tâl cydnabyddiaeth sy'n ymdrin â thâl cydnabyddiaeth a dderbyniwyd yn unig.

### Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, pwyllgor o'r Bwrdd, yn pennu polisi tâl cydnabyddiaeth uwch dîm rheoli'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd, Syr Clive Booth, yr Is-gadeirydd, Anna Southall, Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau, Judith Donovan ac un aelod arall o'r Bwrdd, John Gartside. Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, gall y Prif Weithredwr, y Dirprwy Gyfarwyddwr, Adnoddau Dynol neu swyddogion eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Dyma gyfrifoldebau'r pwyllgor:

- cytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr;
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr;
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig Cyfarwyddwyr; a
- phenderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr, yn amodol ar unrhyw ganiatâd angenrheidiol gan DCMS/y Trysorlys.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

### Polisïau tâl cydnabyddiaeth staff uwch

Nod polisi tâl cydnabyddiaeth yr uwch dîm rheoli yw cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa Loteri Fawr i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r Gronfa Loteri Fawr. Wrth wneud hynny, mae'r polisi'n ceisio:

- rhoi tâl teg sy'n cydnabod cyfrifoldebau a chyfraniadau unigol, gan ddarparu elfen o dal ar sail perfformiad; a
- chydymffurfio â'r arweiniad blynyddol ar dâl a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

### Tâl cydnabyddiaeth yr uwch dîm rheoli

Mae sail tâl cydnabyddiaeth staff uwch wedi'i nodi yn eu contractau cyflogaeth unigol. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn destun amodau a thelerau cyflogaeth safonol y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd Peter Wanless yn Brif Weithredwr ym mis Ionawr 2008. Mae ei gontract cyflogaeth yn caniatáu taliad cynnydd sy'n dibynnu ar berfformiad yn ystod dwy flynedd gyntaf y penodiad. Mae'r taliad hwn wedi'i gyfuno at ddibenion pensiwn. Gellir dyfarnu bonws perfformiad ychwanegol heb ei gyfuno sydd, ynghyd â'r taliad cynnydd, o fewn 20 y cant o'r cyflog blynyddol hefyd. Y tu hwnt i'r ddwy flynedd gyntaf, mae contract y Prif Weithredwr yn caniatáu bonws perfformiad hyd at 20 y cant o'r cyflog blynyddol. Mae hyd at ddau y cant o'r bonws hwn wedi'i gyfuno at ddibenion pensiynau, a thelir balans unrhyw ddyfarniad fel bonws heb ei gyfuno, gan gydymffurfio ag arweiniad a dderbyniwyd gan Drysorlys EM ynglŷn â phenodi Prif Weithredwyr.

Mae cyfarwyddwyr yn derbyn dyfarniad tâl blynyddol cyfunol ar yr un lefel â'r hyn a gyd-drafodwyd ar gyfer staff y Gronfa Loteri Fawr a bonws perfformiad nad yw'n gyfunol hyd at wyth y cant o'u cyflog blynyddol.

Roedd cyfanswm hawliau cyflogau a phensiynau uwch reolwyr y Gronfa Loteri Fawr fel yr amlinellir yn y tabl isod. Ni thalwyd unrhyw fuddiannau nad ydynt yn arian yn ystod y flwyddyn.

| *Ffigurau cymharu 2008/09 mewn cromfachau* | **Cyflog, gan gynnwys bonws perfformiad ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed £'000** | **Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010 £'000** | **Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian – CETV £'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV sy'n daladwy gan y cyflogwr £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Peter Wanless (Prif Weithredwr) from 1 February 2008 | 140 -145 (135 - 140) | 2.5 - 5.0 plws 7.5 - 10 cyfandaliad | 35 - 40 plws 115 - 120 cyfandaliad | 607 (526) | 55 |
| Mark Cooke (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) | 100 - 105 (100 - 105) | 0 - 2.5 | 5 - 10 | 153 (118) | 25 |
| Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Cymru) | 85 -90 (85 - 90) | 0 - 2.5 | 15 - 20 | 224 (194) | 18 |
| Dharmendra Kanani (Cyfarwyddwr, Yr Alban) | 85 - 90 (85 - 90) | 0 - 2.5 plws 2.5 - 5.0 cyfandaliad | 10 - 15 plws 30 - 35 lcyfandaliad | 164 (138) | 17 |
| Adriènne Kelbie (Cyfarwyddwr Gweithrediadau) | 105 - 110 (105 - 110) | 0 - 2.5 plws 2.5 - 5.0 cyfandaliad | 15 - 20 plws55 - 60 cyfandaliad | 239 (209) | 19 |
| Gerald Oppenheim (Cyfarwyddwr Polisi a Phartneriaethau) | 105 - 110 (100 - 105) | 0 - 2.5 plws 5.0 - 7.5 cyfandaliad | 40 - 45 plws 130 - 135 cyfandaliad | 1,008 (924) | 47 |
| Linda Quinn (Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata) | 80 - 85 (80 - 85) | 0 - 2.5 plws 2.5 - 5.0 cyfandaliad | 20 - 25 plws 65 - 70 lcyfandaliad | 519 (468) | 32 |
| Walter Rader (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 85 - 90 (85 - 90) | 0 - 2.5 plws 2.5 - 5.0 cyfandaliad | 10 - 15 plws 40 - 45 cyfandaliad | 336 (293) | 31 |

Darperir buddiannau pensiwn drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Rhoddir datgeliadau pensiwn pellach yn nodyn 23.

# Adran pump

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Mae colofn 4 y tabl uchod yn dangos y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian (CETV) a gronnwyd ar ddechrau a diwedd y cyfnod adrodd. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod. Mae colofn 5 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariannwyd yn effeithiol gan y Gronfa Loteri Fawr gan ei bod yn hepgor cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a delir gan y gweithiwr.

Ad-delir yr uwch dîm rheoli ar gyfer treuliau achlysurol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Gronfa Loteri Fawr. Mae manylion y treuliau hyn ar gael ar y wefan, www.cronfaloterifawr.org.uk.

## Cyflogyddion â thâl uwch

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu nifer y staff, ar sail cyfwerth ag amser llawn, a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth, gan gynnwys bonwsau perfformiad lle bo'n berthnasol, o £50,000 neu fwy dros y flwyddyn ariannol. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys yr uwch dîm rheoli:

| Cyfanswm tâl cydnabyddiaeth | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 Nifer y staff (CaALl) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 Nifer y staff (CaALl) |
|---|---|---|
| £50,000 - £54,999 | 8.7 | 10.6 |
| £55,000 - £59,999 | 8 | 8.2 |
| £60,000 - £64,999 | 7 | 3 |
| £65,000 - £69,999 | 6 | 3 |
| £70,000 - £74,999 | 2 | 3 |
| £75,000 - £79,999 | 1 | 1 |
| £80,000- £84,999 | 1 | 1 |

## Polisi tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd

Mae swydd Cadeirydd y Gronfa Loteri Fawr yn benodiad rhan-amser, deuddydd yr wythnos. Mae pedwar cadeirydd y pwyllgorau gwlad hefyd yn rhan-amser, hyd at wyth niwrnod y mis. Penodir a phenderfynir ar dâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd a chadeiryddion y pwyllgorau gwlad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r tâl cydnabyddiaeth a dderbynnir gan y Cadeirydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau Gwlad wedi'i nodi isod. Nid ydynt yn derbyn unrhyw gyfraniad at bensiwn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £ | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £ |
|---|---|---|
| Syr Clive Booth, Cadeirydd Bwrdd y DU | 39,728 | 39,141 |
| Sanjay Dighe, Cadeirydd Pwyllgor Lloegr ac Aelod Bwrdd y DU | 25,256 | 24,883 |
| Breidge Gadd, Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon ac Aelod Bwrdd y DU (tan fis Tachwedd 2009) | 16,837 | 24,883 |
| Frank Hewitt Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon ac Aelod Bwrdd y DU (O fis Rhagfyr 2009) | 8,271 | - |
| Alison Magee, Cadeirydd Pwyllgor Yr Alban ac Aelod Bwrdd y DU | 25,256 | 24,883 |
| Huw Vaughan Thomas Cadeirydd Pwyllgor Cymru ac Aelod Bwrdd y DU | 25,256 | 24,883 |

Penodir holl aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr gan yr Ysgrifennydd Gwladol am gyfnod penodol. Mae gan aelodau'r Bwrdd hawl i dderbyn tâl cydnabyddiaeth ar gyfer yr amser maent yn ei dreulio ar weithgareddau'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r gweithgareddau hyn, y gall aelodau'r Bwrdd hawlio ffi dyddiol o £218 (2008/09 £215), yn ymwneud yn bennaf â chyfarfodydd yn swyddfeydd y Gronfa. Y gyfradd ddyddiol yw'r hyn a bennir gan DCMS bob blwyddyn. Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Bwrdd gyfraniadau tuag at eu pensiwn.

Mae aelodau Pwyllgorau Gwlad hefyd yn gallu hawlio tâl cydnabyddiaeth ar y gyfradd ddyddiol hon.

Y cyfanswm enillion a dalwyd i aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau hyd at 31 Mawrth 2010 oedd £263,800 (2008/09 £253,500), fel y nodir isod

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **Bwrdd y DU** | | |
| Judith Donovan | 12.9 | 10.4 |
| Roland Doven | 9.7 | 11.3 |
| John Gartside (Hefyd yn aelod o Bwyllgor Lloegr) | 18.3 | 17.6 |
| Rajay Naik (o fis Chwefror 2009) | 4.0 | - |
| Anna Southall (Vice Chair) | 21.2 | 15.4 |
| Albert Tucker (Hefyd yn aelod o Bwyllgor Lloegr) | 16.9 | 16.4 |
| Diana Whitworth | 10.0 | 10.1 |
| **Pwyllgor Lloegr** | | |
| Dr Mohammed Amran (tan fis Ionawr 2010) | 8.5 | 11.9 |
| Y Parch. Ddr Alan Billings | 11.0 | 14.5 |
| Sue Charteris | 8.2 | 6.2 |
| Margaret Hyde | 9.9 | 10.4 |
| Danny Silverstone (o fis Rhagfyr 2009) | 1.2 | - |
| Lydia Thomas (tan fis Mawrth 2009) | - | 4.9 |
| Nalini Varma | 14.0 | 12.3 |
| Geoffrey Wilkinson | 13.1 | 9.3 |
| **Pwyllgor Yr Alban** | | |
| Tim Allen | 3.6 | 3.8 |
| Elizabeth Cameron | 3.6 | 4.2 |
| Helen Forsyth | 4.0 | 6.3 |
| David Green | 7.1 | 7.5 |
| Alistair Grimes | 5.9 | 5.6 |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Kristofer McGhee | 6.8 | 6.9 |
| Maureen McGinn | 7.8 | 4.1 |
| Lucy McTernan | 3.5 | 3.1 |
| Shirley Young | 6.1 | 5.2 |
| **Pwyllgor Cymru** | | |
| Graham Benfield | 1.3 | 3.8 |
| Fran Targett (o fis Mehefin 2008) | 1.1 | 2.0 |
| Gareth Newton | 6.2 | 6.5 |
| Janet Reed | 6.2 | 5.9 |
| Mike Theodoulou | 5.4 | 5.3 |
| Barbara Wilding | 0.4 | 2.4 |
| **Pwyllgor Gogledd Iwerddon** | | |
| Geraldine Campbell (o fis Hydref 2008) | 8.3 | 2.0 |
| Paul Cavanagh | 7.0 | 10.1 |
| Siobhan Craig (tan fis Medi 2008) | - | 3.7 |
| Julie Harrison (o fis Gorffennaf 2008) | 9.7 | 3.8 |
| Claire Keatinge | 5.6 | 4.8 |
| Peter Osbourne | 5.3 | 5.8 |

Ad-delir aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau am fân dreuliau wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Gronfa Loteri Fawr. Mae manylion y treuliau hyn ar gael ar y wefan, www.cronfaloterifawr.org.uk.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon

6 Gorffennaf 2010

# Adran chwech
Cyfrifon blynyddol

Mae'r adran hon yn cynnwys y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon; y datganiad o reolaeth fewnol; y dystysgrif archwilio; a'r datganiadau ariannol.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon

Under Section 35(3) of the National Lottery Act etc. O dan Adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'n ofynnol i'r Gronfa Loteri Fawr baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol ar y ffurf a'r sail a bennir gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Paratoir y datganiad o gyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo ddarparu trosolwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ar ddiwedd y cyfnod ac o'i hincwm, ei gwariant a'i llif arian ar gyfer y cyfnod cyfrifo.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd:

- Gadw at y cyfarwyddiadau cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson.
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Nodi p'un a yw safonau cyfrifo perthnasol wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad materol yn y cyfrifon blynyddol.
- Paratoi'r datganiad o gyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifon yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr fel Swyddog Cyfrifon.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifon yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb cyllid cyhoeddus, a chadw cyfrifon cywir, wedi'u nodi ym memorandwm Swyddogion Cyfrifon Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a gyhoeddir gan y Drysorlys yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' ac yn y Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan Adran 26(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993.

Fel Swyddog Cyfrifon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd bob cam perthnasol fel Swyddog Cyfrifon i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ceisio defnyddio pwerau dirprwyo a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gall partïon eraill fod yn atebol am elfennau penodol o raglenni.

## Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan mewn cynlluniau ar y cyd, fel y diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu arian ochr yn ochr â chyrff eraill i gyflawni'r canlyniadau a ddiffinnir gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn, mae Swyddog Cyfrifon y Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am sicrhau bod arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Loteri Fawr yn cael ei ddefnyddio'n unol â phwerau cyfreithiol y Gronfa; defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Loteri Fawr i'r rhaglen; cael ei fodloni bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben; a chytuno ar y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen rhwng y Dosbarthwyr Loteri sy'n cymryd rhan. Yn ogystal â hynny yn achos rhaglen Arian i Bawb Lloegr, gan fod y Gronfa Loteri Fawr yn gweinyddu'r rhaglen, mae Swyddog Cyfrifon y Gronfa hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen.

Yn ystod 2009/10, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan yn y cynlluniau canlynol ar y cyd:

- Arian i Bawb Lloegr: cynllun a weinyddir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Gronfa Loteri Fawr a Sport England. Daeth y cynllun hwn i ben yn ffurfiol ar 31 Mawrth 2009, ac mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi rheoli cau'r rhaglen i lawr drwy gydol 2009/10.
- Spaces for Sports and Arts, rhan o'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion: cynllun a weinyddir gan Sport England ar ran Sport England, Cyngor Celfyddydau Lloegr, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth a'r Gronfa Loteri Fawr.
- Active England, rhan o'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion: cynllun a weinyddir gan Sport England ar ran Sport England a'r Gronfa Loteri Fawr.
- Parks for People: cynllun a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.

## Partneriaid dyfarnu

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant canlynol i bartneriaid dyfarnu. Mae'r cytundeb dirprwyo rhwng y Gronfa Loteri Fawr a'r partneriaid dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldeb Prif Weithredwr y partner dyfarnu i sicrhau bod systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau Loteri ac i brosesu a monitro grantiau Loteri yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri'n cael ei ddosbarthu'n gywir ac yn briodol. Cadwaf gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu arian cyhoeddus a ddarperir i'r Gronfa Loteri Fawr ac am sicrhau bod partneriaid dyfarnu'n gweithredu'n unol â'n telerau cytunedig a'r cyfarwyddiadau ariannol a pholisi a ddarparwyd i mi.

Fel rhan o'r rhaglenni cyfleoedd newydd ar gyfer iechyd:

- Sefydliad Prydeinig y Galon – Heart Failure Support Networks.

Fel rhan o'r rhaglen cyfleoedd newydd ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion:

- sportscotland – Cynllun Gweithredu Ieuenctid SFA .

Fel rhan o'r Gronfa Pobl Ifanc:

- Youthnet – BIG Deal.

Fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Cefn Gwlad:

- Carnegie Institute.

Fel rhan o'r rhaglen Changing Spaces:

- Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt – Bwyd lleol
- Building Research Establishment Ltd – Rhaglen Community Sustainable Energy
- Ymddiriedolaeth Trust – Community Spaces
- Natural England – Access to Nature
- Mind – Ecominds.

Fel rhan o'r rhaglen Reaching Communities yn Lloegr:

- Ymddiriedolaeth Loteri Ynys Manaw
- Make your Mark.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon

6 Gorffennaf 2010

# Adran chwech
## Datganiad o reolaeth fewnol

### Cwmpas y cyfrifoldeb
Fel Swyddog Cyfrifon, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni nodau ac amcanion y Gronfa Loteri Fawr ac ar yr un pryd, diogelu'r arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd drwy 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a chan sicrhau cydymffurfio â gofynion Datganiad Rheoli, Cyfarwyddiadau Polisi, Cyfarwyddiadau Ariannol a Datganiad o Ofynion Ariannol y Gronfa Loteri Fawr.

### Diben y system rheoli mewnol
Mae'r system rheoli mewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar yr holl risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gan hynny dim ond sicrwydd rhesymol y gellir ei ddarparu mewn perthynas ag effeithlonrwydd, nid sicrwydd llwyr. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus y mae ei nod yw nodi a blaenoriaethu'r risgiau y mae cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa Loteri Fawr yn eu hwynebu, er mwyn gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe bai hynny'n digwydd, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae'r system rheoli mewnol wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Mae'n gweddu i arweiniad y Trysorlys.

Mae prif elfennau fframwaith rheoli'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u hamlinellu isod.

### Amgylchedd rheoli
- Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi fy nynodi, fel Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr, yn Swyddog Cyfrifon. I'r perwyl hwn mae gennyf lythyr penodi ar wahân sy'n nodi'n glir fy nghyfrifoldebau a'm hatebolrwydd o ran cynnal system gadarn o reolaeth fewnol o fewn y Gronfa.
- Uwch dîm rheoli gyda chylch gorchwyl clir ac aelodaeth ddiffiniedig sy'n cwrdd o leiaf unwaith y mis i ystyried cynlluniau a gweithrediadau'r Gronfa Loteri Fawr a chydymffurfio â'r Datganiad Rheoli.
- Bwrdd sy'n cwrdd bob deufis i ystyried cyfeiriad strategol y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac aelodau anweithredol, ac mae aelodau o'r uwch dîm rheoli'n dod iddo hefyd.
- Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, y mae ei gylch gorchwyl yn mynnu bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, yn cadarnhau'r gofrestr risgiau ac yn craffu canlyniadau adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Er mwyn darparu sgiliau a safbwyntiau ychwanegol, mae'r Pwyllgor Archwilio'n cynnwys dau aelod allanol. Mae Cadeirydd y pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd am y materion sy'n cael eu trafod gan y pwyllgor.
- Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, y mae ei gylch gorchwyl yn darparu trosolwg a chymeradwyaeth o dâl cydnabyddiaeth a pherfformiad aelodau staff uwch, gan gynnwys fi fy hun.
- Y Pwyllgor Adnoddau, y mae ei gylch gorchwyl yn mynnu bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r gyllideb flynyddol ac yn derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd i herio a goruchwylio gwariant.
- Cynllun corfforaethol cyhoeddedig sy'n nodi ein hamcanion a'n mesurau perfformiad.
- Adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r uwch dîm rheoli sy'n adrodd am gynnydd wrth gyflawni amcanion corfforaethol, perfformiad a thargedau cyflwyno gwasanaethau. Rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau hyn, y rhoddir manylion amdanynt yn adran tri yr Adroddiad Blynyddol. Lle nad yw targedau wedi'u cyflawni, nodir camau gweithredu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Adroddiadau ariannol misol cryno i'r uwch dîm rheoli ac adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Adnoddau, gan adrodd am gynnydd yn erbyn targedau ariannol, gan gynnwys cyllidebau ymrwymo grantiau, targedau balans NLDF a chyllidebau costau gweithredu.

- Polisi twyll, sy'n ymdrin ag amheuon o dwyll mewn cydweithrediad â'r Heddlu ac asiantaethau eraill lle bo'n briodol, ac sy'n adrodd am y rhai uwchben £10,000 i DCMS. Mae nifer o achosion yn destun ymchwiliadau ar hyn o bryd. Trwy gydol yr ymchwiliadau, p'un a fydd twyll yn cael ei brofi neu beidio, rydym yn adolygu gweithdrefnau a phrosesau i ddysgu gwersi a gwella systemau rheoli mewnol ac atal a chanfod twyll lle bo angen.
- Amrywiaeth helaeth o bolisïau sy'n ymdrin â materion rheoli ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli ariannol, rheoli prosiectau, iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygu, technoleg gwybodaeth a rheoli risgiau.
- Amrywiaeth eang o fesurau rheoli i sicrhau bod gweithgareddau asesu a monitro grantiau'n cael eu rheoli'n ddigonol a bod colledion o ran grantiau'r Loteri mor isel â phosib. Mae'r mesurau rheoli hyn yn cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer tasgau asesu grantiau a rheoli grantiau, tasgau goruchwylio diffiniedig i reolwyr, systemau dirprwyo clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a rhaglen hyfforddiant sy'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll.
- Fframwaith rheoli prosiectau gyda chyfrifoldebau diffiniedig, gan gynnwys noddwr prosiect. Defnyddir y fframwaith prosiect hwn ar gyfer datblygu rhaglenni newydd.
- Strwythur rheoli prosiect ffurfiol, gan ddefnyddio methodoleg Prince 2 i oruchwylio cynnydd y prosiect ailbeiriannu prosesau busnes, gan gynnwys dylunio a gweithredu prosesau busnes diwygiedig a'r system ariannu newydd. Yn ogystal â hyn rydym wedi comisiynu Swyddfa Masnach y Llywodraeth i gyflawni adolygiadau Gateway i gyfeirio prif bwyntiau gwneud penderfyniadau o fewn y prosiect.
- Proses gyfathrebu fewnol sy'n sicrhau bod yr holl staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch penderfyniadau allweddol yn amserol drwy gyfryngau priodol, gan gynnwys sesiynau briffio wedi'u rhaeadru gan reolwyr llinell a chyflwyniadau gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.
- Strategaeth gyfathrebu allanol sy'n sicrhau bod budd-ddeiliaid, Seneddwyr, y wasg a'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth briodol a dibynadwy.
- Uned Archwilio Mewnol sy'n gweithredu'n unol â safonau a ddiffinnir yn llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae gwaith archwilio mewnol yn cael ei gyfeirio gan y gofrestr risgiau corfforaethol ac asesiad o ofynion sicrwydd y Gronfa Loteri Fawr a'r risgiau mwyaf sylweddol y mae'n eu hwynebu, gan bwysleisio'r prosesau a'r systemau beunyddiol allweddol o fewn y Gronfa. Mae'r cynllun archwilio blynyddol mewnol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn; Fe'i cymeradwyir gennyf i a'i cadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cwrdd â mi'n rheolaidd ac yn darparu adroddiadau cynnydd cyfnodol, gan gynnwys canfyddiadau adolygiadau dilynol, sy'n mynd ymlaen i ffurfio adroddiad blynyddol ar weithgareddau archwilio mewnol. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys ei farn am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau y mae archwilio mewnol wedi'u hadolygu.
- Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau heb fod unrhyw swyddogion eraill yn bresennol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau'n adolygu'r adroddiadau cynnydd cyfnodol a'r adroddiad sicrwydd blynyddol.

## Rheoli risgiau

### Gallu i reoli risgiau

Ar ddechrau'r flwyddyn, ystyriwyd a diweddarwyd y ddogfennaeth o'r risgiau y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu hwynebu yn ffurfiol gan yr uwch dîm rheoli. Trafodwyd deilliannau'r adolygiad hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, ar ran y Bwrdd, i geisio eu cydsyniad i asesiad rheolwyr o risgiau corfforaethol. Ailgyflawnwyd yr ymarfer hwn bob tri mis drwy gydol y flwyddyn ariannol i sicrhau bod y gofrestr risgiau a'n hymatebion yn parhau'n berthnasol.

Yn ogystal â'r gofrestr risgiau corfforaethol, mae pob cyfarwyddwr yn gyfrifol am gynnal adolygiadau rheolaidd o risgiau o fewn eu cyfarwyddiaeth. Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu hystyried yn gyfnodol gan yr uwch dîm rheoli, gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae angen cymryd camau brys.

# Adran chwech

Mae egwyddorion rheoli risgiau, gan gynnwys ystyried risgiau ac argymhellion ar gyfer eu lleihau'n briodol yn rhan annatod o'n gweithdrefnau asesu grantiau, rheoli grantiau, datblygu rhaglenni newydd a rheoli prosiectau.

Yn ystod 2009/10 rydym wedi parhau i ddatblygu ein gallu rheoli risgiau drwy gyflwyno hyfforddiant wedi'i deilwra i dimau rheoli ym mhob rhan o'r Gronfa Loteri Fawr.

## Fframwaith risgiau a rheoli

Cytunwyd ar gofrestr risgiau corfforaethol 2009/10 gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau ym mis Gorffennaf 2009, gan ddisodli cofrestr y flwyddyn flaenorol. Taflodd y gofrestr oleuni ar 14 risg gorfforaethol. Yn ystod y flwyddyn diddymwyd nifer o risgiau ac ychwanegwyd nifer o risgiau newydd, yn benodol risgiau sy'n ymwneud â chyflwyno'r system ariannu newydd ac effaith newid Llywodraeth ar ein model busnes. Mae effaith bosib pob risg a thebygolrwydd ei gwireddu wedi cael eu hasesu, nodwyd ein hawydd am bob risg a phennwyd camau priodol i leddfu'r risgiau hyn. Mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cofnodi yn y gofrestr risgiau corfforaethol. Fel y nodir uchod, mae hon yn cael ei hadolygu a'i diweddaru bob tri mis.

Ar ben hynny, mae rheoli risgiau wedi'i ymgorffori yn ein prosesau cynllunio busnes fel a ganlyn:

- Mae'r fframwaith datblygu ariannu, sy'n cefnogi datblygiad yr holl rhaglenni grant newydd, yn gofyn am asesiad o risgiau allweddol pob rhaglen newydd sydd, yn eu tro, yn cael eu hadrodd i Fwrdd Rhaglenni'r wlad briodol.
- Dilynir proses debyg gyda phrosiectau datblygu busnesau.
- Mae gweithdrefnau asesu grantiau a rheoli grantiau'n amlinellu'r gofyniad i ddyrannu gradd risg, sy'n cyfeirio'r lefel ymyrraeth wrth i grantiau gael eu rheoli, i bob grant.

Yn ystod y cyfnod hyd yn hyn, mae'r blaenoriaethau risg gorfforaethol wedi cynnwys y canlynol:

- Risg wleidyddol, yn benodol methu ag ymateb i sefyllfa wleidyddol newidiol gan gynnwys yr effaith ar fodelau busnes presennol o golli incwm neu leihau costau gweithredu.
- Risg gwneud grantiau, gan gynnwys methu â chyflwyno ein canlyniadau fframwaith ariannu statudol, rheoli galw neu gyflawni targedau drwy: a) gallu annigonol y sefydliad i gyflwyno ariannu deallus; b) methu ag ymrwymo'r holl gyllideb grant gytunedig; c) methu â rheoli taliadau grant; ac ch) prosiectau sy'n colli ariannu partneriaeth oherwydd y dirywiad economaidd.
- Risgiau datblygu systemau, gan gynnwys methiant y prosiect ailbeiriannu prosesau busnes i gyflwyno'r buddion disgwyliedig i'r busnes yn unol â'r amserlen a'r gyllideb ddisgwyliedig.
- Risgiau newid busnes, gan gynnwys ddiffyg gallu neu gymhwyster i gyflwyno'r rhaglenni newid busnes y mae eu hangen i gyflwyno'r fframwaith ariannu.
- Risg gyfreithiol a rheoleiddio, gan gynnwys cydymffurfio â'n deddfwriaeth newydd a chydymffurfio cyffredinol â deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli.
- Risgiau o ran ariannu nad yw'n arian y Loteri, gan gynnwys methu â chyflwyno ymagwedd gorfforaethol; diddymwyd y risg hon yn ystod y flwyddyn wrth i ni gyflwyno ein hymagwedd safonol at dderbyn sicrwydd archwilio ar gyfer fframwaith a roddwyd ar waith.
- Y risg i'n henw da, gan gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau Gweinidogion a'r cyhoedd ynghylch ein penderfyniadau ariannu.
- Risgiau na ellir eu darogan, gan gynnwys methiant systemau ac ymyrraeth i fusnesau.
- Risg ariannol, gan gynnwys gostyngiad yn yr incwm o'r Loteri gan arwain at doriadau mewn cyllidebau grantiau neu fethu â rhagamcanu gwariant yn gywir, gan olygu bod balansau NLDF yn uwch na'r angen.
- Risg twyll, gan gynnwys colli hyder yn ein systemau.

Ar ben hynny, rydym yn rheoli risg tor-diogeledd mewnol neu allanol mewn cofrestr risgiau TG. Fel rhan o hyn rydym wedi adolygu risg gwybodaeth, gan gynnwys adolygiad o'n polisïau a'n harferion diogelu a thrin gwybodaeth, gan gynnwys adolygiad o ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y maes hwn. Cododd yr adolygiad nifer o faterion sy'n cael eu trin.

Rydym wrthi'n cyflawni prif brosiect ailbeiriannu prosesau busnes ar hyn o bryd, gan gynnwys buddsoddiad TG sylweddol mewn system ariannu newydd i gyflwyno ein rhaglenni ariannu'n fwy effeithlon ac yn effeithiol. Mae gwaith ailddylunio prosesau wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Yn ystod 2009/10 gwnaethom dderbyn glasbrint drafft gan ein cyflenwr ar gyfer datblygu'r system ariannu. Ar ôl ystyriaeth briodol ni dderbyniwyd y glasbrint hwn a chomisiynwyd gwaith pellach gan gyflenwr arall i gyflwyno datrysiad derbyniol. Mae eu glasbrint bellach wedi'i dderbyn. Ar 31 Mawrth 2010, yn unol â safonau cyfrifo, adolygwyd gwerth cario meddalwedd y system ariannu mewn asedau anniriaethol a, chan ystyried effaith y glasbrint a ddisodlwyd a'r costau sy'n gysylltiedig â'r datrysiad hwnnw, rydym wedi gostwng gwerth yr ased meddalwedd £1.3 miliwn, fel yr amlinellir yn Nodyn 9. Nid yw'r amhariad hwn yn cyfaddawdu dyfodol y prosiect, a bydd penderfyniadau carreg filltir yn y dyfodol yn parhau i gael eu gwneud gan roi sylw priodol i'r arfarniad o'r buddsoddiad ariannol a buddion hir dymor y prosiect.

## Adolygu effeithiolrwydd rheoli mewnol

Fel Swyddog Cyfrifon, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Mae fy adolygiad wedi'i gyfeirio gan i) gwaith yr archwilwyr mewnol, gan gynnwys yr adroddiad sicrwydd blynyddol, adroddiadau cynnydd dros dro ac adolygiadau o argymhellion archwilio dros ben, ii) rheolwyr gweithredol yn y Gronfa Loteri Fawr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheoli mewnol, a iii) sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Darparodd yr adroddiad sicrwydd ysgrifenedig ar fesurau rheoli mewnol a dderbyniwyd gennyf gan y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd cymedrol ynghylch dyluniad, digonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Daethpwyd o hyd i wendidau yn nyluniad a/neu weithrediad rheoli mewnol ar draws nifer o systemau, ond ni ystyrir eu bod yn ddigon arwyddocaol i ddylanwadu ar gyflawni amcanion y sefydliad. Nid yw adroddiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn wedi nodi mesurau rheoli mewnol annigonol. Ar ben hynny, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi adrodd ei fod yn fodlon bod gwendidau rheoli arwyddocaol a nodwyd yn cael eu datrys mewn ffordd briodol.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i mi ynghylch cynnydd fy uwch dîm rheoli ar roi argymhellion archwilio dros ben ar waith, ac mae wedi darparu sicrhad annibynnol i mi bod y camau gweithredu yr adroddwyd amdanynt wedi'u rhoi ar waith.

## Cydymffurfio

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi rhoi gweithdrefnau ar waith ar draws y sefydliad i sicrhau bod gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol yn cael eu dilyn.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw Cofrestr Diddordebau ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau a holl aelodau staff y Gronfa, ac mae'r rhain ar gael i gael ei harchwilio gan y cyhoedd. Mae gennym broses ymdrin â gwrthdaro buddiannau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae gweithdrefnau hefyd i atal unrhyw aelod o'r staff rhag asesu cais am grant gan sefydliad y maent yn gysylltiedig ag ef.

Mae colledion grantiau'r Loteri wedi cael eu trin yn briodol a lle bo'n briodol, mae DCMS wedi cael ei hysbysu am y rhain.

Yn fy marn i, mae'r Gronfa Loteri Fawr hyd yn hyn wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i sicrhau cydymffurfio â gofynion ein Datganiad Rheoli, a'n Cyfarwyddiadau Polisi ac Ariannol. Rwyf hefyd wedi fy modloni ein bod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer canfod diffyg effeithlonrwydd, gwrthdaro buddiannau a thwyll, ac ymateb iddynt er mwyn cadw colledion arian y Loteri mor fach â phosib.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon

6 Gorffennaf 2010

# Adran chwech

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd y DU a Senedd yr Alban

Cadarnhaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifo a amlinellir y tu mewn iddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi cael ei harchwilio.

### Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifon a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn gynhwysfawr yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon, mae'r Swyddog Cyfrifon yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn cynrychioli barn wir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r deddfau a'r Safonau Rhyngwladol perthnasol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). O dan y safonau hynny mae'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio i Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn ymwneud â dod o hyd i dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i ddarparu sicrhad rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn achosi camddatganiad materol, p'un ai drwy dwyll neu ddiffyg. mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: p'un a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r Gronfa Loteri Fawr ac yn cael eu cymhwyso a'u datgelu'n ddigonol; pa mor resymol yw'r amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan y Gronfa Loteri Fawr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i dystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrhad rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddir amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion a bennwyd y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a bennwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg am sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2010 ac o'i gwarged, ei newid mewn ecwiti a'i llifoedd ariannol ar gyfer y flwyddyn sydd wedi dod i ben; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a wnaed fel rhan ohoni.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a wnaed fel rhan ohoni; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn adrannau un i bump yr adroddiad blynyddol y flwyddyn y mae'r datganiadau ariannol wedi'i baratoi ar ei chyfer yn cyfateb i'r datganiadau ariannol.

## Materion yr adroddaf amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifo priodol wedi'u cadw; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb i'r cofnodion neu ddychweliadau cyfrifo; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad o Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfio arweiniad Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SS

14 Gorffennaf 2010

# Datganiad incwm

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm Loteri** | | | |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 14 | 740,257 | 624,587 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 14 | 6,000 | 30,632 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd ar ailbrisio'r buddsoddiad | 14 | (1,889) | 662 |
| Llog banc a llog arall a dderbynnir | 3 | 3,538 | 895 |
| Adennill grantiau | 3 | 35,684 | 5,022 |
| | | 783,590 | 661,798 |
| **Incwm o ffynonellau eraill** | | | |
| Incwm arall | 3 | 7,021 | 6,873 |
| **Cyfanswm incwm** | | 790,611 | 668,671 |
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant ar raglenni** | | | |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 4 | 440,222 | 526,499 |
| Llai ymrwymiadau sydd wedi darfod neu wedi'u diddymu | 4 | (20,747) | (27,656) |
| | | 419,475 | 498,843 |
| Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau | 22 | 15,000 | 15,000 |
| Trosglwyddiad Olympaidd | 22 | 171,728 | 42,932 |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni | 5 | 7,927 | 3,923 |
| | | 614,130 | 560,698 |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | 6 | 58,280 | 56,805 |
| Costau gweithredu a ailgodir | 6 | 7,021 | 6,873 |
| Ailstrwythuro a buddsoddi | 9 | 5,542 | 3,248 |
| **Cyfanswm costau gweithredu** | | 70,843 | 66,926 |
| **Cyfanswm gwariant** | | 684,973 | 627,624 |
| **Gwarged cyn treth** | | 105,638 | 41,047 |
| Treth | 10 | (1,016) | (241) |
| **Gwarged ar gyfer y cyfnod** | | 104,622 | 40,806 |
| **Incwm a gwariant wrth gefn** | | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2009 | 2 | (734,622) | (775,428) |
| Gwarged ar gyfer y cyfnod | | 104,622 | 40,806 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | | (630,000) | (734,622) |

Nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai uchod. Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi dod i ben.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 66 i 87 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o sefyllfa ariannol

| | Nodyn | 31 Mawrth 2010 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 11 | 4,201 | 4,736 | 4,740 |
| Asedau anniriaethol | 12 | 2,235 | 1,294 | - |
| | | 6,436 | 6,030 | 4,740 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Masnachu ac arian arall a dderbynnir | 13 | 18,675 | 9,303 | 8,822 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 12,815 | 30,003 | 15,016 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 14 | 474,142 | 545,119 | 577,876 |
| | | 505,632 | 584,425 | 601,714 |
| **Cyfanswm asedau** | | 512,068 | 590,455 | 606,454 |
| **Ymrwymiadau cyfredol** | | | | |
| Masnachu ac arian arall a delir | 15 | (7,043) | (8,408) | (8,848) |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu | 17 | (471,842) | (625,113) | (640,926) |
| | | (478,885) | (633,521) | (649,774) |
| **Asedau anghyfredol llai ymrwymiadau net cyfredol** | | 33,183 | (43,066) | (43,320) |
| **Ymrwymiadau anghyfredol** | | | | |
| Masnachu ac arian arall a delir | 15 | (1,914) | (1,686) | (1,596) |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu | 17 | (650,599) | (681,601) | (724,468) |
| | | (652,513) | (683,287) | (726,064) |
| Darpariaethau | 16 | (10,670) | (8,269) | (6,044) |
| **Asedau llai ymrwymiadau** | | (630,000) | (734,622 ) | (775,428) |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | |
| **Incwm a gwariant wrth gefn** | | (630,000) | (734,622) | (775,428) |

Llofnodwyd ar ran y Gronfa Loteri Fawr ar 6 Gorffennaf 2010

**Peter Wanless**
a Swyddog Cyfrifon

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 66 i 87 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 14 | 815,345 | 688,638 |
| Adfer grantiau ac arian gan ffynonellau eraill | | 35,685 | 5,022 |
| Incwm arall | | 5,102 | 7,707 |
| Llog a dderbyniwyd | | 3,538 | 899 |
| Taliadau i gyflenwyr | | (27,770) | (26,337) |
| Taliadau i weithwyr ac ar eu rhan | | (38,380) | (37,051) |
| Taliadau i dderbynyddion grantiau | | (612,172) | (563,405) |
| Trosglwyddiad i NESTA | | (15,000) | (15,000) |
| Trosglwyddiad i OLDF | | (171,728) | (42,932) |
| Arian a dalwyd ac a gadwyd gan drydydd partïon | | (9,247) | (77) |
| Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd | | (267) | (339) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | 20 | (14,894) | 17,125 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (212) | (844) |
| Taliadau i gaffael asedau anniriaethol | | (2,082) | (1,294) |
| | | (2,294) | (2,138) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod** | | (17,188) | 14,987 |
| **(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | 12,815 | 30,003 |
| Llai balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | (30,003) | (15,016) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod** | | (17,188) | 14,987 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 66 i 87 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti

| | Incwm a gwariant wrth gefn £'000 |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2008 | (774,387) |
| Newidiadau yn y polisi cyfrifo | |
| – Cydnabyddiaeth o absenoldeb cyflogyddion a gronnwyd wrth roi IAS 19, Buddion Cyflogyddion ar waith | (543) |
| – Addasiad di-rent ar gyfer eiddo a lesir, wedi'i ledaenu dros gyfnod y brydles yn hytrach na hyd at yr adolygiad rhent cyntaf wrth roi IAS-17, Prydlesi, ar waith | 191 |
| – Addasiad di-rent ar gyfer eiddo sy'n cael ei is-osod, wedi'i ledaenu i'r toriad prydles neu ddarfodiad y brydles p'un bynnag a ddaw yn gyntaf yn hytrach na'r adolygiad rhent cyntaf wrth roi IAS-17, Prydlesi, ar waith | (689) |
| Balans ar 31 Mawrth 2008 wedi'i ailddatgan | (775,428) |
| **Newidiadau mewn arian wrth gefn 2008/09** | |
| Gwarged argadwedig | 40,806 |
| Balans ar 31 Mawrth 2009 | (734,622) |
| **Newidiadau mewn arian wrth gefn 2009/10** | |
| Gwarged argadwedig | 104,622 |
| Balans ar 31 Mawrth 2010 | (630,000) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 66 i 87 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2009/10 a gyhoeddir gan Drysorlys EM a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag Adran 43D (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006). Mae'r polisïau cyfrifo sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd y FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y bernir ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Gronfa Loteri Fawr at ddiben darparu barn wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer 2009/10 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod faterol i'r cyfrifon. Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn costau hanesyddol. Ystyrir bod cost gyfredol yn brocsi ar gyfer gwerth teg.

Ar gyfer 2009/10 nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn credu bod costau cyfredol yn sylweddol wahanol i'r costau hanesyddol a ddangosir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, FReM a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

### 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes cyfredol. Ymgymerwyd ag ymrwymiadau grantiau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar ôl ystyried gofynion arian parod derbynyddion grantiau (gellir ymestyn y rhain dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagamcaniadau incwm a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys trosglwyddo arian i Ddosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd. Wrth ystyried incwm y dyfodol mae'r Bwrdd yn tybio fel mater o bolisi cyhoeddus y bydd y Loteri yn parhau i weithredu. Maent hefyd yn tybio cynnal canran y Gronfa Loteri Fawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel yr amlinellir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006). Mae'r Bwrdd wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar gyfrannau incwm, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon wrthi'n eu hystyried ar hyn o bryd ac, fel y nodir ar dudalen 39, mae wedi ystyried yr effaith ar ymrwymiadau cyfredol a gofnodir yn y cyfrifon hyn.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar 31 Mawrth 2010, wedi'i chadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol ac yn y dyfodol.

### 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannu a chyfarpar wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu dibrisio i'r Datganiad Incwm ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Dros gyfnod y brydles |
| Cyfarpar TG | 3 blynedd |
| Offer, dodrefn a ffitiadau Swyddfa | 3 blynedd |

## 1.5 Asedau anniriaethol

Yn unol ag IAS 38 'Asedau Anniriaethol', ystyrir bod costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r cynnyrch meddalwedd rheoli grantiau adnabyddadwy ac unigryw yn ased anniriaethol. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn cynnwys ffioedd contractwyr allanol a chostau cyflogyddion. Wrth gomisiynu'r meddalwedd, mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod defnyddiol eu bywyd.

## 1.6 Cronfa bensiwn

Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n cynllun pensiwn amlgyflogwr heb ei ariannu â buddion diffiniedig. Telir buddiannau pensiwn gan y PCSPS. Mae cyfrifoldebau'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u cyfyngu i gost, sydd wedi'i osod gan Brif Actwari'r Llywodraeth, sy'n gysylltiedig â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn

## 1.7 Prydlesi gweithredol

**Deiliad prydles**

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu prydlesi lle nad oes ganddi risgiau a gwobrwyon perchnogaeth sylweddol fel prydles weithredol yn unol ag IAS 17 'Prydlesi'. Codir costau prydlesi gweithredol a ddelir gan y Gronfa Loteri Fawr ar y Datganiad Incwm (net o gymhelliannau) dros y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Dosrennir buddiannau cyfnodau di-rent ar brydlesi dros y cyfnod hyd at ddiwedd y brydles ar sail linol.

Ar 31 Mawrth 2010, mae holl brydlesi eiddo'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u dosbarthu fel prydlesi gweithredol. Ni ellir dyrannu'r taliadau prydles ar gyfer eiddo'n ddibynadwy rhwng y cydrannau tir ac adeiladau. Fodd bynnag, mae'n glir nad yw dwy elfen y trefniadau prydles yn trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon y berchnogaeth yn sylweddol i'r Gronfa Loteri Fawr ac felly mae'r ddwy elfen wedi cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredol.

**Prydleswr**

Os yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi darparu cymhelliant di-rent neu gymhelliant arall i denant, dosrennir cost y cymhelliant hwn dros y cyfnod hyd at pwynt y toriad rhent neu ddyddiad darfod y brydles, p'un bynnag a ddaw yn gyntaf ar sail linol.

## 1.8 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa Loteri Fawr ddosbarthu grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd â'r nod o dalu am wariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel y pennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Cynigion ac ymrwymiadau grant**

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan ei bod yn ofynnol gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau meddal ac ymrwymiadau caled.

Diffinnir ymrwymiadau caled fel swm y grant sy'n daladwy dros gyfnod y cynllun y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio cytundeb ysgrifenedig ar ei gyfer gyda'r ymgeisydd. Codir ymrwymiadau caled ar y datganiad incwm yn ystod y flwyddyn y llofnodir y cytundeb ynddi. Dangosir yr ymrwymiadau caled ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel ymrwymiad, ac mae'r balans yn cael ei ostwng wrth i daliadau gael eu rhyddhau i dderbynyddion grantiau.

Diffinnir ymrwymiadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Loteri Fawr i ariannu cynllun a chynnig grant a wneir i'r ymgeisydd nad yw'r ymgeisydd wedi'i dderbyn yn ffurfiol eto. Dangosir y rhain fel nodyn i'r cyfrifon ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r datganiad incwm.

# Nodiadau'r cyfrifon

**Grantiau sy'n cael eu had-dalu a'u hadennill**
Mae amodau grantiau'r Gronfa Loteri Fawr yn caniatáu adennill ac ad-dalu grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd os bydd deiliaid grant yn methu â chydymffurfio â'r amodau a thelerau neu os yw'r union wariant gan ddeiliaid yn is na'r grant sydd wedi'i dalu ar sail amcangyfrif o'r costau.

Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm wrth derbyn yr ad-daliad.

**Gwariant uniongyrchol ar raglenni**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cofnodi costau a gafwyd wrth gyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol i fuddiolwyr neu dderbynyddion grantiau'n unol â'u Cyfarwyddiadau Polisi Adran 43 fel 'gwariant uniongyrchol ar raglenni'. Er enghraifft, darparu strwythurau cefnogi ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a sicrwydd ansawdd er budd uniongyrchol derbynyddion grantiau.

## 1.9 Treth
Codir treth gorfforaethol ar sail y gyfraith dreth sydd mewn grym ar ddyddiad y sefyllfa ariannol. Codir y dreth hon ar log a dderbyniwyd ar falansau arian a ddelir mewn cyfrifon banc masnachol.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i chofrestru ar gyfer treth ar werth (TAW). Codir ac adenillir TAW ar weithgareddau'r Gronfa Loteri Fawr sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o weithgareddau busnes a amlinellir yn y ddeddfwriaeth TAW. Mae hyn yn cynnwys llawer o'n gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Loteri.

## 1.10 Arian parod a chyfwerth ag arian parod
Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon ar-alw a ddelir gyda banciau masnachol.

## 1.11 Darpariaethau
Cydnabyddir darpariaethau ailstrwythuro a thrafodion prydles llethol pan fydd gan y Gronfa Loteri Fawr rwymedigaeth gyfreithiol gyfredol o ganlyniad i benderfyniad yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen adnoddau i glirio'r rhwymedigaeth ac mae'r swm wedi'i amcangyfrif yn ddibynadwy.

## 1.12 Rheoli grantiau
**Partneriaid dirprwyedig**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio cytundebau gyda nifer o gyrff dirprwyol i gyflawni prosesau rheoli grantiau penodol. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyedig er mwyn talu am ymrwymiadau caled fel ased cyfredol nes bod y Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cadarnhad bod ymrwymiadau grant wedi'u bodloni.

**Cynlluniau ar y cyd**
Os yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio cynllun ar y cyd, fel y diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir ymrwymiadau caled a wneir mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd ar sail cyfran y Gronfa Loteri Fawr o'r cynllun. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i'r cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau caled fel ased cyfredol nes bod y Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cadarnhad bod yr ymrwymiadau grantiau wedi'u bodloni. Mae'r costau gweinyddu wedi'u cynnwys yn y datganiad incwm yn unol â'r swm a godir ar y Gronfa Loteri Fawr.

## 1.13 Asedau trydydd parti
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw rhai asedau sy'n perthyn i drydydd parti fel ceidwad. Nid yw'r rhain yn gyfrifon cydnabyddedig gan nad oes gan y Gronfa Loteri Fawr fudd uniongyrchol ynddynt. Mae'r balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon wedi'u dangos yn nodyn 23.

## 2. Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf

| **Effaith ar incwm a gwariant wrth gefn** | **£'000** |
|---|---|
| Incwm a gwariant wrth gefn ar 31 Mawrth 2008 o dan GAAP y DU. | (774,387) |
| Wedi'i addasu ar gyfer rhoi'r safonau Cyfrifo Rhyngwladol canlynol ar waith: | |
| – IAS 19 'Buddion Cyflogyddion'; cyfrifo ar gyfer cost gronnol buddion gwyliau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2008. | (543) |
| – IAS 17 'Prydlesi'; Addasiad i ledaenu budd cymhelliannau (cyfnodau di-rent) dros gyfnod llawn y brydles ar 31 Mawrth 2008. Lledaenwyd y rhain yn flaenorol i'r adolygiad rhent cyntaf. | (689) |
| – IAS 17 'Prydlesi'; Addasiad i ledaenu cost cymhelliannau (cyfnodau di-rent) a ddarperir ar gyfer tenantiaid i bwynt y toriad rhent neu ddyddiad darfod y brydles, p'un bynnag a ddaw yn gyntaf, ar 31 Mawrth 2008. Lledaenwyd y rhain yn flaenorol i'r adolygiad rhent cyntaf. | 191 |
| Incwm a gwariant wrth gefn ar 31 Mawrth 2008, wedi'i ailddatgan ar gyfer IFRS | (775,428) |
| Incwm a gwariant wrth gefn ar 31 Mawrth 2009 o dan GAAP y DU. | (733,616) |
| – IAS 19 'Buddion Cyflogyddion'; cyfrifo ar gyfer cost gronnol buddion gwyliau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2009. | (479) |
| – IAS 17 'Prydlesi'; Addasiad i ledaenu budd cymhelliannau (cyfnodau di-rent) dros gyfnod llawn y brydles ar 31 Mawrth 2009. Lledaenwyd y rhain yn flaenorol i'r adolygiad rhent cyntaf. | (881) |
| – IAS 17 'Prydlesi'; Addasiad i ledaenu cost cymhelliannau (cyfnodau di-rent) a ddarperir ar gyfer tenantiaid i bwynt y toriad rhent neu ddyddiad darfod y brydles, p'un bynnag a ddaw yn gyntaf, ar 31 Mawrth 2009. Lledaenwyd y rhain yn flaenorol i'r adolygiad rhent cyntaf. | 354 |
| Incwm a gwariant wrth gefn ar 31 Mawrth 2009, wedi'i ailddatgan ar gyfer IFRS | (734,622) |

| **Effaith ar y Gwarged ar gyfer 2008/09** | **£'000** |
|---|---|
| Gwarged Incwm a gwariant ar gyfer 2008/09 o dan GAAP y DU | 40,771 |
| – IAS 19 'Buddion Cyflogyddion', gostyngiad mewn costau staff gan fod y croniad o ran buddion gwyliau ar 31 Mawrth 2009 yn is na'r flwyddyn flaenorol. | 64 |
| – IAS 17 'Prydlesi', cynnydd mewn gwariant rhent gan fod bremiymau di-rent wedi'u lledaenu dros gyfnod y brydles. | (192) |
| – IAS 17 'Prydlesi', cynnydd mewn refeniw wrth i bremiymau di-rent i brydleswyr gael eu lledaenu i bwynt y toriad rhent neu ddyddiad darfod y brydles, p'un bynnag a ddaw yn gyntaf | 163 |
| Gwarged Incwm a gwariant ar gyfer 2008/9 o dan IFRS | 40,806 |

# Nodiadau'r cyfrifon

## 3. Incwm

Mae adenillion grant o £35,684,000 (2008/09 £5,022,000) yn cynrychioli incwm a ddychwelwyd gan ddeiliaid grantiau (gweler nodyn 1.8). Yn 2009/10 roedd yr adenillion hyn yn cynnwys £32,025,000 o dri grant mawr a ddyfarnwyd drwy'r rhaglen Ynni Adnewyddadwy i gefnogi adeiladu fferm wynt alltraeth (a gyflwynwyd gan Seascape) a dwy orsaf drydan biomàs (a gyflwynwyd gan E-On a Sembcorp). Ym mis Mawrth 2009, newidiodd y Llywodraeth y ffordd yr oedd yn rhoi cymhelliannau ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y DU. O ganlyniad i hyn, penderfynodd y tri deiliad grant hwn ddychwelyd eu grantiau. Dychwelwyd yr arian hwn, gan gynnwys llog, ar 1 Ebrill 2009. Mae £3,489,000 wedi'i gynnwys o fewn llog banc a llog arall a dderbynnir.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **Llog banc a llog arall a dderbynnir** | | |
| Llog banc | 49 | 895 |
| Llog arall | 3,489 | - |
| | 3,538 | 895 |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm arall** | | |
| Incwm o gyflwyno ariannu nad yw'n arian y Loteri | 4,387 | 3,933 |
| Incwm o gyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 663 | 1,291 |
| Incwm rhent | 1,743 | 1,456 |
| Arall | 228 | 193 |
| | 7,021 | 6,873 |

## 4. Gwariant ar raglenni

Mae IFRS 8 yn gofyn am ddatgelu data ariannol fesul cylchran adroddadwy. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn rheoli ac yn adrodd am weithgareddau dyfarnu grantiau fesul cylchrannau daearyddol. Serch hynny nid yw costau gweithredu'n cael eu rheoli a'u hadrodd ar sail gylchrannol.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ariannwr ledled y DU. Mater i Fwrdd y Gronfa Loteri Fawr yw dyrannu ariannu rhwng pedair gwlad y DU. Nid ydym yn dyrannu incwm ond yn rheoli cyfran pob gwlad drwy bennu cyllidebau grant. Fel yr amlinellir yn adran pedwar yr adroddiad blynyddol, pennir ein cyllidebau grant yn seiliedig ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae'r Bwrdd wedi dyrannu ariannu dangosol i bob gwlad ar gyfer Cynllun Strategol 2009-2015 ar ôl i gyfran o'r gyllideb, hyd at 10 y cant, cael ei brigdorri ar gyfer rhaglenni'r DU. O'r gyllideb sy'n weddill mae Lloegr yn derbyn 77.5 y cant; mae 11.5 y cant yn mynd i'r Alban; 6.5 y cant i Gymru a 4.5 y cant i Ogledd Iwerddon. Dros gyfnod y cynllun mae gan bob pwyllgor gwlad ddisgresiwn, o fewn cyfyngiadau penodol, o ran cyflwyno penderfyniadau grant. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hymrwymiadau grant wedi'u codi ar y Datganiad Incwm yn ystod y flwyddyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 | | | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | | | | | | £'000 |
| | DU | Lloegr | Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | **Cyfanswm** | |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 34,225 | 274,103 | 63,501 | 18,989 | 49,404 | 440,222 | 526,499 |
| Llai ymrwymiadau sydd wedi darfod ac wedi'u diddymu | (1,015) | (15,173) | (2,161) | (1,042) | (1,356) | (20,747) | (27,656) |
| Ymrwymiadau grant net a wnaed | 33,210 | 258,930 | 61,340 | 17,947 | 48,048 | 419,475 | 498,843 |

## 5. Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion trydydd parti a wnaed fel rhan o gontract yn hytrach na dyfarniad grant

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Cefnogaeth ymgynghori a ddarperir yn uniongyrchol i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau | 4,572 | 3,891 |
| Dyfarniad Miliynau'r Bobl | - | 32 |
| Dyfarniad Scottish Youth Football | 3,355 | - |
| | 7,927 | 3,923 |

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymrwymo i'r contractau canlynol a fydd yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i fuddiolwyr. Cyfrifir am y gwariant pan fydd y gwasanaethau sy'n destun y contract yn cael eu darparu. Ar 31 Mawrth roedd yr ymrwymiadau ariannol canlynol yn ddyledus ar y contractau hyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| sportscotland – Scottish Youth Football | 1,455 | 4,810 |
| Highlands and Islands Enterprise – Growing Community Assets support contract | 199 | 1,347 |
| Participation Works – Cronfa Pobl Ifanc Lloegr | - | 1,612 |
| 6 chontract i gyflwyno'r rhaglen Sgiliau Bywyd yng Nghymru | 3,191 | - |
| 4 contract cefnogi a datblygu arall (2008/09 – 6) | 1,077 | 1,197 |

# Nodiadau'r cyfrifon

## 6. Costau gweithredu

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y costau gweithredu:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|
| | Costau gweithredu ar gyfer dos barthu incwm y Loteri £'000 | Costau gweithredu a ailgodwyd £'000 | Cyfanswm costau gweithredu £'000 | Cyfanswm costau gweithredu £'000 |
| Tâl cydnabyddiaeth gweithwyr (nodyn 8) | 35,262 | 2,164 | 37,426 | 35,857 |
| Teithio a threuliau | | | | |
| – Staff | 1,911 | 107 | 2,018 | 1,905 |
| – Aelodau Bwrdd a phwyllgor | 111 | - | 111 | 137 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredu | | | | |
| – Eiddo | 3,882 | 2,152 | 6,034 | 5,962 |
| Costau llety eraill | 2,669 | 31 | 2,700 | 3,276 |
| Gwybodaeth i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau | 3,352 | 139 | 3,491 | 3,430 |
| Costau'r isadeiledd TG | 4,777 | 115 | 4,892 | 3,322 |
| Cefnogaeth allanol ar gyfer rhaglenni grant | 1,892 | 93 | 1,985 | 2,114 |
| Gwerthuso rhaglenni | 449 | 5 | 454 | 665 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 1,573 | 53 | 1,626 | 2,162 |
| Ffioedd proffesiynol gan gynnwys contractau cefnogi a datblygu | 1,125 | 2,093 | 3,218 | 2,098 |
| Prosiect Ailbeiriannu Prosesau Busnes | - | - | - | 132 |
| Tâl cydnabyddiaeth archwilwyr | | | | |
| – Ar gyfer gwaith archwilio | 106 | - | 106 | 105 |
| – Ar gyfer adolygiad IFRS | 5 | - | 5 | 2 |
| Costau eraill | 416 | 69 | 485 | 1,634 |
| Eitemau anariannol: | | | | |
| – Dibrisio | 748 | - | 748 | 847 |
| – Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 2 | - | 2 | - |
| Total | 58,280 | 7,021 | 65,301 | 63,648 |

Ceir costau gweithredu a ailgodir wrth gyflawni'r gweithgareddau canlynol.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflwyno ariannu nad yw'n arian y Loteri | 4,387 | 3,933 |
| Cyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 663 | 1,291 |
| Is-osod llety dros ben | 1,743 | 1,456 |
| Gweithgareddau eraill | 228 | 193 |
| | 7,021 | 6,873 |

## 7. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad ariannol yw'r ganran o'n cyfran o incwm Loteri rydym yn ei gwario ar ei dosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian Loteri ac arian nad yw'n dod o'r Loteri ar gyfer sefydliadau eraill ac eiddo a isosodir. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol buddsoddiad i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol. Ar y sail hon, 7.4 y cant o'r incwm hwnnw (2008/09 8.6 y cant) oedd cost dosbarthu ein cyfran o incwm Loteri.

# Nodiadau'r cyfrifon

## 8. Nifer a chostau staff

Roedd cyfanswm cost cyflogau staff, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 29,053 | 27,481 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,298 | 2,184 |
| Costau pensiwn eraill | 5,046 | 4,889 |
| Costau asiantaethau | 1,749 | 1,454 |
| Tâl gwyliau | 35 | (65) |
| Cyflogau wedi'u cyfalafu | (755) | (86) |
| | 37,426 | 35,857 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys £153,025 ar gyfer staff ar secondiad gyda sefydliadau eraill. Mae adenillion o £157,303 wedi'u cynnwys mewn incwm arall.

Mae cyflog a hawliau pensiwn aelodau uwch dîm rheoli a Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr wedi'u cynnwys uchod; datgelir y manylion yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth.

Mae costau cyflogau a gafwyd wrth ddatblygu'r system rheoli ariannu newydd wedi cael eu cyfalafu'n unol ag IAS 38 'Asedau anniriaethol'. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys o fewn ychwanegiadau yn Nodyn 12. Yn 2009/10 aethpwyd â gwerth £90,000 o gyflogau wedi'u cyfalafu i refeniw fel rhan o gostau BPR (gweler nodyn 9).

Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro yn gweithio i'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer cyfartalog y staff dros dro | Nifer cyfartalog y gweithwyr | Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALl) | Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALl) |
| Dyfarnu grantiau | 49 | 576 | 625 | 618 |
| Cefnogi cwsmeriaid a budd-ddeiliaid | 6 | 191 | 197 | 194 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 10 | 200 | 210 | 218 |
| Staff sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf | 1 | 14 | 15 | 16 |
| | 66 | 981 | 1,047 | 1,046 |

Ar 31 Mawrth 2010 roedd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflogi 988 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (2008/09 969).

## 9. Costau ailstrwythuro a buddsoddi

Dros y pedair blynedd diwethaf rydym wedi rhoi'r 'Adolygiad Strwythurol' ar waith, sef rhaglen newid bwysig a fydd yn ailstrwythuro ac yn adleoli ein gweithgareddau dyfarnu grantiau a swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol yn Lloegr. Rydym hefyd yn parhau i archwilio ein strwythur a gwneud newidiadau er mwyn cyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n addas i'r diben. Mae costau'r ailstrwythuro hwn yn ystod 2009/10, gan gynnwys taliadau terfynau a thrafodion eiddo, wedi'u hamlinellu ar dudalen 74.

Yn 2009/10 gwnaethom is-osod llawr o'n heiddo yn Plough Place, Llundain, ar rent y farchnad, sef llai nag yr ydym yn ei dalu o dan gontract ar hyn o bryd. Yn unol ag IAS 37 'Darpariaethau, rhwymedigaethau ac asedau amodol', rydym wedi darparu'n llawn ar gyfer y gwahaniaeth hwn (gweler Nodyn 16). Mae gofynion y Gronfa Loteri Fawr o ran lle wedi lleihau, ac mae'r lle yn Plough Place wedi cael ei ddisodli gan lety cost llai yn Birmingham a Newcastle; byddwn yn derbyn buddiannau sylweddol yn y dyfodol yn sgil y trafodiad hwn.

Rydym yn buddsoddi mewn adolygiad o'n prosesau busnes, gan gynnwys system rheoli ariannu newydd i wella gwasanaeth cwsmeriaid a chynyddu effeithlonrwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant hwn wedi'i gyfalafu'n unol ag IAS 16 'Eiddo, peiriannau a chyfarpar' ac IAS 38 'Asedau anniriaethol' (gweler Nodiadau 11 a 12). Fodd bynnag mae peth gwariant wedi cael ei godi ar y Datganiad incwm dros y flwyddyn ariannol. Yn ystod 2009/10 fe gafwyd costau wrth ddatblygu'r cynlluniau a llunio'r glasbrint manwl ar gyfer y system ariannu newydd. Mae £417,000 ar gyfer costau staff a gafodd eu cynnwys yn flaenorol o dan asedau anniriaethol, £278,000 ar gyfer trwyddedau a £631,000 ar gyfer ffioedd ymgynghori ar gyfer drafft o'r glasbrint sydd bellach wedi'i ddisodli wedi'i gynnwys yn y costau hyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau terfynu | 349 | 1,937 |
| Rhesymoli eiddo | 3,511 | 1,311 |
| Adolygu ailbeiriannu prosesau busnes | 1,682 | - |
| | 5,542 | 3,248 |

## 10. Treth

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn talu treth gorfforaethol ar log banc ac unrhyw log arall a dderbynnir yn unig.

Mae'r dreth sy'n daladwy ar log a dderbyniwyd yn 2009/10 yn £990,000 seiliedig ar gyfradd treth gorfforaethol o 28 y cant. Yn 2008/09 gwnaethom dalu treth gorfforaethol annigonol gan adael £26,000 yn ddyledus, felly y cyfanswm a godwyd ar y datganiad Incwm yn y flwyddyn gyfredol yw £1,016,000 (2008/09 £241,000).

Nid yw arian a gynhyrchir gan falansau sy'n cael ei gadw a'i fuddsoddi gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Loteri Fawr yn drethadwy.

# Nodiadau'r cyfrifon

## 11. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Gwelliannau prydlesol £'000 | TG £'000 | Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfeydd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 6,537 | 2,571 | 228 | 9,336 |
| Ychwanegiadau | 51 | 89 | 72 | 212 |
| Gwarediadau | - | (797) | - | (797) |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | 6,588 | 1,863 | 300 | 8,751 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 2,696 | 1,722 | 182 | 4,600 |
| Tâl am y flwyddyn | 403 | 311 | 31 | 745 |
| Gwarediad | - | ( 795) | - | (795) |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | 3,099 | 1,238 | 213 | 4,550 |
| **Cost net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | 3,489 | 625 | 87 | 4,201 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 6,273 | 2,034 | 185 | 8,492 |
| Ychwanegiadau | 264 | 537 | 43 | 844 |
| Gwarediadau | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 6,537 | 2,571 | 228 | 9,336 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 2,261 | 1,358 | 133 | 3,752 |
| Tâl am y flwyddyn | 435 | 364 | 49 | 848 |
| Gwarediad | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 2,696 | 1,722 | 182 | 4,600 |
| **Cost net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 3,841 | 849 | 46 | 4,736 |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 4,012 | 676 | 52 | 4,740 |

Mae'r holl welliannau prydlesol ar eiddo prydles fer gyda phrydles sy'n dod i ben mewn llai nag 20 mlynedd. Yn 2008/09 mae cyfarpar TG yn cynnwys £292,000 ar gyfer cyfarpar a gaffaelwyd i ddatblygu'r system ariannu newydd. Y Gronfa Loteri Fawr sy'n berchen ar yr holl asedau.

## 12. Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd system ariannu – yn cael ei ddatblygu £'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 1,294 |
| Ychwanegiadau | 1,768 |
| Amhariad | (827) |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | 2,235 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | - |
| Tâl am y flwyddyn | - |
| Gwarediad | |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | - |
| **Cost net ar 31 Mawrth 2010** | 2,235 |

| | Meddalwedd system ariannu – yn cael ei ddatblygu £'000 |
|---|---|
| Cost | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | - |
| Ychwanegiadau | 1,294 |
| Amhariad | - |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 1,294 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | - |
| Tâl am y flwyddyn | - |
| | - |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | - |
| **Cost net ar 31 Mawrth 2009** | 1,294 |
| Cost net ar 31 Mawrth 2008 | - |

## 13. Masnachu ac arian arall a dderbynnir

| | Ar 31 Mawrth 2010 £'000 | Ar 31 Mawrth 2009 £'000 | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu ymrwymiadau grantiau | 12,555 | 2,633 | 600 |
| Adneuon a blaendaliadau | 891 | 491 | 428 |
| Symiau eraill a dderbynnir | 1,686 | 2,159 | 3,865 |
| | 15,132 | 5,283 | 4,893 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,543 | 4,020 | 3,929 |
| | 18,675 | 9,303 | 8,822 |

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y symiau uchod:

£44,339 sy'n ddyledus gan 76 aelod o staff ar gyfer benthyciadau tocynnau tymor. Nid oes unrhyw fenthyciad yn fwy na £5,000. Mae'r holl fenthyciadau am gyfnod o 12 mis ac yn daladwy trwy eu tynnu o'r cyflog.

# Nodiadau'r cyfrifon

Mae'r Balansau sy'n daladwy gan gyrff eraill y Llywodraeth fel a ganlyn:

| | **Ar 31 Mawrth 2010 £'000** | **Ar 31 Mawrth 2009 £'000** | **Ar 31 Mawrth 2008 £'000** |
|---|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff eraill y Llywodraeth | 3,423 | 1,737 | 4,612 |
| Symiau sy'n ddyledus gan awdurdodau lleol | 12 | 997 | 304 |
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff y tu allan i'r llywodraeth | 4,231 | 6,216 | 3,715 |

## 14. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | **£'000** | **£'000** |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2009** | | 545,119 |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 740,257 | |
| Incwm buddsoddi gan NLDF | 6,000 | |
| Arian a dynnir i lawr o'r NLDF | (643,617) | |
| Trosglwyddiad y Gemau Olympaidd | (171,728) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (69,088) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2010** | | 476,031 |
| Colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad | | (1,889) |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2010** | | 474,142 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2008** | | 577,876 |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 624,587 | |
| Incwm buddsoddi gan NLDF | 30,632 | |
| Arian a dynnir i lawr o'r NLDF | (645,706) | |
| Trosglwyddiad y Gemau Olympaidd | (42,932) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (33,419) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2010** | | 544,457 |
| Enillion buddsoddi heb eu gwireddu | | 662 |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2009** | | 545,119 |

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cyfran o'r arian a delir gan Camelot Group plc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl tynnu costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddo ddefnyddio ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheolydd (Comisiwn y Loteri Genedlaethol), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyledion Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

## 15. Masnachu ac arian arall a delir

| | Ar 31 Mawrth 2010 £'000 | Ar 31 Mawrth 2009 £'000 | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| TAW | - | 93 | 60 |
| Trethi a nawdd cymdeithasol eraill | 1,245 | 981 | 1,100 |
| Treuliau masnachu | 80 | 103 | 10 |
| Treuliau eraill | 1,139 | 1,171 | 1,239 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 4,579 | 6,060 | 6,439 |
| | 7,043 | 8,408 | 8,848 |
| **Swm sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | | |
| Taliadau, croniadau ac incwm gohiriedig arall | 1,914 | 1,686 | 1,596 |

Mae'r balans canlynol sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'i gynnwys yn y symiau uchod:

| | Ar 31 Mawrth 2010 £'000 | Ar 31 Mawrth 2009 £'000 | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff eraill y Llywodraeth | 2,634 | 1,677 | 3,023 |
| Symiau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | 11 | 103 | 9 |
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff y tu allan i'r llywodraeth | 6,312 | 8,314 | 7,412 |

## 16. Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a thaliadau

| | Taliadau prydles anochel £'000 | Cyfraniadau ymddeol yn gynnar £'000 | Darpariaethau diswyddo £'000 | Cefnogaeth ddiswyddo £'000 | Cyfanswm darpariaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2009 | 4,027 | 1,889 | 2,211 | 142 | 8,269 |
| Swm net a godwyd ar wariant yn ystod y flwyddyn | 3,261 | 11 | 316 | 22 | 3,610 |
| Taliadau a wnaed | (265) | (415) | (503) | (26) | (1,209) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2010** | 7,023 | 1,485 | 2,024 | 138 | 10,670 |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2008 | 2,826 | 2,089 | 990 | 139 | 6,044 |
| Swm net a godwyd ar wariant yn ystod y flwyddyn | 1,502 | 68 | 1,832 | 34 | 3,436 |
| Taliadau a wnaed | (301) | (268) | (611) | (31) | (1,211) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2009** | 4,027 | 1,889 | 2,211 | 142 | 8,269 |

**Taliadau prydles anochel**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi is-osod rhan o'i heiddo yn Plough Place, Llundain i dri thenant. Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godir ar denantiaid y Gronfa Loteri Fawr a'r hyn y mae'r Gronfa wedi'i gontractio i'w dalu i'w landlordiaid. Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer y gwahaniaeth yn rhent y farchnad gan ddefnyddio cyfradd chwyddiant dybiedig o 3 y cant. Caiff y ddarpariaeth ei gwireddu dros 12 mlynedd.

Ymrwymwyd i is-brydles newydd yn ystod 2009/10 (Gweler Nodyn 9). Defnyddiwyd y rhenti marchnad a nodwyd gan y cytundeb hwn i ddiwygio'r darpariaethau presennol.

Yn y gorffennol nid ydym wedi rhoi disgownt ar y ddarpariaeth gan y pennwyd bod yr effaith ariannol yn ddibwys. Ar 31 Mawrth 2010 rydym wedi rhoi disgownt ar gyfer taliadau prydles anochel gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a gynghorwyd gan Drysorlys EM, 2.2 y cant. Mae hyn wedi creu gostyngiad o £692,000 yn y ddarpariaeth.

### Ailstrwythuro: ymddeol, diswyddo a chefnogaeth

Fel rhan o'r cyfuniad a'r Adolygiad Strwythurol nodwyd swyddi nad oes eu hangen bellach, neu wedi'u hadleoli. O ganlyniad mae staff wedi cael eu diswyddo neu wedi ymddeol yn gynnar.

- Os bydd staff sy'n gymwys i ymddeol yn gynnar yn gwneud hynny, mae'r Gronfa dan rwymedigaeth gontract i fodloni rhai cyfraniadau pensiwn penodol nes bod y staff hyn yn cyrraedd eu dyddiad ymddeol statudol. Darperir amcangyfrif o'r cyfraniadau hyn ar gyfer y dyfodol. Bydd taliadau yn erbyn y ddarpariaeth hon yn parhau am hyd at ddeng mlynedd.
- Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer costau diswyddo amcangyfrifedig y staff hynny y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi bod yn ymgynghori â hwy cyn 31 Mawrth 2010 ond nad oes setliad wedi'i dalu erbyn y dyddiad hwnnw. Gwneir taliadau diswyddo'n unol â threfniadau a thelerau contract a amlinellir yn nhrefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu dros y ddwy flynedd hyd at 2012.
- Darparwyd costau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu cefnogaeth i staff sy'n cael eu diswyddo.

## 17. Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu (ymrwymiadau caled)

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau Caled** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2009 | | 1,306,714 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 440,222 | |
| Ymrwymiadau di-rym neu wedi'u diddymu | (20,747) | |
| Ymrwymiadau grant a fodlonwyd | (603,748) | |
| Symudiad net mewn ymrwymiadau caled | | (184,273) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2010** | | 1,122,441 |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2008 | | 1,365,394 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 526,499 | |
| Ymrwymiadau di-rym neu wedi'u diddymu | (27,656) | |
| Ymrwymiadau grant a fodlonwyd | (557,523) | |
| Symudiad net mewn ymrwymiadau caled | | (58,680) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2009** | | 1,306,714 |

## Ymrwymiadau caled sy'n heneiddio

Mae balans yr ymrwymiad caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus i dderbynyddion yn ystod y cyfnodau a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2010<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2009<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2008<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu o fewn un flwyddyn | 471,842 | 625,113 | 640,926 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu dros fwy nag un flwyddyn | 650,599 | 681,601 | 724,468 |
| | 1,122,441 | 1,306,714 | 1,365,394 |

Mae'r balansau a ganlyn sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'u cynnwys yn y symiau uchod.

| | Ar 31 Mawrth 2010<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2009<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2008<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff eraill y Llywodraeth | 27,563 | 25,735 | 35,836 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff awdurdodau lleol | 287,096 | 280,411 | 424,678 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i sefydliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 76,484 | 73,059 | 85,125 |

# Nodiadau'r cyfrifon

## 18. Ymrwymiadau meddal

Mae ymrwymiadau meddal yn cynrychioli cynigion grant nad ydynt wedi'u derbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig eto gan yr ymgeisydd. Gan hynny, nid yw'r cynigion hyn yn cael eu cydnabod fel ymrwymiad ariannol o fewn y cyfrifon hyn.

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau meddal** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2009 | | 83,318 |
| Ymrwymiadau meddal a wnaed | 422,742 | |
| Ymrwymiadau meddal di-rym neu wedi'u diddymu | (2,659) | |
| Ymrwymiadau meddal a drosglwyddwyd i ymrwymiadau caled | (440,222) | |
| Symudiad Net mewn ymrwymiadau meddal | | (20,139) |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2010 | | 63,179 |

## 19. Cynlluniau ar y cyd

**Active England**
Mae gwerth £1.5 miliwn (2008/09 £2.8 miliwn) o ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth yn cynrychioli cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr at grantiau a wnaed fel rhan o'r cynllun Active England ar y cyd. Bydd y Gronfa'n cyfrannu £77.5 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £107 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb.

**Arian i Bawb Lloegr**
Daeth y cynllun hwn i ben ar 31 Mawrth 2009 ac ni wnaed unrhyw ymrwymiadau newydd ar ôl y dyddiad hwn; yn 2008/09 gwnaed gwerth £36.9 miliwn o ymrwymiadau grant newydd. Mae'r holl ymrwymiadau grant wedi'u bodloni erbyn 31 Mawrth 2010 (yn 2008/09 roedd y cyfrifon yn cynnwys gwerth £2.2. miliwn o ymrwymiadau dyledus. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb).

**Parks for People**
Mae gwerth £23.8 miliwn o ymrwymiadau grant newydd (2008/09 £25.9 miliwn) wedi'i gynnwys o fewn ymrwymiadau caled; ac mae ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth yn cynnwys gwerth £42.2 miliwn (2008/09 £27.1 miliwn) sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr at y cynllun Parks for People ar y cyd. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu hyd at £80 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £140 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb.

## 20. Cysoni incwm a gwariant i'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn a ddaeth i 31 Mawrth 2010 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged ar gyfer y cyfnod | 104,622 | 40,806 |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 745 | 848 |
| Dibrisio gwaredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 2 | |
| Amahriad asedau anniriaethol | 1,326 | - |
| Gwarged wedi'i addasu ar gyfer trafodion anariannol | 106,695 | 41,654 |
| (Cynnydd) mewn masnachu ac arian arall a dderbynnir | (9,372) | (481) |
| Gostyngiad yn y balans NLDF | 70,977 | 32,756 |
| (Gostyngiad) mewn masnachu ac arian arall a dderbynnir | (1,322) | (350) |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 2,401 | 2,225 |
| (Gostyngiad) mewn darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant | (184,273) | (58,679) |
| **(All-lif)/mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | (14,894) | 17,125 |

## 21. Risgiau ariannol

**Risgiau hylifedd**
Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, daeth £740 miliwn (93 y cant) o incwm y Gronfa Loteri Fawr o'r Loteri Genedlaethol. Daeth gweddill yr incwm o ddychweliadau buddsoddi ar y balans a ddelir gyda'r NLDF, sef £4 miliwn (1 y cant) ac o log banc ac incwm arall, sef £47 miliwn (6 y cant).

Ar 31 Mawrth 2010, roedd gan y Gronfa Loteri Fawr ymrwymiadau net o £630 miliwn ac ymrwymiadau meddal o £63 miliwn. Er bod gan y Gronfa Loteri Fawr ymrwymiadau net, nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod y Gronfa mewn perygl o wynebu risgiau hylifedd sylweddol gan na fydd llawer o'r ymrwymiadau yn cael eu talu tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Ni all deiliaid grantiau dynnu arian i lawr hyd nes iddynt brofi'r angen am dderbyn y gyfran nesaf o'r arian grant sydd wedi'i ddyrannu iddynt. Oherwydd y gwahaniaethau amseru hyn rhwng y dyddiad mae'r deiliad grant yn derbyn y cynnig grant a'r dyddiadau y maent yn tynnu'r arian hwn i lawr, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn annog y Gronfa Loteri Fawr i gorymrwymo'r arian sydd ar gael.

| | £'m |
|---|---|
| **Asedau hylif ar 31 Mawrth 2010** | |
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 474 |
| Arian parod | 13 |
| | 487 |
| **Rhagamcaniad o lifoedd arian yn ystod 2010/11** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 732 |
| Llai trosglwyddiad i Gemau Olympaidd Llundain 2012 | (172) |
| Incwm arall | 15 |
| Taliadau costau gweithredu | (66) |
| Taliadau grant | (591) |
| **Rhagfynegiad o dreuliau net** | (82) |
| **Rhagfynegiad o asedau hylifol ar 31 Mawrth 2011** | 405 |

Mae'r rhagfynegiadau incwm yn seiliedig ar ragamcaniadau a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r rhagamcaniad o daliadau grant yn seiliedig ar broffiliau tynnu i lawr disgwyliedig a luniwyd ar 31 Mawrth 2010.

**Risgiau cyfraddau llog**
Buddsoddir balansau ariannol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Fel y nodir yn Nodyn 1.3, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi arian yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn cael ei reoli gan y Comisiynwyr Dyledion Cenedlaethol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gwerth marchnad y buddsoddiad yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £474 miliwn. Yn ystod y flwyddyn, 0.58 y cant ar gyfartaledd oedd yr elw ar y buddsoddiadau hyn.

Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol â chyfradd llog o 0.15 y cant ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £13 miliwn. Nid yw'r Bwrdd yn credu bod y Gronfa Loteri Fawr yn wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â chyfraddau llog.

**Risgiau arian tramor**
Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn wynebu unrhyw risgiau sylweddol o ran arian tramor.

**Risg credyd**
Mae unig offerynnau ariannol y Gronfa Loteri Fawr yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig y Gronfa Loteri Fawr ac felly mae'r Gronfa'n agored i ychydig iawn o risg o ganlyniad i gredyd neu'r marchnadoedd.

# Nodiadau'r cyfrifon

## 22. Ymrwymiadau ariannol

**Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA)**
Yn 2005/06 cytunodd y Senedd i ddarparu ariannu ychwanegol i NESTA. Mae swm o £15 miliwn yn cael ei drosglwyddo o incwm NLDF a ddyrennir i'r Gronfa Loteri Fawr am gyfnod o 5 mlynedd gan gychwyn ar 31 Mawrth 2006. Gwnaed y taliad terfynol ar 31 Mawrth 2010.

**Trosglwyddiad y Gemau Olympaidd**
Yn 2007/08 cytunodd Senedd y DU i drosglwyddo hyd at £1,085 miliwn o'r NLDF i Gronfa Ddosbarthu Gemau Olympaidd y Loteri i dalu am rai o gostau cynnal y gemau yn 2012. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i gyfrannu hyd at £638 miliwn rhwng mis Chwefror 2009 a mis Awst 2012 mewn rhandaliadau chwarterol.

**Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu**
Rhoddir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod:

| | Ar 31 Mawrth 2010 £'000 | Ar 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **Prydlesi eiddo a ddelir fel daliwr prydles:** | | |
| Heb fod yn fwy na blwyddyn | 6,493 | 6,595 |
| Mwy na blwyddyn a heb fod yn fwy na 5 mlynedd | 25,369 | 25,680 |
| Mwy na 5 mlynedd | 35,026 | 40,947 |
| | 66,888 | 73,222 |
| **Prydlesi eiddo lle mai ni sy'n dal y brydles:** | | |
| Heb fod yn fwy na blwyddyn | 1,584 | 1,381 |
| Mwy na blwyddyn a heb fod yn fwy na 5 mlynedd | 5,168 | 4,723 |
| Mwy na 5 mlynedd | 1,050 | 1,625 |
| | 7,802 | 7,729 |

Fel a amlinellir ym mholisi cyfrifo 1.7 ni ellir rhannu prydlesi'n ddibynadwy rhwng tir ac adeiladau ond mae'r ddwy elfen yn brydlesi gweithredu.

## 23. Cynllun pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweithwyr fod mewn un o bedwar cynllun buddiant diffiniedig; naill ai gynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau gweithwyr ar gyfradd o 1.5 y cant o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a 3.5 y cant ar gyfer y cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Mae manteision y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae manteision y cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae classic plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod eu haelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â'r RPI. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogydd o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogydd gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2009/10, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr o £4,937,000 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2008/09 £4,829,000) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediadau a nodir isod. Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn sgil gwerthusiad llawn. Cynhaliwyd y prisiad diweddaraf gan Hewitt Bacon a Woodrow ar 31 Mawrth 2007. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae cyfraddau 2009/10 wedi cael eu gostwng ar sail argymhellion gan yr Actwari.

| **Bandiau** | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010** |
|---|---|
| £20,500 a llai | 16.7% |
| £20,501 - £42,000 | 18.8% |
| £42,001 - £72,000 | 21.8% |
| £72,001 a mwy | 24.3% |

| **Bandiau** | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009** |
|---|---|
| £19,501 a llai | 17.1% |
| £19,501 - £40,500 | 19.5% |
| £40,501 - £69,000 | 23.2% |
| £69,001 a mwy | 25.5% |

## 24. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion y prosiect wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2010 rydym wedi dileu colledion o £1,428,863, gan gynrychioli 132 o ddyfarniadau. (2008/09 £1,362,428 gan gynrychioli 89 o ddyfarniadau). Cafwyd un dilead uwchben £100,000, y rhoddir manylion amdano isod.

| | |
|---|---|
| Jibcraft | £233,960 |

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i sefydliad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2010 gwnaed 19 o daliadau arbennig o £86,952 (2008/09 £52,536 gan gynrychioli naw dyfarniad) mewn perthynas â thrafodion grant.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2010 penderfynwyd peidio â derbyn y datrysiad glasbrint gwreiddiol ar gyfer datblygu'r system rheoli ariannu newydd. Amlinellir goblygiadau'r penderfyniad hwn ar werth cario mewn asedau anniriaethol ein meddalwedd system ariannu yn nodyn 9. Yn unol â safonau cyfrifo mae gwerth yr ased diriaethol wedi cael ei amharu £1.3 miliwn.

# Nodiadau'r cyfrifon

## 25. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cwblhau amrywiaeth o drafodion materol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai'r adran noddi ar eu cyfer yw DCMS: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England, Cyngor Celfyddydau Lloegr a Dosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a secondio staff i mewn. Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli Arian i Bawb a rhentu swyddfeydd. Gwnaed taliadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England ar gyfer eu gwasanaethau o ran cynnal rhaglenni grantiau ar y cyd (Nodyn 19).

Yn ogystal, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cwblhau nifer o drafodion materol gydag Adrannau'r Llywodraeth a chyrff sy'n ystyried bod adrannau eraill y Llywodraeth yn eu noddi:

- Mae Natural England, a noddir gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn derbynnydd dyfarniad grant
- Mae Highlands and Islands Enterprise, a noddir gan Weinidogion yr Alban, yn cyflwyno rhaglen grant ar ein rhan
- Cyllid a Thollau EM mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol
- Mae'r Adran Addysg wedi contractio rheolaeth y rhaglen grant ***myplace*** i'r Gronfa Loteri Fawr
- Mae'r Swyddfa Cymdeithas Ddinesig wedi contractio rheolaeth y rhaglen grant Asedau Cymunedol i'r Gronfa Loteri Fawr.

### Aelodau Bwrdd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn glynu wrth gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a threfn, mae Aelodau Bwrdd yn cadw cofrestri buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn datgan unrhyw fudd uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa Loteri Fawr a pherthnasoedd masnachol gyda'r Gronfa.

Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellir ystyried yn rhesymol y byddent yn arwain at wrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod pwyllgor yn gadael yn ystod unrhyw drafodaeth o'r eitem dan sylw. Mae gweithdrefnau'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grant yn ymwneud â phrosesu ceisiadau y mae ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd wedi datgan buddiannau mewn cyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa fuddion busnes anfaterol gyda nhw. Datgelir y rhain ar dudalen 49 yr Adroddiad Blynyddol.

## 26. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan, ac ar ran Dosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa Loteri Fawr o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Nid yw'r balansau hyn wedi'u cynnwys o fewn cyfrifon y Gronfa ei hun.

Ar 31 Mawrth 2009 cadwyd y balansau banc canlynol ar ran trydydd partïon:

| | 31/03/09 £ | Mewnlif £ | All-lif £ | 31/03/2010 £ |
|---|---|---|---|---|
| Yr Adran Addysg rhaglen ***myplace*** | 958,314 | 30,017,328 | (24,580,744) | 6,394,898 |
| Y Swyddfa Cymdeithas Ddinesig; y rhaglen Asedau Cymunedol | 10,078 | 16,063,372 | (16,072,496) | 954 |
| Cyngor Celfyddydau Lloegr; Arian i Bawb Lloegr a rhaglen West Midlands Community Buildings | 634,020 | 91,381 | (636,772) | 88,629 |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri; Arian i Bawb Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon | 437,895 | 148,932 | (485,145) | 101,682 |
| Sport England; rhaglen West Midlands Community Buildings | 38,215 | 396,224 | (379,986) | 54,453 |
| Cyngor Celfyddydau'r Alban; Arian i Bawb | 83,691 | 473,902 | (515,734) | 41,859 |
| sportscotland; Arian i Bawb | 102,057 | 840,654 | (942,711) | - |
| Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon | 29,798 | 12,008 | (36,113) | 5,693 |
| Dosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd | 17,330 | 382,584,548 | (382,575,594) | 26,284 |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | 1,165,897 | 2,596,468 | (2,916,262) | 846,103 |

# Adran saith
## Ein cefndir statudol

### Cyfarwyddiadau polisi

Rhoddir y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan y Ddeddf i roi Cyfarwyddiadau i'r materion i'w hystyried wrth ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth ddosbarthu arian. Ar ôl ymgynghoriadau rhwng y Llywodraeth a'r Gronfa Loteri Fawr, cytunwyd ar set o themâu, canlyniadau a blaenoriaethau, a oedd yn caniatáu datblygu polisïau a rhaglenni ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr drwy'r trefniadau uno gweinyddol a ddaeth a'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ynghyd fel y Gronfa Loteri Fawr. Yn ystod 2005/06, cyhoeddwyd Cyfarwyddiadau Polisi newydd i alluogi i'r Gronfa Gymunedol gefnogi'r ystod newydd o raglenni ariannu o fewn ei phwerau cyfreithiol newydd, yn benodol y gallu i ddosbarthu grantiau trawsnewidiol. Cyhoeddwyd y Cyfarwyddiadau hyn ym mis Tachwedd 2006 ar ôl sefydlu'r Gronfa Loteri Fawr. Amlinellir y rhain isod.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol 2008/09 ym mhob agwedd berthnasol.

### Lloegr a'r DU

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB 1993.**

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr, gwariant datganoledig Ynys Manaw a gwariant grant trawsnewidiol, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**Dd.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Grantiau Trawsnewidiol

**3.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant grant trawsnewidiol, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian dros amser i brosiectau ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig.

**B.** Yr angen i arian gael ei ddosbarthu at ddibenion gwariant cyfalaf ar brosiectau a dim ond ei ddosbarthu fel arall os yw'r arian:

(i) yn cael ei ddosbarthu at ddibenion gwaddolion neu ar ffurf grantiau refeniw lle fo:

a) gwaddolion neu grantiau o'r fath yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf, y mae arian wedi'i ddosbarthu neu bwriadir dosbarthu arian mewn perthynas â hwy; a

b) gwaddolion neu grantiau o'r fath yn cefnogi cyflwyno canlyniadau'r prosiect, cynyddu hygyrchedd, lleihau rhwystrau at fynediad a sicrhau bod prosiectau o'r fath yn gynaliadwy; neu

(ii) yn cael ei ddosbarthu ar gyfer arian datblygu i brosiectau yr aseswyd eu bod yn addas ar gyfer eu hariannu.

**C.** Yr angen am drawsnewid ac adfywio cymunedau a'r amgylchedd corfforol.

**Ch.** Yr angen am gyfranogiad cyhoeddus eang wrth benderfynu dyfarnu grantiau sy'n:

(i) cynnwys ymgynghori, systemau pleidleisio neu fecanweithiau addas eraill;

(ii) rhydd rhag rhagfarn, llygredd a thriniaeth; ac sy'n

(iii) cynnwys partneriaethau gyda chyfryngau darlledu, electronig, print ac eraill.

# Adran saith

## Gwariant Datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw

**4.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant

datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau fod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau gyda chanolfan yn Lloegr ac sy'n gweithio dramor.

**B.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa dros amser yn dosbarthu arian yn weddol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen am ystyried buddion Lloegr cyfan, buddion gwahanol rannau o Loegr a meintiau poblogaeth cymharol wahanol rannau o Loegr a'r sgôp i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o fewn gwahanol rannau o Loegr.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw bydd y Gronfa yn ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau y bwriedir iddynt gyflawni un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** Gwell cyfle mewn bywyd i bobl, gyda gwell mynediad at hyfforddiant a datblygiad i wella eu sgiliau bywyd.

**B.** Cymunedau cryfach, gyda dinasyddion mwy gweithredol, yn cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'u problemau.

**C.** Amgylchiadau gwledig a threfol wedi'u gwella, y mae cymunedau yn gallu cael gwell mynediad atynt a'u mwynhau.

**Ch.** Pobl a chymunedau iachach a mwy gweithredol.

**6.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Gwella sgiliau teuluol.

**B.** Gwella llythrennedd, rhifedd, TGCh a sgiliau creadigol.

**C.** Datblygu sgiliau defnyddwyr, gan gynnwys rheoli cyllid a dyledion.

**Ch.** Datblygu sgiliau busnes sylfaenol, yn benodol ar gyfer menter gymdeithasol a chreadigol.

**D.** Cael gwared ar rwystrau at gyflogadwyedd a datblygu cyflogadwyedd, gan gynnwys drwy wella sgiliau cyfathrebu a datrys problemau.

**Dd.** Datblygu sgiliau bywyd, gan gynnwys sgiliau sy'n helpu i wella annibyniaeth bersonol a rhyngweithio ag eraill.

**E.** Cefnogi anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr.

**F.** Dathlu hunaniaeth gymunedol, diwylliant, amrywiaeth a llwyddiannau.

**Ff.** Cryfhau isadeiledd y sector gwirfoddoli a gwirfoddol.

**G.** Meithrin gallu ar gyfer ymglymiad cymunedol.

**Ng.** Ehangu ar brofiadau plant a phobl ifanc a chodi disgwyliadau.

**H.** Lleihau unigedd, er enghraifft ar gyfer pobl hŷn, pobl anabl a'u gofalwyr, a galluogi iddynt gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a theuluol.

**I.** Cefnogi dinasyddiaeth, arweinyddiaeth a chynllunio a chyflwyno lleol

**L.** Sicrhau mannau mwy diogel, yn rhydd rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd.

**Ll.** Mannau cyhoeddus a chelf gyhoeddus wedi'u cynllunio'n dda, sy'n lân ac yn cael eu cadw'n dda.

**M.** Cynyddu defnydd y cyhoedd o barciau lleol, cyfleusterau chwarae, mannau cyhoeddus, adeiladau cymunedol a chefn gwlad.

**N.** Galluogi i gymunedau fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lleol a gwella eu hamgylchedd lleol.

**O.** Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy brosiectau addysgol.

**P.** Cynyddu cyfranogiad cymunedol mewn chwaraeon, dawns, chwarae a gweithgaredd corfforol a chreadigol.

**Ph.** Datblygu gwell ymdriniaethau tuag at fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys drwy addysg, ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r celfyddydau.

**R.** Gwella cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iachach a hyrwyddo perthynas rhwng dulliau cynhyrchu a'r amgylchedd.

**Rh.** Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy brosiectau addysgol a gwybodaeth.

Llofnodwyd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

## Yr Alban

### CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB. 1993

Trwy hyn mae Gweinidogion yr Alban, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr (“y Gronfa”) ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig yr Alban bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, i ba ddiben a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesiad wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau yn daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

# Adran saith

**Dd.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn

bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr yn cyd-fynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**G.** Dymunoldeb gweithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig Yr Alban

**3.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; cefnogi mwy o degwch yn Yr Alban wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy'n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy.

**B.** Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian i fynd i'r afael â blaenoriaethau mynd i'r afael ag anfantais, datblygu lles ac ymdrin ag anghydraddoldeb; gan sicrhau ar yr un pryd lledaeniad helaeth o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol, mentrau a sefydliadau cymdeithasol sydd â chanolfan yn Yr Alban ac sy'n gweithio tramor.

**C.** Yr angen am ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban.

**Ch.** Yn olaf, yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

Y flaenoriaeth o fynd i'r afael ag anfantais a'r angen am ymdrin ag anghydraddoldeb.

**4.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

**A.** MWY CALL: Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd.

**B.** MWY CRYF A MWY DIOGEL: Cymunedau sy'n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb.

**C.** MWY GWYRDD: Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

**Ch.** MWY IACH: Pobl a chymunedau mwy iach.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

**A.** YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.

**B.** UNDOD A CHYDLYNIANT – sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy'n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.

**C.** CYNALADWYEDD – gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

**Ch.** YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni cydweddu â strategaethau a gweithgareddau partneriaid a budd-ddeiliaid ac ychwanegu gwerth atynt.

**D.** CYDWEITHIO – lle bo'n bosib dylai canlyniadau prosiectau a rhaglenni elwa o gydweithio effeithiol rhwng sefydliadau a rhwng partneriaid cyhoeddus a phreifat a'r rhai yn y trydydd sector.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Yr Alban gan John Swinney, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Thwf Cynaliadwy, aelod o Lywodraeth Yr Alban, Gorffennaf 2009.

# Adran saith

## Cymru

### CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB. 1993

Trwy hyn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(a) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud a'r telerau a'r amodau y mae'r Gronfa yn eu defnyddio wrth ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys rhoi grym i egwyddor cydraddoldeb rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Dylid cyflawni hyn drwy gynnwys amodau penodol ar iaith mewn grantiau a monitro a goruchwylio perfformiad derbynyddion grantiau yn ymwneud â'r amodau hynny.

**D.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**Dd.** Yr angen am osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**E.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**F.** Y dymunoldeb o weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**Ff.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**G.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**Ng.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**H.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**I.** Yr angen am sicrhau ymdriniaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn gweithio'n agos gyda phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddi gorau er budd cymunedau ar draws Cymru. Lle fo'n briodol dylid defnyddio profiadau sefydliadau eraill er mwyn cyfoethogi datblygu a chyflwyno dulliau ariannu.

## Gwariant Datganoledig Cymru

**3.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau neu'n rhoi benthyciadau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau, a'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud a'r telerau a'r amodau y mae'r Gronfa yn eu defnyddio wrth ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen am sicrhau fod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny a oedd yn gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau gyda chanolfan yng Nghymru ac sy'n gweithio dramor.

**B.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa dros amser yn dosbarthu arian yn weddol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen am ystyried buddiannau Cymru gyfan, buddiannau gwahanol rannau o Gymru a meintiau poblogaeth cymharol wahanol rannau o Gymru a'r sgôp i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o fewn gwahanol rannau o Gymru, a'r angen am annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus, drwy gydweithio, i gyflwyno canlyniadau gwasanaeth gwell i ddinasyddion.

# Adran saith

**4.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru bydd y Gronfa yn ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau y bwriedir iddynt gyflawni un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** pobl o bob oed yn cael eu cyfarparu â'r sgiliau a'r ddysg i fodloni heriau cymdeithas fodern;

**B.** pobl yn cydweithio ar gyfer cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol; a

**C.** phobl a chymunedau iachach a mwy gweithredol yn gorfforol.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu cymunedol a sgiliau bywyd effeithiol;

**B.** pobl yn cydweithio ar gyfer cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddau gwledig a threfol gwell; a

**C.** rhoi'r grym i gymunedau ddatblygu a chyflwyno rhaglenni adfywio lleol;

**Ch.** datblygu ymatebion cymunedol adeiladol tuag at anfodlonrwydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd;

**D.** galluogi i bobl hŷn fyw bywydau annibynnol a chyfrannu at eu cymunedau;

**Dd.** galluogi i gymunedau reoli a chyfoethogi eu hamgylchedd a chyfleusterau lleol;

**E.** datblygu gallu pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain yn unol ag egwyddorion gwaelodol Her Iechyd Cymru, sy'n annog unigolion a sefydliadau i wella iechyd yng Nghymru;

**F.** hyrwyddo bwyta'n iachach a chynyddu gweithgaredd corfforol ar draws pob oed, rhyw a grŵp cymdeithasol;

**Ff.** datblygu ymdriniaethau newydd tuag at hyrwyddo iechyd a lles meddyliol.

## Gogledd Iwerddon

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB. 1993**

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, i ba ddiben a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau yn daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**Dd.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos hyfywdra ariannol y prosiect ar gyfer cyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau bod proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr yn cydfynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

# Adran saith

## Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon

**4.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, i ba ddiben a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau fod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau gyda chanolfan yng Ngogledd Iwerddon ac sy'n gweithio dramor.

**B.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa dros amser yn dosbarthu arian yn weddol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen am ystyried buddiannau Gogledd Iwerddon cyfan, buddiannau gwahanol rannau o Ogledd Iwerddon a meintiau poblogaeth cymharol wahanol rannau o Ogledd Iwerddon a'r sgôp i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o fewn y rhannau hynny.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon bydd y Gronfa yn ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau y bwriedir iddynt gyflawni un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** Cyfle i bobl gyflawni eu llawn botensial

**B.** Pobl yn gallu cyfranogi'n weithredol yn eu cymunedau er mwyn cyflwyno newidiadau positif

**C.** Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol sy'n well ac yn fwy diogel

**Ch.** Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb

**6.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Gwella sgiliau hanfodol i fodloni anghenion cymdeithasol ac economaidd

**B.** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y Gymuned

**C.** Meithrin gallu cymunedol

**Ch.** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a chysylltu o fewn cymunedau a rhwng cymunedau

**D.** Meithrin partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol

**Dd.** Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol

**E.** Cynyddu ymglymiad y gymuned wrth ddiogelu, adfer a chynnal amgylchedd trefol a gwledig

**F.** Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw iachach

**Ff.** Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigol a chymunedol

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon

## CYFARWYDDIADAU ARIANNOL

Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol a amlinellir isod yn berthnasol ar draws ein holl weithgareddau ym mhedair gwlad y DU. Rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn trwy weithredu gweithdrefnau ar draws y sefydliad i sicrhau bod Datganiad o Ofynion Ariannol yn cael eu dilyn. Rydym yn cynnal gwasanaeth archwilio mewnol i wirio ar sail samplu bod yr holl swyddogion ac adrannau yn cadw at y gweithdrefnau cytûn, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dogfennu a'u lledaenu'n briodol. Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol llawn ar gael o Gyfarwyddwr Polisi a Phartneriaethau'r Gronfa Loteri Fawr.

Y Cyfarwyddiadau Ariannol a ddosbarthwyd i'r Gronfa Loteri Fawr o dan Adran 26(3), (3A) & (4) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998) ac a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2006 oedd:

- Y Gronfa Loteri Fawr yw enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, sy'n cydweithio yn unol â chyfuniad gweinyddol ym mis Mehefin 2006.
- Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ofynion Ariannol ynghlwm sydd â statws cyfarwyddiadau o dan adran 26 Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993, fel y'i diwygiwyd ("y Ddeddf"). Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol yn ychwanegol at, a dylid ei ddarllen ar y cyd â, Datganiad Rheoli'r Gronfa Loteri Fawr, sy'n ymdrin â materion llywodraethu a rheoli corfforaethol.

Mae cyfeirio at y Gronfa Loteri Fawr yn y ddogfen hon yn cyfeirio at Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Llofnodwyd drwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

# Atodiad
## Ein grantiau mawr

Yn ystod 2009/10 ni wnaed unrhyw ddyfarniadau newydd o £5 miliwn neu fwy. Serch hynny cafwyd cynnydd uwchben £5m yng ngwerth tri grant Strategol Rhyngwladol a ddyfarnwyd yn 2008/09, fel rhan o'n hymateb i'r dirwasgiad. Parhawyd â rheoli 37 o grantiau gwerth £5 miliwn neu fwy a ddyfarnwyd yn y gorffennol. Yn yr atodiad hwn, crynhown gynnydd pob un o'r prosiectau hyn.

## Portffolio y DU

### Rhaglen ryngwladol

**Sefydliad:** **Helpage International**
**Enw'r cynllun grant:** **Preventing HIV/AIDS & Alleviating its impact in Multigenerational Households**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£5,110,820**

Nod y portffolio hwn o naw prosiect ar draws Dwyrain a De Affrica yw ymdrin ag anghenion pobl hŷn, pobl sy'n byw gyda HIV/AIDS, a Phlant Amddifaid a Bregus sy'n byw mewn aelwydydd aml-genhedlaeth lle mai aelodau hŷn y teulu sydd â'r baich gofalu am y teulu oherwydd salwch neu farwolaeth y genhedlaeth ganol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/2008 ac yn 2009/2010 cymeradwywyd cynnydd yn y grant fel rhan o becyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grantiau rhyngwladol sy'n cael eu heffeithio gan y dirywiad economaidd byd-eang. Erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £1,750,023. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2013.

**Sefydliad:** **Care International**
**Enw'r cynllun grant:** **Enhancing Mobile Populations' Access to HIV/AIDS Services, Information & Support**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£ 5,102,419**

Nod y portffolio pum mlynedd hwn o brosiectau yw datblygu model o weithio gyda phoblogaethau mudol wedi'u hymyleiddio sy'n agored i HIV/AIDS ar lwybrau mudoledd uchel rhwng Bangladesh, India a Nepal.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2008/2009 ac yn 2009/2010 cymeradwywyd cynnydd yn y grant fel rhan o becyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grantiau rhyngwladol sy'n cael eu heffeithio gan y dirywiad economaidd byd-eang. Erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £566,017. Disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Awst 2014 .

**Sefydliad:** **Coleg y Brifysgol Llundain – Sefydliad Iechyd Plant**
**Enw'r cynllun grant:** **Improving maternal, newborn and child health in low-income countries**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£5,168,087**

Nod y portffolio pum mlynedd hwn o brosiectau yw lleihau marwolaeth ymysg mamau a phlant mewn ardaloedd gwledig a dargedir yn Bangladesh ac India drwy wella arferion gofal cartref megis bwydo ar y fron yn gynnar a defnyddio citiau esgor diogel, a chynyddu gofal iechyd i fenywod beichiog a babanod drwy leihau oedi wrth geisio gofal a'i chyrraedd.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/2008 ac yn 2009/2010 cymeradwywyd cynnydd yn y grant fel rhan o becyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grantiau rhyngwladol sy'n cael eu heffeithio gan y dirywiad economaidd byd-eang. Erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £1,859,379. Disgwylir y bydd y portffolio hwn o brosiectau wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2013.

### Creu Cof Byw

**Sefydliad:** **Sustrans**
**Enw'r cynllun grant:** **Connect2**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£49,980,908**

Nod y prosiect yw cysylltu pobl â'i gilydd ac â lleoedd drwy fynd i'r afael ag achosion 'gwahanu' o fewn cymunedau, megis ffyrdd a rheilffyrdd prysur sy'n gwneud teithio o un lle i'r llall yn anoddach.

Dyfarnwyd y grant yn 2007/08, ac erbyn 31 Mawrth 2010, roeddem wedi talu £4,596,802 i'r derbynnydd. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn 2015.



# Atodiad

**Sefydliad:** Cyngor Falkirk
**Enw'r cynllun grant:** The HELIX 'creating living connections'
**Grant a ddyfarnwyd:** £25,000,000

Mewn lleoliad rhwng Falkirk a Grangemouth, bydd y prosiect yn creu cyswllt camlas newydd, peiriant codi cychod 'Kelpie', canolbwynt camlesi a pharc 'Helics' newydd.

Dyfarnwyd y grant yn 2007/08, ac erbyn 31 Mawrth 2010, roeddem wedi talu £1,151,677 i'r derbynnydd. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2013.

**Sefydliad:** Cyngor Cernyw
**Enw'r cynllun grant:** Cornwall's Heartlands Project
**Grant a ddyfarnwyd:** £22,297,272

Bydd y prosiect yn trawsnewid safle tir llwyd 7.5 hectar yn Pool, gan gynnwys 4.5 hectar o dir segur a Robinson's Shaft, grŵp o adeiladau mwyngloddio rhestredig, i greu rhwydwaith o fannau gwyrdd a chyfleusterau amlddefnydd.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £6,302,852. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2012.

**Sefydliad:** Partneriaeth Greater East Belfast
**Enw'r cynllun grant:** Connswater Community Greenway
**Grant a ddyfarnwyd:** £23,531,285

Bydd y prosiect yn creu parc llinol drwy Ddwyrain Belfast gan ddilyn llwybr Afon Connswater a'i llednentydd, Afon Loop ac Afon Knock. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £552,496 i'r derbynnydd. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2015.

## Portffolio Lloegr

### Advice Plus

**Sefydliad:** The Advice Services Alliance
**Enw'r cynllun grant:** Working Together for Advice
**Grant a ddyfarnwyd:** £5,714,742

Nod y prosiect yw datblygu portffolio o wasanaethau cefnogi ar gyfer y sector cyngor annibynnol. Bydd hyn yn cynnwys wyth llinyn sy'n ymwneud â gwaith a fydd yn gwella ansawdd cyngor a'i gyflwyniad, mynediad i gyngor ac ymwybyddiaeth a gwerthusiad o ganlyniadau cyngor ar gyfer y sector cyngor annibynnol dros dair blynedd.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £5,086,661. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2010.

### BASIS

**Sefydliad:** Cyngor Ffoaduriaid Prydain
**Enw'r cynllun grant:** RCO Infrastructure Building Prosiect- Realising Potential
**Grant a ddyfarnwyd:** £5,078,472

Bydd y prosiect hwn yn sefydlu cefnogaeth isadeiledd ar draws Lloegr ar gyfer cyflwyno cefnogaeth ac adeiladu gallu i Sefydliadau Cymunedol Ffoaduriaid (RCO). 400

Bydd 400 RCO yn elwa o gyngor ar eu datblygiad, eu cynaladwyedd, eu llywodraethu a'u rheolaeth.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £2,813,301. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn 2012.

### Changing Spaces

**Sefydliad:** Building Research Establishment Ltd
**Enw'r cynllun grant:** The Community Sustainable Energy Programme
**Grant a ddyfarnwyd:** £11,661,838

Yn dyfarnu grantiau i sefydliadau cymunedol nid er elw ar gyfer gosod technolegau microgynhyrchu trydan megis tyrbinau gwynt a phaneli solar, ynghyd â mesurau arbed ynni.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £1,060,044. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2012.

**Sefydliad:** Groundwork
**Enw'r cynllun grant:** Community Spaces
**Grant a ddyfarnwyd:** £57,500,000

Mae Groundwork yn defnyddio'r ariannu i ddyfarnu grantiau i grwpiau cymunedol nid er elw i greu gwell amgylcheddau lleol a chynyddu mynediad i fannau agored. Gwella mannau gwyrdd lleol a chynyddu nifer y bobl sy'n ymwneud yn weithredol â datblygu a rhedeg prosiectau amgylcheddol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £15,194,523. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2014.

**Sefydliad:** Natural England
**Enw'r cynllun grant:** Access to Nature
**Grant a ddyfarnwyd:** £28,750,000

Mae Natural England yn defnyddio'r ariannu i ddyfarnu grantiau i sefydliadau'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a chyhoeddus i weithio gyda phobl nad oes ganddynt lawer o wybodaeth am natur neu gyswllt â hi. Mae'r prosiectau'n annog pobl i ddysgu am yr amgylchedd naturiol a chynigir prosiectau hefyd sy'n creu/gwella mannau bywyd gwyllt i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £3,522,260. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2013.

**SSefydliad:** Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
**Enw'r cynllun grant:** Local Food
**Grant a ddyfarnwyd:** £57,500,000

Mae'r Gymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn defnyddio'r ariannu i wneud dyfarniadau i grwpiau cymunedol nid er elw ar gyfer prosiectau sy'n rhoi'r cyfle i bobl dyfu a phrynu bwyd yn lleol drwy, er enghraifft, rhandiroedd a chynlluniau blychau. Nod y prosiectau yw ysgogi gweithgarwch economaidd drwy ddatblygu mentrau cymdeithasol sy'n ymwneud â bwyd lleol ac yn hyrwyddo'r cysylltiad rhwng bwyd a ffyrdd iach o fyw.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £8,308,022. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2014.

**Sefydliad:** MIND
**Enw'r cynllun grant:** Ecominds
**Grant a ddyfarnwyd:** £8,886,126

Mae MIND yn defnyddio'r ariannu i wneud dyfarniadau i grwpiau cymunedol nid er elw ar gyfer prosiectau sy'n integreiddio defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl i'r gymuned.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2008/09 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £1,571,219. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2013.

**Sefydliad:** The Crime Concern Trust Ltd
**Enw'r cynllun grant:** Community Space Challenge
**Grant a ddyfarnwyd:** £8,372,839

Mae Crime Concern Trust yn darparu amrywiaeth o brosiectau amgylcheddol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu. Mae'r prosiectau'n cynnwys pobl leol wrth wella eu cymdogaethau, gan roi ymdeimlad o falchder yn eu cymuned iddynt.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £3,626,405. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2012.

**Sefydliad:** Imperial College
**Enw'r cynllun grant:** Open Air Laboratories Network
**Grant a ddyfarnwyd:** £13,022,441

Mae'r rhwydwaith o brosiectau'n cydweithio â phobl yn eu cymunedau wrth ochr gwyddonwyr blaenllaw er mwyn datblygu'r sgiliau a'r profiad i archwilio, astudio, mwynhau a diogelu eu hamgylchedd naturiol. Mae'r data'n cael ei gasglu i ddarparu adnodd addysgol newydd y gall y cymunedau ei hygyrchu.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £6,555,625. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2012.

# Atodiad

**Sefydliad:** **Sefydliad Plunkett**
**Enw'r cynllun grant:** **Making Local Food Work**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£10,033,875**

Mae Sefydliad Plunkett yn defnyddio'r ariannu i wneud dyfarniadau i brosiectau sy'n gweithio gyda phobl leol er mwyn iddynt dyfu eu bwyd eu hunain a rhedeg eu siopau a'u cydweithfeydd eu hunain. Mae'n ceisio ailgysylltu defnyddwyr â'r tir drwy gynyddu mynediad i bwyd ffres, iachus a lleol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £5,081,471. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2012.

**Sefydliad:** **Places for People Homes Ltd**
**Enw'r cynllun grant:** **Green spaces for people**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£15,669,999**

Mae'r ariannu hwn yn hwyluso amrywiaeth o brosiectau i greu a gwella mannau gwyrdd ar gyfer pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, yn enwedig ar ystadau lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £8,892,675. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2012.

## Children's Play

**Sefydliad:** **National Children's Bureau**
**Enw'r cynllun grant:** **Play England**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£14,494,368**

Nodau prosiect Play England yw dylunio ac adeiladu isadeiledd cefnogi a datblygu chwarae rhanbarthol a chynaliadwy ar gyfer Lloegr. Bydd y strwythur yn cefnogi asiantaethau lleol yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, cymunedol a menter gymdeithasol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2005/06 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £8,958,855. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2011.

## Lles

**Sefydliad :** **MEND Central Ltd**
**Enw'r cynllun grant:** **England on the MEND: Fitter, Happier and Healthier**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£7,997,162**

Rhaglen trin ac atal gymunedol sy'n canolbwyntio ar y teulu ar gyfer plant dros bwysau a gordew rhwng 7 a 13 oed.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £6,995,214. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Awst 2011.

**Sefydliad:** **The Soil Association**
**Enw'r cynllun grant:** **Food for Life**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£16,920,332**

Mae portffolio Food for Life yn rhaglen genedlaethol sy'n sefydlu 20 o gymunedau blaenllaw ym mhob un o naw rhanbarth y Llywodraeth. Gan ddefnyddio ysgolion lleol fel canolbwyntiau, nod y portffolio yw i blant a theuluoedd wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u mynediad i bwydydd iach a chynaliadwy.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £11,492,526. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2012.

**Sefydliad:** **West Midland Leaders Board (West Midlands Regional Assembly gynt)**
**Enw'r cynllun grant:** **Living Well in the West Midlands**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£6,793,739**

Portffolio o 31 o raglenni sy'n cyfrannu at leihau lefelau gordewdra, gwella iechyd meddwl a chynyddu cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn y rhanbarth.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £5,185,441. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2011.

**Sefydliad:** School Food Trust
**Enw'r cynllun grant:** Let's Get Cooking
**Grant a ddyfarnwyd:** £20,000,000

Nod y portffolio yw cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad bwyta plant oedran ysgol, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £9,304,144. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2013.

**Sefydliad:** Greater London Authority
**Enw'r cynllun grant:** Well London
**Grant a ddyfarnwyd:** £9,460,000

Mae'r portffolio hwn yn gweithio'n agos gyda 20 o gymunedau bach a difreintiedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet gwael, diffyg gweithgarwch corfforol a lles meddyliol gwael.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £6,093,733. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Hydref 2012.

**Sefydliad:** Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Stockport
**Enw'r cynllun grant:** North West Networks for Healthy Living Partnership
**Grant a ddyfarnwyd:** £7,043,000

Mae'r portffolio pum mlynedd hwn o brosiectau'n ymestyn ar draws Gogledd-orllewin Lloegr. Mae prosiectau enghreifftiol yn cynnwys prosiectau 'celf ar bresgripsiwn' i'r rhai ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn a chymedrol; gweithdai coginio a bwyta 'cawl a salad'; a rhaglenni 'iach am fywyd'.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £2,939,023. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Hydref 2012.

**Sefydliad:** Awdurdod Iechyd Strategol Swydd Efrog a'r Humber
**Enw'r cynllun grant:** Altogether Better – working to create healthier people and communities
**Grant a ddyfarnwyd:** £6,864,367

Mae portffolio Altogether Better yn cynnwys rhanbarth Swydd Efrog a'r Humber. Mae'n ceisio helpu pobl i fwyta'n well, bod yn fwy actif yn gorfforol a gwella eu hiechyd meddwl.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £3,397,203. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2013.

**Sefydliad:** Age UK (National Council on Ageing gynt)
**Enw'r cynllun grant:** Fit as a Fiddle
**Grant a ddyfarnwyd:** £15,177,417

Mae portffolio prosiectau cenedlaethol 'Fit as a Fiddle' yn ceisio symbylu diddordeb pobl hŷn mewn gweithgareddau corfforol a bwyta'n iach, yn ogystal ag ymdrin â materion sy'n ymwneud ag iechyd meddyliol a chorfforol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £6,697,495. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Hydref 2012.

**Sefydliad:** Mind – Cymdeithas Iechyd Meddwl Genedlaethol
**Enw'r cynllun grant:** Moving People
**Grant a ddyfarnwyd:** £16,150,000

Mae Moving People yn bortffolio cenedlaethol o brosiectau sydd â'r nod o ddileu stigma a gwahaniaethu drwy wella dealltwriaeth gyhoeddus, cynyddu dyheadau pobl a'u hannog i sefyll i fyny dros eu hawliau.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £11,477,882. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mai 2012.

# Atodiad

**Sefydliad:** Sustrans Cyf
**Enw'r cynllun grant:** Active Travel Consortium
**Grant a ddyfarnwyd:** £19,994,808

Nod y portffolio cenedlaethol hwn o brosiectau yw galluogi unigolion y nodwyd eu bod yn anactif neu'n annigonol o actif i gerdded a beicio fel rhan o'u bywydau bob dydd, gan wella eu lles corfforol a meddyliol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £10,662,480. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Awst 2012.

**Sefydliad:** Ffederasiwn Ymddiriedolaethau Groundwork
**Enw'r cynllun grant:** Targed: Lles
**Grant a ddyfarnwyd:** £8,872,800

Portffolio o 91 o brosiectau i wella lles pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig drwy gyflwyno gweithgareddau sy'n gwella lles meddyliol, yn cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ac yn annog bwyta'n iach.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £5,267,410. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2012.

**Sefydliad:** South East Coast Strategic Health Authority
**Enw'r cynllun grant:** Chances 4 Change – Readdressing the hidden health inequalities in the South East
**Grant a ddyfarnwyd:** £5,609,580

Portffolio sy'n cynnwys 62 o brosiectau i fynd i'r afael â'r grwpiau a'r unigolion sydd wedi'u heithrio fwyaf yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddaearyddol ac sydd am wella eu hiechyd yn barhaol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £3,904,578. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2012.

## Portffolio'r Alban

### Investing in Communities – Dynamic, Inclusive Communities

**Sefydliad:** Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol Yr Alban (SCVO)
**Enw'r cynllun grant:** Supporting Voluntary Action
**Grant a ddyfarnwyd:** £8,143,844

Mae'r grant yn cydlynu rhaglen strategol o weithgareddau sydd â'r nod o wella gweithrediad ac effeithiolrwydd y rhwydwaith CGG yn gyffredinol, yn cydlynu ac yn gwella'r ffordd y mae'n gweithio gyda rhwydweithiau eraill y sector gwirfoddol a chydraddoldeb ar draws y wlad.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £2,782,756. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2012.

## Portffolio Gogledd Iwerddon

### Ymddiriedolaeth Building Change (Gogledd Iwerddon)

**Sefydliad:** Building Change Trust Ltd
**Enw'r cynllun grant:** Building Change Trust
**Grant a ddyfarnwyd:** £10,000,000

Bydd Ymddiriedolaeth Building Change yn buddsoddi £10 miliwn i helpu grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol mwy i addasu a datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau y bydd y sector yn addas i'r diben yn y dyfodol. Caiff yr arian ei fuddsoddi dros 10 mlynedd.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2008/09. Erbyn 31 Mawrth 2009, mae £10,000,000 wedi'i dalu. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2019.

## Rhaglenni a etifeddwyd

### Ymddiriedolaeth Cyfran Deg

**Sefydliad:** Ymddiriedolaeth Cyfran Deg Cyf
**Enw'r cynllun grant:** Ymddiriedolaeth Cyfran Deg
**Grant a ddyfarnwyd:** £50,000,000

Mae Ymddiriedolaeth Cyfran Deg wedi'i thargedu at 77 o ardaloedd ar draws y DU a gollodd allan ar arian y Loteri cyn 2002. Mae'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol yn cyflwyno'r rhaglen ar ein rhan ar draws y DU ac yn rheoli asiantau datblygu ym mhob ardal Cyfran Deg.

Dyfarnwyd y grant yn 2002/3. Bydd y grant yn dod i ben yn Yr Alban ym mis Mawrth 2010 ac yng ngweddill y DU yn 2013. Talwyd y grant llawn i'r Ymddiriedolaeth yn 2002/03.

### Chwaraeon Cymunedol

**Sefydliad:** sportscotland
**Enw'r cynllun grant:** Youth Football Action Plan
**Grant a ddyfarnwyd:** £6,000,000

Mae'r trefniad hwn yn ariannu'n rhannol y cynllun gweithredu pêl-droed i bobl ifanc a redir gan Gymdeithas Pêl-droed Yr Alban. Dyma raglen ledled Yr Alban sy'n ariannu pob agwedd ar bêl-droed i bobl ifanc o'r gwaelod i fyny.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2006 ac erbyn 31 Mawrth 2010 roeddem wedi talu £4,544,843. Disgwylir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2010.

### Cyfleoedd Newydd ar gyfer Iechyd

**Sefydliad:** Sefydliad Prydeinig y Galon
**Enw'r cynllun grant:** Heart Failure Support Network
**Grant a ddyfarnwyd:** £9,302,733

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2002/03. Erbyn 31 Mawrth 2010, mae £9,302,733 wedi'i dalu. Cwblhawyd y prosiect hwn yn 2009.

### Yr Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth

**Sefydliad:** Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU
**Enw'r cynllun grant:** Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU
**Grant a ddyfarnwyd:** £29,000,000

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08. Gwnaethom ddyfarnu grant o £29 miliwn. Gwnaed dyfarniadau ar wahân gan DCMS a Chyngor Celfyddydau Lloegr i greu gwaddol £40 miliwn ar gyfer Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU.

Bydd Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU yn helpu cymunedau ledled y wlad i greu etifeddiaeth a fydd yn parhau yn sgil Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain yn 2012. Bydd eu prosiectau'n uno diwylliant, chwaraeon ac addysg, yn gwneud gwahaniaeth parhaus i bawb dan sylw, yn cefnogi mentrau cymunedol, sydd yn aml yn rhai graddfa fach ac yn uno cymunedau buddiant ar lefel leol a rhanbarthol. Mae Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU eisoes wedi ymrwymo'r mwyafrif o'r arian ar gyfer ei rhaglen ranbarthol a chenedlaethol, a bydd yn cwblhau ei waith erbyn 2013.

**Argraffu** Belmont Press

**Cynllun** Graphicsi Ltd

**Ffotograffau** Steve Brock, Kevin Clifford, Peter Devlin, Kevin Fitzmaurice-Brown, Steve Forrest, Dominic Holden, Martin Jenkinson, Brian Morrison, Amaya Roman, Paula Solloway and Chris Watt.

**Copïau pellach ar gael o:**

E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk

Ffôn 01686 611 700

Ffôn testun 0845 6 02 16 59

Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

**Mynediad**

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

**Ein hegwyddorion cydraddoldeb**

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

**Rydym yn gofalu am yr amgylchedd**

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig.

**Ein gweledigaeth**

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

**Ein gwerthoedd**

Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr a chyllidwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin â thegwch.

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac ar gael:
**Ar y we**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffon, ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebu trwy Linell Frys y Senedd: Lo-Call 0845 7 023474
E-bost customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

**Siop Lyfrau'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866
E-bost bookshop@Parliament.uk
Rhyngrwyd bookshop.Parliament.uk

**TSO@Blackwell ac Asiantaethau Achrededig eraill**

**Gall cwsmeriaid hefyd archebu cyhoeddiadau gan**
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401